Cymru

GWOBRAU TAI CYMRU 2016

# COMPENDIWM ARFER DA

## Rhannu'r gwersi a ddysgwyd wrth Gwobrau Tai Cymru 2016



Noddwyd gan HouseMark Cymru

HouseMark

# Shape and share your value for money story… with a little help from us.

**Within your existing HouseMark membership you can:**

- Use our data and analysis tools to understand and contextualise spend.
- Compare how you perform against Welsh and UK-wide counterparts.
- Access good practice, share stories and learn from others in the sector.

If you want to know more about how our services can help you tell your value for money story, contact us on **024 7646 0500** or email **info@housemark.co.uk**.

**Not a member?** Get in touch to see how we can help.

connect with peers to share best practice

unrivalled cost and performance data to support decision making

**950**
members across the uk

# COMPENDIWM ARFER DA

Rhannu'r gwersi a ddysgwyd wrth Gwobrau Tai Cymru 2016

# Gwobrau Tai Cymru 2016 - ymgeiswyr ar y rhestr fer



| Gwobr contractwr sydd â ffocws ar y gymuned | | |
|---|---|---|
| SATC Caerffili | Keepmoat | 5 |
| Gwaddol Lovell | Lovell Partnerships Ltd | 6 |
| Gadael gwaddol | Contract Services South Wales Ltd | 8 |
| Ymgyrch nôl i'r gymuned: cefnogi cymunedau trwy ddatblygu cynaliadwy cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol | Morganstone | 9 |

| Gwobr syniad newydd | | |
|---|---|---|
| Cam wrth Gam | Cartrefi Melin | 11 |
| Rheoli eiddo gwag | Cymdeithas Tai Sir Benfro | 12 |
| Partner cartref | Cartrefi Conwy | 14 |

| Gwobr cydweithredu (arweinydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) | | |
|---|---|---|
| Ailddefnyddio, lleihau ac ailgylchu | Bron Afon gyda TRAC2 | 15 |
| Partneriaeth rhydd o ofn | Charter Housing Association a phartneriaid | 17 |
| Y Ffordd i Rio | Cartrefi Dinas Casnewydd gyda Newport Live a phartneriaid | 18 |

| Gwobr cydweithredu (ALl/arweinydd arall) | | |
|---|---|---|
| Cartrefi i Gymru | Cartrefi Cymunedol Cymru a phartneriaid | 20 |
| Dod ag Emmaus i Gymru | Emmaus South Wales gyda Cymoedd i'r Arfordir | 21 |
| Adfywio Lle Rowan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a phartneriaid | 23 |

| Gwobr hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a chefnogaeth | | |
|---|---|---|
| Connect | United Welsh | 24 |
| Achos pryder | Charter Housing Association a phartneriaid | 26 |
| Film Vibez | Cymoedd i'r Arfordir | 27 |

| Gwobr grymuso a chynnwys cymunedau | | |
|---|---|---|
| Pencampwyr digidol | Cymdeithas Tai Newydd a phartneriaid | 29 |
| Adfywio ieuenctid Wildmill | Tai Cymoedd i'r Arfordir gyda Chlwb Ieuenctid Wildmill | 30 |
| Gwireddu'ch potensial | Cymdeithas Tai Cadwyn | 32 |
| Ein sefydliad cydfuddiannol | Cartrefi Cymoedd Merthyr | 33 |

| Gwobr rhagoriaeth cwsmeriaid | | |
|---|---|---|
| Diwylliant cwsmeriaid | Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd a phartneriaid | 35 |
| Y tîm cyswllt cwsmeriaid | Cartrefi Melin | 36 |
| Cartrefi NPT | Mi-space UK Ltd | 37 |

| Gwobr cyfathrebu a chyhoeddiadau | | |
|---|---|---|
| Llais y tenantiaid | Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf | 39 |
| #HatsOffNewport | Cartrefi Dinas Casnewydd | 40 |
| Ymgyrch cymryd rheolaeth | Cartrefi Conwy | 42 |
| Gwahardd gwely a brecwast | End Youth Homelessness Cymru a phartneriaid | 43 |

| Gwobr datblygiad newydd | | |
|---|---|---|
| Cysgod y Gogarth | Cartrefi Conwy | 45 |
| Urban Village | Coastal Housing Group a phartneriaid | 46 |
| Cwrt y Tollty | Cyngor Sir y Fflint a phartneriaid | 48 |
| Hamadryad Court, Bae Caerdydd | Morganstone gyda Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd | 49 |
| Gofal Ychwanegol Tŷ Heulog, Rhondda Cynon Taf | Keepmoat | 50 |



**Diolchiadau** **Golygydd:** Jonathan Barnes **Llunio/cymorth:** Ingrid Smith, Lynne Hatch

# Gwobr contractwr sydd â ffocws ar y gymuned

Mae'r wobr hon yn cydnabod y contractwyr sydd wedi dangos ymrwymiad i ymgorffori manteision i'w cymuned yn eu rhaglenni gwaith. Byddant wedi dangos creadigedd a byddant wedi cofleidio'r agenda recriwtio a hyfforddi targedig ehangach. Bydd ganddynt ystod o enghreifftiau ymarferol o sut maen nhw wedi cyflwyno amcanion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol i wella bywydau cymunedau Cymru.



## SATC Caerffili

### Keepmoat

*"Adeiladu cymunedau. Trawsnewid bywydau."*

Mae cymunedau wrth wraidd yr hyn a wnawn yn Keepmoat. Â ein gwaith y tu hwnt i frics a morter. Cydnabyddwn ei bod hi'n hynod bwysig cefnogi pobl leol a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Integreiddiwn yn llawn mewn cymunedau a gweithiwn yn agos gyda phreswylwyr a phartneriaid er mwyn gadael effaith gadarnhaol tymor hir. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymroi dros 700 o oriau i brosiectau cymunedol ac elusennol yn Ne Cymru.

Rydym yn ymroi i ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl leol, lle mae 40% o'n gweithlu yn y rhanbarth naill ai'n hyfforddeion neu'n brentisiaid.

Gweithiwn gydag ysgolion a cholegau trwy wasanaethau i ymweliadau safle er mwyn rhoi gwybod iddynt am beryglon chwarae ar safleoedd adeiladu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr adeiladu proffesiynol.

#### Astudiaeth achos – SATC Caerffili

Keepmoat yw un o'r contractwyr ar raglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) gwerth £200miliwn Cyngor Caerffili. Bydd rhaglen SATC yn gweld cartrefi tenantiaid cyngor ym mwrdeistref Caerffili yn cael eu gwella i set o safonau, gan gynnwys gwaith mewnol ac allanol a gwelliannau i'r amgylchedd.

Yn ogystal â chyflawni llawer o welliannau mawr eu hangen, mae'r cynllun wedi galluogi Keepmoat i ddarparu cyfleoedd gwaith/hyfforddiant i bobl leol:

- Ymunodd myfyriwr di-waith â thîm Keepmoat am leoliad profiad gwaith gweinyddol o wyth wythnos yn cysgodi Swyddogion Cyswllt y Preswylwyr
- Ymwelodd Keepmoat â chanolfan waith Caerffili fel rhan o 'Ymgyrch mewn Blwch' ar gyfer y mis adeiladu, er mwyn dangos i'r staff y llwybrau i adeiladu. Yn ogystal, rhoddodd Keepmoat gyflwyniad i 10 o bobl ddi-waith ynghylch y rolau yn y maes adeiladu.
- Cyflogodd Keepmoat chwe phrentis lleol ar gynllun Caerffili dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Ochr yn ochr â rhaglen LIFT, Cyngor Caerffili a Chymunedau yn Gyntaf, ymwelodd Keepmoat â grŵp o 12 o bobl leol ddi-waith o fwrdeistref Caerffili a chynhaliwyd sesiynau un-i-un gyda nhw mewn perthynas â'r diwydiant adeiladu. Cymerodd y 12 ymgeisydd ran yn y rhaglen 'Cyflwyniad i Adeiladu', gan ennill profiad a sgiliau trwy sesiynau adeiladu ymarferol a seiliedig ar theori yn ystod eu lleoliad pythefnos o hyd gyda Keepmoat.
- Dywedodd y Cyng. David Poole, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ar gyfer Tai: "*Gwnaeth y cyngor ymrwymiad clir y byddai ei raglen SATC yn cael ei ddefnyddio nid dim ond i wella cartrefi, ond hefyd i drawsnewid bywydau a chymunedau. Trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, mae prosiectau arloesol fel 'Cyflwyniad i Adeiladu' yn cael eu datblygu i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud i SATC, gan gyflwyno canlyniadau arwyddocaol i bobl leol ar yr un pryd.*"

Yn ystod y flwyddyn, mae Keepmoat wedi ymroi dros 200 o oriau dynol i brosiectau cymunedol/elusennol ym mwrdeistref Caerffili:

- Cydweithredodd Keepmoat, ar y cyd â'r Dosbarth Busnes, sy'n rhan o Gyrfa Cymru, gydag Ysgol y Coed Duon tros gyfnod o dair blynedd, er mwyn darparu cyfleoedd ymgysylltu i'r ysgol gyfan. Yn y flwyddyn hon yn unig, mae Keepmoat wedi cynnal sgwrs gyda 400 o fyfyrwyr ar adeiladu, wedi gosod cystadleuaeth creu logo, wedi cynnal gweithdai dylunio, ac wedi ymweld â safleoedd Keepmoat i drafod materion iechyd a diogelwch. Mae'r gystadleuaeth logo wedi

arwain at yr ysgol yn ail-frandio'i hun gyda logo newydd a ddyluniwyd gan un o'r myfyrwyr.

- Ymgysylltu gydag Ysgol Gynradd Penllwyn i ddarparu cyflwyniadau a chystadlaethau Iechyd a Diogelwch, sesiynau STEM ar y cyd â'r Eden Education Centre gan ddefnyddio Lego, ac addurno blychau adar/adeiladu gwestai trychfilod i dynnu sylw at faterion amgylcheddol.
- Trefnodd Cymunedau yn Gyntaf ddiwrnod sgip i'r gymuned, a ariannwyd ac a gefnogwyd gan Keepmoat.
- Roedd Keepmoat yn noddwyr corfforaethol balch i Hosbis Plant Tŷ Hafan o 2013-2015. Yn ogystal, cododd y staff arian i sawl elusen arall eleni, gan gynnwys yr elusen ddigartrefedd The Wallich a'r elusen trais domestig corfforaethol a enwyd ar gyfer 2016 Hafan Cymru trwy gymryd rhan yn y Cyclone 24 Challenge, nenblymiad a thrwy gynnal dawns fasgiau. Mae'r tîm wedi codi swm sylweddol o £35,000 i elusennau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Dyma'n prif ganlyniadau a chyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Mae oddeutu 40% o'n gweithlu yn Ne Cymru'n cynnwys prentisiaid a hyfforddeion.
- Rydym yn ymroi i ddefnyddio llafur lleol ar ein safleoedd, ble bynnag y bo'n bosibl.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ymroi dros 700 o oriau i brosiectau cymunedol ac elusennol.
- Gwerth ein cyfraniad cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn y rhanbarth ar gyfer y flwyddyn yw dros £40,000.
- Rydym wedi ymroi dros 200 o oriau ar brosiectau cymunedol ac elusennol yn unig ym mwrdeistref Caerffili, gydag Ysgol Gynradd Penllwyn ac Ysgol y Coed Duon yn rhoi adroddiadau disglair i ni ar gyfer ein gweithdai diogelwch, technoleg ac amgylchedd.
- Coladwn adborth gan yr ysgolion a'r colegau y gweithiwn gyda nhw. Saif ein sgôr bodlonrwydd ar gyfer gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar 98% ar hyn o bryd, gyda 99.2% yn dweud y byddent yn cadw lle mewn gweithgareddau eraill gyda ni. Rydym yn derbyn sylwadau cadarnhaol yn gyson hefyd: *"Roedd y digwyddiad yn wych. Ni allem redeg digwyddiadau mewn ysgol fel hyn heb gefnogaeth Keepmoat. Caiff ei werthfawrogi'n fawr."*
- Eleni'n unig, rydym wedi cael 13 o fyfyrwyr profiad gwaith a 6 phrentis ar gynllun SATC.
- Mae'r tîm wedi codi swm sylweddol o £35,000 ar gyfer elusennau Tŷ Hafan, The Wallich a Hafan Cymru.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae Keepmoat wedi darparu ystod eang o fuddiannau cymunedol ac wedi cymryd perchnogaeth o wneud gwahaniaeth.*

**Charlie Hargreaves**
Rheolwr buddsoddi cymunedol

Keepmoat

**Ff:** 07969 537557
**E:** Charlie.Hargreaves@keepmoat.com




# Lovell Legacy

## Lovell Partnerships Ltd

Cymuned, addysg, cyflogaeth a chynaliadwyedd yw pedwar conglfaen ein hymrwymiad i drawsnewid cymunedau ac maen nhw wrth wraidd ein busnes. Rydym yn falch o helpu cymunedau, diogelu ein hamgylchedd, ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol ac rydym yn rhagweithiol wrth gynnig cyfleoedd i bobl leol o ddigwyddiadau cymunedol, i fentrau cyflogaeth a hyfforddiant a gyflwynir gan ein staff ymroddedig yn y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.

Yn Llys Trevor Bowen, cynhaliom fenter 'Rhoi ac Ennill' i baentio ochr fewnol/allanol Canolfan Ddysgu i Deuluoedd Overmonnow a gwnaethom gefnogi'r ysgol gynradd leol yn eu prosiect tywydd seiliedig ar y cwricwlwm, gan weithio gyda nhw i greu ardal ddysgu awyr agored.

*"Roedd y plant wrth eu bodd yn ymweld â'r safle ac yn dod i wybod am y prosiect adeiladu lleol. Mae wedi helpu'r plant gan eu bod wedi dod yn fwy ymwybodol o'r effaith y gall tywydd ei gael. Hoffem ddiolch i Lovell am roi profiad cofiadwy i ni."* - Kelly Jukes, Ysgol Gynradd Overmonnow.

Rydym wedi cynnig dwy brentisiaeth hefyd - plymer prentis trwy'n his-gontractwr a phrentis Lovell, Chester, sydd wedi aros a datblygu gyda'r cwmni ac sydd bellach yn gweithio ar brosiect Loftus Garden Village.

Gweithiwn gyda chynifer o randdeiliaid â phosibl fel rhan o'n polisi ymgysylltu â'r gymuned. Yn natblygiad Brackla, gweithiom gydag Ysgol Gynradd Brackla i gyflwyno cystadleuaeth arwydd diogelwch y ffyrdd ac rydym wedi cael dros 60 o geisiadau gan ddisgyblion – mae 7 arwydd bellach wedi'u codi y tu allan i'r ysgol o ganlyniad. Ymdrechwn hefyd i ddenu a datblygu gweithlu dawnus a darparu cyfleoedd prentisiaeth ar bob un o'n prosiectau, p'un a ydym yn codi cartrefi i'w gwerthu, yn contractio gwaith dylunio ac adeiladu, yn adnewyddu neu'n adfywio, darparwn amrywiaeth enfawr o fentrau hyfforddiant a chyflogaeth sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion y prosiect a'r bobl leol.

Yn natblygiad Bronte, gwnaethom wahodd myfyrwyr lleol y tu ôl i'r llenni, a welodd 24 o fyfyrwyr yr ail flwyddyn o Ysgol Bensaernïaeth Cymru'n ymweld â'r safle i weld cynnydd mewn adeiladu.

Dywedodd Tim Crooks o Linc:

*"Roedd hwn yn gyfle i fyfyrwyr pensaernïaeth weld gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar gynllun graddfa fawr a gwerthfawrogi'r ffordd y caiff dyluniadau eu gwireddu pan fydd prosiect yn cael ei adeiladu. Siaradon ni drwy'r broses adeiladu gyda nhw, gan esbonio ym mha ddilyniant fyddai'r gwaith yn cael ei wneud a gwnaethom wir fwynhau ateb eu cwestiynau."*

Mae'r Beeches Village, Caerffili'n dangos sut rydym yn ymdrechu bob amser i greu effaith gadarnhaol ac, er i'r prosiect fod yn un heriol ar adegau; ystyriwyd safbwyntiau/anghenion y gymuned leol ar hyd y prosiect. Gwnaethom ddarparu cynlluniau hyfforddi a pedair prentisiaeth ar y prosiect. Dychwelodd Jamie Baird, sef un o'r prentisiaid hyn, i'r safle lle cafodd ei eni, trwy gynllun 'Y Prentis':

*"Dyma'r tro cyntaf imi weithio ar safle go iawn, felly rwy'n dysgu drwy'r amser. Braf yw cael cysylltiad personol â'r safle gan fy mod i wedi cael fy ngeni yma ac yn dal i fyw yn lleol."*

Rydym wedi creu stiwdio animeiddio newydd ar gyfer myfyrwyr celf a dylunio TGAU a Safon Uwch yn Ysgol St Martin's hefyd.

Yn ddiweddar, cefnogwyd Coleg Gwent gennym gyda'i fideo 'Improve Your Prospects' sy'n hyrwyddo pwysigrwydd mathemateg a Saesneg i'r rhai sy'n gadael yr ysgol. Ymddengys ein cyfarwyddwr rhanbarthol, rheolwr technegol rhanbarthol a nifer o aelodau staff eraill yn y fideo sy'n targedu'r rheiny sydd newydd adael yr ysgol i wella'u mathemateg a'u Saesneg, ac mae'n pwysleisio'u pwysigrwydd ym mhob swydd a gyrfa. (www.youtube.com/watch?v=sXZhakKzwkU)

Cefnogwn amrywiaeth enfawr o wahanol fentrau ac rydym yn gwbl hyblyg yn y digwyddiadau a drefnwn ac a ddarparwn. Mae gennym ddull creadigol o gyflwyno manteision diriaethol i bawb ac ar un safle yn ddiweddar, codom ymwybyddiaeth o ganser y fron mewn partneriaeth â Bullivants trwy osod pyst sylfaen pinc ar y safle!

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Yn Lovell, rydym yn ymroi i adael gwaddol cadarnhaol, hunangynhaliol yn y cymunedau y gweithiwn ynddynt. Mae gennym brofiad helaeth o greu datblygiadau daliadaeth gymysg sy'n helpu dod â phobl at ei gilydd a chymerwn ein cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol o ddifrif mawr, boed hynny'n golygu gadael rhywun gyda chartref newydd, cegin neu ystafell ymolchi wedi'i hadnewyddu, canolfan gymunedol wedi'i hadnewyddu, cyngor ar lunio CV, profiad gwaith neu yrfa newydd. Ceisiwn adael gobaith ac optimistiaeth ar bob prosiect yr ymgymerwn ag ef a galwn yr ymrwymiad hwn yn 'Gwaddol Lovell'.

Cefnogwn adfywiad cymunedau trwy gynnwys pobl leol a chynnig cyfleoedd i bawb, o brentisiaethau, mentora a lleoliadau gwaith i foreau coffi, prosiectau gwella a gweithio gydag ysgolion lleol. Gweithiwn gyda phobl sydd â diddordeb yn eu cymunedau a chyda nhw rydym yn cyflwyno mentrau ymgysylltu, hyfforddiant a chyflogaeth – manteision diriaethol i bobl go iawn.

Cydweithiwn gyda'n partneriaid i herio rhai o'r materion sy'n cael eu profi yn y cymunedau y gweithiwn ynddynt, er mwyn dod â phobl at ei gilydd ac annog dull mwy cadarnhaol gan bawb, gan roi cymorth ar bob lefel. Mae ein diwrnod golff Lovell blynyddol, sydd bellach yn ei 24ain blwyddyn ac yn cael ei gyflawni gyda chymorth ein cleientiaid a'n partneriaid cadwyn gyflenwi, yn codi arian i elusennau lleol bob blwyddyn, yn eu plith Shelter Cymru, Bobath, Sefydliad Prydeinig y Galon, MacMillan, CHAPS (Cynllun Ceffylau a Merlod Cymunedol).

Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, rydym wedi:

- Darparu 38 prentisiaeth/1440 wythnos prentisiaeth
- Darparu 42 o leoliadau profiad gwaith
- Rhoi dros £78,000 i gymunedau lleol a 486 o oriau o amser staff

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae Lovell Partnership Ltd wedi dangos ymrwymiad trawiadol i ddysgu a phrentisiaethau*

**Gemma Clissett**
Rheolwr datblygu busnes

Lovell Partnerships Ltd

**Ff:** 02920 811888
**E:** gemma.clissett@lovell.co.uk



# Gadael gwaddol

## Contract Services South Wales Ltd gyda Chymunedau yn Gyntaf, Lift, Down to Earth, Ysgol Gyfun St. Martins, Caerffili

Fel contractwr yn y sector tai cymdeithasol yng Nghymru, meddyliom yn hir ac yn galed am fynd ymhellach na dim ond ticio blychau cydymffurfiaeth â Recriwtio a Hyfforddiant Targedig. Fel yr unig gontractwr adeiladu yng Nghymru sydd wedi cofrestru â'r Sefydliad Cyflog Byw, mae Contract Services wedi mabwysiadu dull newid mewn camau i ymgysylltiad cymunedol ystyrlon trwy fagu cryfder rhanddeiliaid amryfal, ac arwain at brosiectau y gellir eu cyflwyno'n raddol ar draws sawl cymuned.

Er enghraifft, rydym wedi arwain y ffordd gyda Chyngor Caerffili ymhlith ein cystadleuwyr fframwaith mwy o faint trwy herio confensiwn a nodi dyheadau Caerffili o raglen SATC. Yn hytrach na cheisio helpu pawb yn ofer, rydym wedi ymroi i un ysgol uwchradd ar hyd parhad y contract 6 blynedd a chytunwyd rhaglen o fentrau. Gan ganolbwyntio ar un gymuned benodol, rydym wedi dyfeisio rhaglen wedi'i theilwra iddynt o'r enw 'Gwneud tŷ yn gartref'. O'i glustnodi i Lansbury Park, sydd eisoes wedi'i alw yn 'ardal fwyaf dan anfantais Cymru' yn rhaglen ddogfen y BBC 'Fighting back' yn gynharach eleni, cyflwynwn ganlyniadau mesuradwy ac a gytunwyd ar y cyd sy'n gwella ansawdd bywyd, gan adael gwaddol parhaol y gall pobl barhau i'w datblygu a thyfu. Rydym bellach yn bwriadu ailadrodd y dull hwn ar draws ein contractau eraill.

Trwy weithio gyda Chymunedau yn Gyntaf a Lift, rydym wedi datblygu cwrs meithrin sgiliau a magu hyder i denantiaid benywaidd Lansbury Park. Mae'r rhaglen dair wythnos yn ystod oriau ysgol i chwalu rhwystrau, a'i fwriad yw grymuso unigolion yn y cartref, magu hyder ac annibyniaeth. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys DIY sylfaenol, cymorth cyntaf, cyllidebu a rheoli incwm; yn ogystal â magu hyder, a rolau adeiladu. O gwblhau'r cwrs, gall y mynychwyr symud i'r cam cyrhaeddiad nesaf o gardiau'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu os dymunant. Ceir agenda cadarnhaol tuag at ferched mewn adeiladu, a nod y cwrs yw arddangos ystod eang y rolau sydd ar gael a gwella cynaliadwyedd yn eu cartrefi.

Wrth i Contract Services agosáu at ei 20fed flwyddyn o fasnachu, rydym wedi gosod ein golygon ar gyrraedd cerrig milltir allweddol erbyn 2020. O gael hyfforddiant a chyflogaeth, anelwn at sicrhau bod 20% o'n gweithlu'n cynnwys rolau hyfforddi a phrentisiaeth ffurfiol. O'n gweithlu uniongyrchol presennol, mae 22 o'r 145 o weithwyr yn brentisiaid, sy'n gyfwerth â 15%. Gyda phrentisiaid 2016 yn mynd rhagddynt, rydym yn edrych i gyflawni 20% erbyn diwedd y flwyddyn. Er mwyn rhoi syniad o raddfa'r ymdrechion hyn, mae gan gystadleuydd cenedlaethol mawr 294 o brentisiaid masnach sy'n gyfwerth â dim ond 2% o'i weithlu. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i effeithio ar y prinder sgiliau yn y sector yn ogystal â chynnal cyfleoedd lleol i bobl leol.

Rydym wedi cysylltu gyda'r fenter gymdeithasol 'Down to earth' yng Ngŵyr; mae'r rhain yn arbenigo mewn hyfforddi grwpiau anodd eu cyrraedd, er enghraifft pobl ifanc, mewn amgylchedd awyr agored. Mae'r berthynas yn ddeublyg: rydym wedi ymgysylltu gyda nhw trwy ddefnyddio'u gwasanaethau hyfforddi at ddibenion magu hyder a meithrin tîm ar gyfer ein prentisiaid, ac yn ail, maen nhw'n adeiladu cyfleuster preswyl ar y safle i letya cynrychiolwyr ar gyfer hyfforddiant i'r dyfodol, gan ddefnyddio ffurfiau adeiladu treftadaeth / crefft mwy traddodiadol. Mae ganddynt gyllid cyfyngedig ac rydym yn gweithio gyda nhw i helpu darparu defnyddiau a llafur trwy hyfforddiant i gwblhau'r prosiectau hyn. Yn ogystal, bwriadwn chwilio am hyfforddiant meithrin tîm pellach ar gyfer gweddill y gweithlu. Rydym wedi cyflwyno'r ysgol uwchradd iddynt hefyd a byddwn yn defnyddio'u gwasanaethau hyfforddiant fel rhan o'r gefnogaeth a'r mentora y bydd ein tîm safle'n darparu i'r ysgol. Yn hyn o beth, byddwn yn eu cyfeirio at gyfleoedd busnes newydd yn ogystal â defnyddio'u gwasanaethau fel busnes ac at ddibenion partneru er budd rhanddeiliaid eraill.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Ymhlith y canlyniadau hyd yma mae sicrhau busnes mynych gan gleientiaid, gan ein galluogi ni i barhau i gynnal cyflogaeth.

Fel y crybwyllodd y Cyng. David Poole, dirprwy arweinydd ac aelod cabinet ar gyfer tai yn CBS Caerffili:

*"Mae Contract Services wedi gwneud cynnydd gwych, dros gyfnod amser cymharol fyr, wrth gyflwyno buddiannau cymunedol ym mwrdeistref sirol Caerffili. Mae'r cwmni wedi dangos parodrwydd gwirioneddol i weithio mewn partneriaeth â'r cyngor, ynghyd â'r brwdfrydedd a'r ymrwymiad i wneud gwir wahaniaeth i fywydau preswylwyr a chymunedau lleol."*

Mae ein hymrwymiadau elusennol wedi'n gweld ni'n codi bron i £25,000, y codwyd £12,000 ohono yn 2016 i Tŷ Hafan. Ymhlith y gweithgareddau oedd her 3 chopa Cymru, diwrnodau hwyl i'r teulu, nosweithiau cwis, diwrnodau golff, ciniawau elusennol a theithiau cerdded mewn pyjamas unwisg. O ran cyflogaeth (a gafwyd o'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt) roedd y cyflawniadau'n cynnwys:

- Ymestyn y lleoliad 12 mis i hyfforddeion gan 12 mis pellach
- Sicrhau 6 lleoliad Twf Swyddi Cymru
- Cyfradd gadw o 100% gyda phob prentis
- Pedwar lleoliad gwaith – daeth yr ymgeiswyr o Ymddiriedolaeth Shaw a rhaglen Lift gyda dau'n symud ymlaen i gyflogaeth barhaol.
- Am bob £1 sy'n cael ei wario ar y contract, mae £2 yn cael ei roi'n ôl i Economi Cymru.
- Ymroi i uwchsgilio'r gweithlu a'r isgontractwyr

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae Contract Services South Wales Ltd yn BBaCh sy'n ymroi i adeiladu'r economi leol a gwneud gwahaniaeth.*


**Lucy Davies**
Swyddog cyswllt cymunedol

Contract Services South Wales Ltd.

**Ff:** 07977308620
**E:** lucy.davies@contractservicesgroup.co.uk





# Ymgyrch nôl i'r gymuned: cefnogi cymunedau trwy ddatblygu cynaliadwy cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol

## Morganstone

Mae Morganstone yn ymroi i ddatblygu a chyflawni buddiannau cymunedol diriaethol a chyfleoedd recriwtio a hyfforddi targedig yn y gymuned. Ymdrechwn i leihau'r effaith ar yr amgylchedd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth wrth feithrin gwaddolion yn y cymunedau y gweithiwn ynddynt.

Cred Morganstone fod hyfforddiant a chyflogaeth yn cynnig cyfleoedd i'r cymunedau y gweithiwn ynddynt ac maen nhw'n hollbwysig i ddyfodol tymor hir y diwydiant adeiladu ac felly'n fanteisiol i'w gilydd. Ymgorfforir y dull hwn yn ein polisi cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac mae'n llywio'n holl weithgareddau.

Cefnogwn sefydliadau ac elusennau yn y cymunedau y gweithiwn ynddynt ac rydym yn ymroi i fuddsoddi yn y gweithlu lleol a'r gadwyn gyflenwi. Rydym yn ymroi i gyflogi o gymunedau lleol trwy LIFT, Cyfle ac Y Prentis.

Rydym yn ymroi i hyrwyddo'r diwydiant adeiladu. Gwnaethom ddatblygu rhaglen diwrnod byd gwaith sy'n ymgysylltu â sawl ysgol gyfun ranbarthol er mwyn dod â nhw at ei gilydd mewn digwyddiadau i'w hysbysu ynghylch rolau a llwybrau amrywiol y diwydiant.

Mabwysiadwn ddull rhagweithiol a strategol o sicrhau bod y cymunedau presennol wrth wraidd cynllunio a chyflawni pob un o'n prosiectau. Mae ein rheolwr ymgysylltu â'r gymuned a gyflogir yn uniongyrchol yn paratoi proffiliau cymunedol wedi'u teilwra ar gyfer ein holl brosiectau er mwyn dynodi:

- rhanddeiliaid allweddol
- meysydd potensial lle gallwn fod o fudd i'r gymuned
- meysydd effaith negyddol potensial y datblygiadau
- cyfleoedd am brentisiaethau lleol, profiad gwaith a chyflogaeth

Defnyddir y proffiliau i deilwra strategaethau cymunedol sy'n unigryw i bob prosiect. Mae ein rheolwr ymgysylltu â'r gymuned yn gweithio'n agos gyda thîm y prosiect, y cleientiaid a'r gymuned i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cyflawni. Mae gan bob prosiect ei 'dudalen we gymunedol' ei hun sy'n darparu diweddariadau cymunedol cyson yn ogystal â phostio llythyrau'n draddodiadol a byrddau safle cymunedol. Yn ogystal â mentrau sy'n canolbwyntio ar brosiectau, cynhaliom nifer o fentrau ledled y cwmnïau/rhanbarthau i gefnogi cyflogaeth, mentrau hyfforddi a sefydliadau cymunedol ar draws Cymru.

Ymhlith yr enghreifftiau penodol mae:

### Old Oak Housing Co-operative

Rydym wedi gweithio gyda Gwalia, Cyngor Sir Caerfyrddin a'r gydweithrediaeth dai i gynnal ystod o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned sy'n cynnwys: cyfarfodydd briffio, diwrnod gwybodaeth gymunedol, postio llythyrau/cylchlythyrau, diwrnodau dewis lliw'r preswylwyr, gweithgareddau gosod brics, seremoni torri tyweirch, parti cymunedol. Gwnaethom hyd yn oed ddod â'n Siôn Corn ein hunain a'n blychau dewis siocledi i Barti Nadolig aelodau'r gydweithrediaeth!

Dywedodd Jonathan Hughes, y Cyfarwyddwr Datblygu:

*"Mae Grŵp Pobl wedi gweithio gyda Morganstone ar ystod o brosiectau. Nodweddwyd pob cynllun gan ddull cryf ac ymroddedig o droi at ymgysylltu â'r gymuned sydd uwchlaw a thu hwnt i'r gwaith adeiladu...Mae Prosiect yr Old Oak Co-operative wedi dangos enghraifft gadarnhaol o'r dull hwn...Mae Morganstone wedi ymroi amser ac ymdrech sylweddol i sicrhau bod y preswylwyr sy'n cymryd perchnogaeth o'r cartrefi newydd wedi cael pob cyfle i osod eu marc ar eu cartref newydd...Yn bwysig, ymgorfforir yr ymrwymiad i'r fath ffocws cymunedol yn niwylliant y sefydliad ac nid dim ond fel gwasanaeth gwefus, gydag adnoddau pwrpasol ac ymrwymiad i weithgareddau o'r lefel reolaeth uchaf ym Morganstone."*

### Hamadryad

Gweithiom gyda CCHA ar ystod o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned gan gynnwys; cyfarfodydd gyda'r preswylwyr, postio llythyrau/cylchlythyrau, diwrnod cymunedol, apêl blwch esgidiau'r Nadolig, ymweliad gan fyfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, apêl nwyddau ymolchi Llamau, dartiau Sports Relief, gwerthiant cacennau Plant mewn Angen, apêl wyau Pasg Llamau, Prosiect DIY SOS. 95 wythnos prentis/hyfforddai, 4 hyfforddai, lleoliad hyfforddeion graddedig, gweithwyr Lift.

Dywedodd Caroline Lewis, y Cyfarwyddwr Datblygu:

*"Cydnabyddodd Morganstone bwysigrwydd gweithio'n agos gyda'r gymuned yn Hamadryad. Cyn hynny, teimlai'r gymuned eu bod wedi'u methu a sicrhaodd Morganstone eu bod yn mynd uwchlaw'r safonau arferol...mynychodd Morganstone gyfarfodydd cymunedol a gweithiodd gyda CCHA i gyflwyno diwrnod cymunedol llwyddiannus. O ganlyniad i fod yn agored gyda'r gymuned leol, derbyniodd y gymuned y datblygiad".*

### Canlyniadau a chyflawniadau:

- £16,905 o roddion mewn llafur/nwyddau
- 629 o oriau taliad mewn llafur
- £2 lluosydd lleol Cymreig
- BBaChau Cymru – cyfraniad o 100%
- 26 digwyddiad cymunedol e.e. criced elusennol, gemau dartiau, diwrnodau i'r teulu
- Cyfraniadau/nawdd cymunedol o £39,724. E.e Gwalia Trust £9,000, Prostate Cymru £2000, Mileys Fund £800, Kidney Research Wales £160, Rudy's Fund £266.
- 2 brosiect DIY SOS – cefnogi plant/teuluoedd gydag afiechydon/anableddau
- 25 digwyddiad ysgol, gyrfaoedd ac adeiladu – sgyrsiau ar adeiladu a thai i ysgolion cynradd, ymweliadau diogelwch safleoedd/cystadlaethau posteri, 2 lysgennad CITB, ffeiriau gyrfaoedd colegau ac ysgolion, diwrnod byd gwaith, ymweliadau â safleoedd prifysgolion, dreigiau busnes ifanc, beirniadu cystadlaethau prentisiaid, sgyrsiau mewn Canolfannau Gwaith, cyrsiau Get Into Construction y Princes Trust.
- Prosiect celf stryd Prifysgol
- Elusennau penodol i brosiect a noddir e.e. Ambiwlans Awyr Cymru
- Cyfle – trydydd cyflogwr mwyaf prentisiaid yng Nghymru
- LIFT - Juan Sanchez a arferai fod yn ddi-waith - yn cael ei gyflogi fel gweithiwr a'i hyfforddi fel gyrrwr craen/ fforch godi
- Owain Phillips – Prentis a gyflogwyd yn rheolwr safle dan hyfforddiant, Cyfle a Llysgennad CITB.
- 2 brosiect elusennol yn Uganda
- 35 prentis
- 946 o wythnosau prentis
- 9 hyfforddai/hyfforddai graddedig
- Asesiadau iechyd galwedigaethol
- Hyfforddiant staff £39,310
- Buddsoddwyr mewn Pobl
- Sgôr Gyfartalog Adeiladwr Ystyriol – 41, Gwobr Arian Imble Lane, Cwmgelli
- Rhoddion Recipro
- Prosiect ymchwil pontio thermol Prifysgol - £15,343
- Caiff 90% o wastraff ei ddargyfeirio o safle tirlenwi

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae Morganstone Ltd wedi dangos canlyniadau cadarnhaol ar draws ystod o feysydd*

**Antonia John**
Rheolwr ymgysylltu â'r gymuned

Morganstone Ltd

**Ff:** 01554 779126 / 07983214295
**E:** antonia.john@morganstone.co.uk

# Gwobr syniad newydd

Mae'r wobr hon yn cydnabod arferion a dulliau llwyddiannus, creadigol, sy'n ailfeddwl gwasanaethau er mwyn cyflawni gwell canlyniadau a chynyddu effeithlonrwydd. Byddant yn gallu arddangos arferion neu ddulliau sy'n mynd i'r afael â phroblem neu angen penodol, sefyllfaoedd "cyn ac ar ôl" sy'n dangos gweithrediad llwyddiannus, gwell canlyniadau i ddefnyddwyr a gwerth am arian.




## Cam wrth Gam

### Cartrefi Melin gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Torfaen Homes – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Syniad newydd oedd Cam wrth Gam (LBL) a grëwyd trwy gyllid Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru ac a weithiodd ar draws pum ardal awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru (Torfaen, Rhondda Cynon Taf, Merthyr, Blaenau Gwent a Chaerdydd) gan ymgysylltu ag aelwydydd mewn ardaloedd a gafodd gyllid Arbed neu Max ECO yn flaenorol ac a gafodd deunyddiau caled wedi'u ffitio e.e. ffenestri, drysau, boeleri ac inswleiddiad wall allanol newydd. Ei nod craidd oedd dangos bod modd cyflawni canlyniadau cadarnhaol sylweddol trwy ddarparu cyngor ac ymyriadau i breswylwyr ar ynni a newid ymddygiad. Bwriad y prosiect oedd:

- Dangos gwerth (o ran ynni a'r arian a arbedwyd) ymddygiad uniongyrchol ac ymyriadau cyngor
- Dangos bod buddsoddiad mewn ynni a chyngor ar newid ymddygiad wedi cael effaith sylweddol fwy ar economi Cymru na chost y cyngor hwnnw.

Cyflwynwyd y prosiect gan CBS Rhondda Cynon Taf ar ran y 5 awdurdod lleol, gyda phob aelod yn ffurfio bwrdd prosiect. Yna, rheolodd, cyflwynodd a monitrodd Tîm Bod yn Wyrddach Cartrefi Melin y prosiect. Cyflogwyd staff prosiect yng Nghartrefi Melin ac fe'u cynhaliwyd gan rai awdurdodau lleol unwaith eto i sicrhau gwerth am arian y buddsoddiad, ond, cyn bwysiced â hyn, i sicrhau bod canlyniadau, cyflawniadau a dysgu o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth a chyfnewid arfer da.

Gweithiodd y prosiect gyda 1345 eiddo ar hyd y pum ardal awdurdod lleol, ac ymgysylltwyd yn llawn gyda 998 o aelwydydd gan roi cyfradd ymgysylltu o 70% i'r prosiect. Derbyniodd yr aelwydydd hynny nad oeddent yn dymuno cymryd rhan yn llawn y wybodaeth berthnasol i'w cynorthwyo i arbed arian.

Bu prosiect Cam wrth Gam yn llwyddiant ysgubol a dysgwyd sawl gwers ar draws y pum awdurdod lleol. Nid ynni oedd yr unig ddull a ddefnyddiwyd, ymwelodd y swyddogion â phob preswylydd ac arolygwyd y tŷ i gadarnhau sut defnyddion nhw ynni ac aethant drwy gynghorion ar sut i arbed ynni trwy newid ymddygiad. Cefnogodd y swyddogion y preswylwyr i edrych ar gwmnïau ynni i gymharu darparwyr ynni a gweld a allai newid darparwr arbed arian iddynt, a hefyd dull cyfeirio holistaidd o droi at:

- Anghenion cyflogaeth a hyfforddiant
- Ariannol – gwneud y mwyaf o incwm
- Digidol – eu cynnwys nhw'n ddigidol

Lle'r oedd hi'n glir fod rhai preswylwyr mewn trafferthion ariannol gyda'u taliadau tanwydd, gwnaed cais am grantiau caledi i dalu'r dyledion, lle'r oedd boeleri wedi'u condemnio ac nid oedd unigolion yn gallu fforddio rhai newydd gan eu bod ond yn eistedd uwchlaw meini prawf y grant, helpodd y swyddogion Cam wrth Gam i ysgrifennu at yr elusennau i gael cyllid iddynt. Cefnogodd y swyddogion Cam wrth Gam nhw i brentisiaethau a swyddi trwy gael gwybodaeth am y swyddi gwag oedd ar gael yn lleol.

Gweithiwyd gyda'r ysgolion ym mhob un o'r ardaloedd hyn i addysgu pobl ifanc i ddeall sut i arbed ynni yn amgylchedd yr ysgol a'r cartref trwy raglen hwyl, atyniadol. Gwnaethom recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr ar lefel un OCN mewn deall effeithlonrwydd ynni cartref i'w cefnogi i fynd allan a lledu'r neges i'w ffrindiau, cymdogion a theuluoedd.

Cynhaliwyd ffeiriau ynni ym mhob un o'r cymunedau i annog y bobl nad ydynt yn gysylltiedig â'r rhaglen i ymweld â'n gorsafoedd cyngor ar newid, siarad â darparwyr ynni a dysgu cynghorion arbed ynni.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Gwnaed cyfanswm arbedion o £300,737.00 gan y prosiect. Mae hyn yn gyfwerth ag wyth mis o waith maes wrth i'r rhaglen gymryd amser i greu ac wrth i staff gael eu recriwtio. Cyflawnwyd arbedion trwy gyfnewid i ddarparwyr ynni newydd, gwell bargenion a gynigiwyd trwy'r cyflenwyr presennol, troi at gyllid grant, archwiliadau o hawl i fudd-daliadau a chyngor proffesiynol mewn perthynas â newid ymddygiad gwirioneddol yn y cartref.

Coladwyd dewisiadau o astudiaethau achos a thystiolaeth o'r gwaith proffesiynol a gyflawnwyd gan y tîm yn ystod y prosiect. Dangosant amrywiaeth eang o arbedion a help yr oedd y tîm yn gallu ei roi trwy weithio hefyd mewn amgylchedd amlasiantaeth a system atgyfeirio a gafodd ei hymgorffori yn y gwaith hefyd.

Mae'r ffilm werthuso'n disgrifio'r gwahaniaeth y gwnaeth gwaith y rhaglen Cam wrth Gam i fywydau'r preswylwyr. Mae rhai o'r ffilmiau'n ergydiol, gan ddangos yr effaith gadarnhaol y mae Cam wrth Gam wedi'i chael.

Cydnabuwyd Cam wrth Gam fel esiampl arfer gorau. Aeth Rhian Cook i San Steffan i drafod y prosiect mewn pwyllgor dethol ar gynlluniau Cyngor Ynni ac Iechyd.

Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi newid mewn ymddygiad ynni a mwyhau ariannol yn ei holl dendrau deunyddiau caled wrth symud ymlaen o ganlyniadau rhaglen Cam wrth Gam fel gofyniad.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae Cartrefi Melin wedi dangos dull partneriaeth gwych, gan ddangos effaith ystod eang.*

**Allison Cawley**
Rheolwr datblygu busnes newydd

Cartrefi Melin

**Ff:** 07791657386
**E:** Allison.cawley@melinhomes.co.uk



# Rheoli eiddo gwag

## Cymdeithas Tai Sir Benfro gyda Gwasanaethau Llafur Uniongyrchol Tai Sir Benfro

Ar adegau heriol, wrth reswm mae sicrhau bod y busnes craidd yn gweithredu'n dda'n hollbwysig. Yn Tai Sir Benfro, ystyriwn fod rheoli gwagleoedd yn wasanaeth cwsmeriaid a all gael effaith sylweddol ar gymunedau a gwasanaethau cwsmeriaid. Gyda thros 3500 o bobl mewn angen am dai rhent fforddiadwy yn Sir Benfro, dywedodd ein cwsmeriaid wrthym ei bod hi'n bwysig i'r gymuned, a hefyd i'r darpar gwsmer, weld eu landlord yn bod yn rhagweithiol wrth glustnodi eiddo gwag. Yn ogystal, nid yw cwsmeriaid eisiau aros amser hir rhwng edrych ar yr eiddo a symud i mewn felly gwyddem fod rhaid i ni newid y ffordd roeddem yn rheoli'n gwagleoedd er mwyn sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau yr oedd ar gwsmeriaid eu hangen ac yr oeddent yn eu haeddu.

### Sut cyflawnom hyn felly?

- Gwnaethom symleiddio'r broses trwy ddarparu 8 cam syml i swyddogion ardal eu dilyn wrth ddelio ag eiddo gwag.
- Defnyddiwn ein tîm gwasanaethau llafur uniongyrchol ein hunain i ymgymryd â'r holl atgyweiriadau eiddo gwag. Mae hyn o fantais oherwydd mae gennym fwy o reolaeth ar gynnal a chadw mewnol, ond nid ydym yn destun argaeledd contractwyr neu broblemau dibynadwyedd. Gwyddwn ein bod yn cael amser ymateb cynt i waith a wneir gan ein gweithredwyr ein hunain sy'n adnabod ac yn deall cartrefi ein cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein gwasanaeth llafur uniongyrchol hefyd yn cefnogi 4 prentis.
- Defnyddiwn y cyfnod rhybudd 28 diwrnod i archwilio, trefnu dangosiadau a chlustnodi'r eiddo.
- Cyflwynom gymhelliad 'glân a gwag' i gwsmeriaid sy'n gadael i'w hannog i adael eu heiddo mewn cyflwr da.
- Casglwn yr allweddi gan y tenant sy'n gadael yn eu cartref, er mwyn sicrhau bod yr holl waith wedi'i wneud a bod yr eiddo'n lân ac yn wag.

- Rydym yn trosglwyddo i'r cwsmer yn eu cartref newydd, nid yn y swyddfa.
- Rydym yn ymweld â'r tenant sy'n gadael cyn pen wythnos ar ôl iddynt gyflwyno'u rhybudd ac ar ddiwrnod olaf eu tenantiaeth i gasglu'r allweddi.
- Bu rhaid i ni feddwl yn wahanol. Meddyliwn yn fasnachol wrth ddelio â chartrefi gweigion gan gyflwyno 'gosodiadau cefn wrth gefn' er mwyn darparu ateb tai cyflym i ddarpar gwsmeriaid.
- Rydym wedi dysgu wrth asiantau tai i sicrhau bod eiddo gwag yn cael eu trin yn fasnachol, ac ein bod yn gweithredu mor effeithlon â phosibl; gyda thargedau gosod a monitro ar waith.
- Mae gan ein gwasanaeth llafur uniongyrchol sgiliau amryfal a byddwn yn ymgymryd ag archwiliadau cyn ac ar ôl y gwaith, gan ddileu'r angen am archwilwyr
- Mae swyddogion ardal generig, gweithwyr cynnal a chadw ac ymgynghorwyr gwasanaethau cwsmeriaid i gyd yn ymhél â'r gwasanaeth gan flaenoriaethu cartrefi gwag wrth iddynt godi i sicrhau ein bod yn diwallu disgwyliadau'r cwsmeriaid.

### Beth dorron ni allan o'r broses i fodloni anghenion y cwsmeriaid?

- Nid ydym yn archwilio cartrefi gwag cyn anfon y person fydd yn gwneud y gwaith i mewn.
- Nid ydym yn gwneud gwaith gwella tra bydd cartref yn wag.
- Cynigiwn ddewis i gwsmeriaid o ran disodli cydrannau yn yr eiddo gwag, felly, prin yr ydym byth yn newid cegin, neu ystafell ymolchi tra bydd cartref yn wag oherwydd mae'n well gan ein cwsmeriaid symud i mewn a chael dewis y steil, dyluniad a chynllun.

Bydd y berchnogaeth o'r cartref gwag yn aros gyda'r swyddog ardal ar hyd y broses. Nid ydym byth yn 'trosglwyddo'r' eiddo gwag i'r gwasanaethau eiddo os oes angen gwaith mawr arno - cydlynir cartrefi gwag a gosodiadau gan yr un person, gan sicrhau amserau ailosod effeithlon a gwasanaeth gwych i gwsmeriaid bob amser.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae cymdeithasau tai o Ogledd Iwerddon, yr Alban, Lloegr a Chymru i gyd wedi cysylltu â ni i ddysgu ynghylch sut rydym yn rheoli'n cartrefi gwag mor effeithiol a chrëwyd argraff gan ein cyflawniadau yn ystod adeg heriol.

Dyma sut saif ein perfformiad ar gyfer chwarter 1 yn 2016-17:

- Cartrefi newydd a gwag: 144
- Nifer gyfartalog y diwrnodau i osod cartrefi gwag: 3.8
- % y cartrefi gweigion sy'n cael eu gosod cyn pen wythnos: 93%
- Incwm rhent a gollwyd: £7,286.33

Trwy roi'r newidiadau hyn ar waith, rydym wedi gwella o ddelio â 125 o eiddo gwag yn 14/15 yn Ch1, a gymerodd cyfartaledd o 6.5 niwrnod i ailosod, gydag 87% o'r rhain yn cael eu gosod ymhen 1 wythnos.

Golyga hyn, bob wythnos, bu modd inni ddileu bron i dridiau o wastraff a darparu cartref i rywun mewn ffordd fwy effeithlon o ran amser a mwy cost effeithiol.

Beth ddywedodd ein cwsmeriaid?

*"Mae cael ein tŷ ein hunain o'r diwedd ar ôl 8 mlynedd wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i'n bywydau. Rydym yn arbed £200 y mis ar rent ac mae fy merch mor hapus yn ei chartref newydd."*

*"Lefelau bodlonrwydd cwsmer uchel iawn ar gyfer: balchder yn fy nghartref newydd, roedd fy nghartref newydd mewn cyflwr da, teimlaf yn ddiogel yn fy nghartref newydd"*

*"Ers dod yn denant ym mis Ebrill eleni, rydw i wedi bod ar ben fy nigon o ran yr help a'r gefnogaeth y mae Tai Sir Benfro'n eu cynnig. Diolch"*

*"Ar raddfa o 1 i 10, byddwn i'n rhoi 10. Crefftwaith gwych, glân a thaclus iawn. Allwn ni ddim â gweld unrhyw feiau."*

Yn ein harolwg cwsmeriaid diweddaraf, dywedodd 100% o'r cwsmeriaid a symudodd yn ddiweddar bod eu cartref mewn cyflwr da, gyda 100% yn dweud hefyd eu bod yn falch o'u cartref newydd. Roedd y canlyniadau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol yn 86% yr un.

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae Tai Sir Benfro wedi bod yn datblygu dull arloesol o wella gwasanaeth craidd*

**Elin Brock**
Cyfarwyddwr Tai

Tai Sir Benfro

**Ff:** 01437763688
**E:** elin.brock@pembs-ha.co.uk




# Partner cartref

## Cartrefi Conwy

Lansiodd Cartrefi Conwy ei wasanaeth 'partner cartref' newydd yn 2015 ac mae wedi bod o fantais enfawr i'n tenantiaid ni ond hefyd i'n sefydliad cyfan.

Mae'r cysyniad yn syml. Mae ein tîm gwasanaethu nwy mewnol yn mynd i gartrefi'n holl denantiaid yn flynyddol a gwelsom ein bod yn gwastraffu cyfle i ymgysylltu â'n tenantiaid yn unigol. Mae ein 2 'bartner cartref' yn mynd gyda'r peirianwyr nwy ar eu harchwiliadau diogelwch ac yn treulio rhyw awr gyda'r tenant wrth i'r gwaith gael ei wneud.

Sefydlwyd y gwasanaeth er mwyn darparu ymyrraeth gynnar a dull ataliol o droi at ystod o swyddogaethau rheoli tenantiaeth a chefnogaeth. Trafodir y meysydd canlynol gyda'r tenantiaid trwy'r gwasanaeth Partner Cartref:

- Gwybodaeth a manylion y tenantiaid – mae hyn yn cynnwys hoff ddulliau cyfathrebu'r tenant sy'n cefnogi'n hagenda newid cyfrwng
- Effeithlonrwydd ynni a chyngor
- Rhent a chymorth ariannol
- Cyflwr a diogelwch tai (gan gynnwys archwiliad eiddo llawn)
- Cyngor ar dai
- Iechyd a lles

Cyflwynwyd y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod Cartrefi Conwy:

- yn meddu ar wybodaeth proffilio tenantiaid diweddar, cywir a llawn gwybodaeth i gefnogi ei ddatblygiad busnes a'i ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig gwasanaeth wedi'i deilwra'n fwy i'n tenantiaid yn hytrach na dull 'un maint i bawb'.
- yn gallu ymgymryd ag archwiliadau eiddo mewn cartrefi i sicrhau bod eiddo'n cael eu cynnal i gyflwr derbyniol.
- yn gallu darparu gwybodaeth berthnasol i denantiaid oedd yn gweddu i'w hamgylchiadau.
- yn gallu dynodi'n gynnar tenantiaid oedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt i gynnal eu tenantiaeth.

Datblygwyd y gwasanaeth ymhellach ym mlwyddyn gyntaf y prosiect i ddarparu buddiannau ychwanegol ar gyfer tenantiaid. Dyma nhw:

- Darparu archwiliad diogelwch tân y cartref fel rhan o'r penodiad (mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)
- Gwobrwyo tenantiaid fel rhan o'n cynllun cymhelliant tenantiaid 'Gwobrwyon Cartref'. Mae tenantiaid a ddynodwyd gan ein Partneriaid Cartref fel rhai sy'n cynnal eu cartref i'r safon ofynnol yn cael eu cynnwys mewn raffl fisol 'Rwy'n falch' i ennill £100.
- Cefnogi agenda Iechyd Cyhoeddus Cymru 'gwneud i bob cyswllt gyfrif' trwy wella elfen 'lles' y gwasanaeth presennol.

A dyma hyfrydwch y gwasanaeth hwn; gellir ei newid i fodloni anghenion ein tenantiaid ac amcanion ein sefydliad.

Rydym wedi gallu cyflwyno'r gwasanaeth amhrisiadwy hwn trwy effeithlonrwydd a wireddwyd yn sgil dod â'n contract gwasanaethau nwy yn fewnol trwy'n menter gymdeithasol newydd, Creu Menter.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Yn ystod y 12 mis cyntaf, rydym wedi gweld canlyniadau gwych i denantiaid:

- Dynodwyd bod 94 o denantiaid yn ddiamddiffyn ac angen cefnogaeth ychwanegol
- Atgyfeiriwyd 189 am archwiliad diogelwch tân yn y cartref
- Dynodwyd bod 222 o denantiaid mewn tlodi tanwydd
- Roedd angen cymorth ariannol brys ar 20 o denantiaid
- Roedd 462 o denantiaid am gymryd rhan gyda Chartrefi Conwy ac fe'u hatgyfeiriwyd at ein cynllun 'Lleisiau @ Cartrefi'
- Dynodwyd bod gan 25 o aelwydydd bryderon eiddo difrifol e.e. celcio sydd bellach yn cael ei ymdrin ag ef
- Mae 641 o denantiaid wedi cael cyngor manwl ar y credyd cynhwysol
- Cynghorwyd 110 o denantiaid i wella cyflwr eu cartref
- Mae 189 o denantiaid wedi cael cyngor ar hawl i fudd-daliadau nad oeddent yn ymwybodol ohono cyn hynny.
- Dywedodd 151 o denantiaid wrthym eu bod eisiau symud tŷ cyn pen 12 mis ac y cawsant gyngor ar y dewisiadau tai.

Hyd yma, mae'r tenantiaid wedi cofnodi cyfradd bodlonrwydd o 100% am y gwasanaeth 'partner cartref'. Ymhlith yr adborth penodol gan y tenantiaid mae'r canlynol:

*"Cefais yr atebion yr oedd arnaf eu hangen; hoffwn gael y gwasanaeth hwn eto yn y dyfodol"*

*"Cefais sgwrs hyfryd a chafodd popeth ei ddilyn i fyny'*

*"Defnyddiol iawn a llawn gwybodaeth, ffynhonnell wybodaeth wych a hawdd iawn mynd ati"*

*"Rydw i wedi arbed arian ar fy miliau nwy a thrydan ers cael cyngor"*

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Syniad syml wrth Cartrefi Conwy, gyda thenantiaid wrth wraidd iddo*

**Claire Shiland**
Pennaeth gwasanaethau cymdogaeth

Cartrefi Conwy

**Ff:** 01745 335590
**E:** Claire.Shiland@cartreficonwy.org

# Gwobr cydweithredu (arweinydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig)

Mae'r wobr hon yn cydnabod bod cydweithredu'n fwyfwy pwysig. Bydd y prosiectau neu'r ymgyrchoedd wedi'u cyflwyno ar y cyd ac wedi cael effaith uchel ar gymunedau neu sefydliadau. Byddant yn gallu dangos canlyniadau ac effeithlonrwydd cadarnhaol dan arweiniad tai o ganlyniad i bartneriaeth.



## Ailddefnyddio, lleihau ac ailgylchu

### Bron Afon gyda TRAC2

Darparwr tai cymdeithasol yw Tai Cymunedol Bron Afon gyda 8300 o gartrefi rhent yn Ne Cymru ynghyd â 915 o eiddo lesddeiliaid a thros 2000 o fodurdai. Mae gennym nifer o asedau eraill fel siopau, canolfannau cymunedol, meysydd chwarae a lleoedd agored. Cyflogwn 550 aelod o staff sy'n cynnwys 165 aelod masnach. Eleni, byddwn yn gwario £23 miliwn ar wella a chynnal ein hasedau. Mae ein cadwyn gyflenwi'n cynnwys cyflenwyr adeiladu lleol a chenedlaethol, contractwyr a gwasanaethau arbenigol. Ein prif nod yw meithrin cymunedau ffyniannus a gwella ansawdd bywyd a chyfleoedd bywyd y bobl sy'n byw yn Nhorfaen a'r cymunedau cyfagos gyda ffocws penodol ar y rhai sy'n wynebu anfantais.

#### Pam ddechreusom ein menter ailgylchu?

Dyma oedd ein nodau:

- Ailgylchu cydrannau adeiladu a ddisodlwyd gan raglenni Safon Ansawdd Tai Cymru
- Adfer ac ailddefnyddio deunyddiau dros ben
- Lleihau tirlenwi (effaith ar yr amgylchedd a chostau tipio cysylltiedig)
- Rhoi'r incwm a grëwyd tuag at fuddiannau cymunedol

Mae'r tîm ailgylchu'n rheoli pob math o wastraff sydd wedi deillio o eiddo gwag a gwaith cynnal a chadw a gyflawnwyd gan eu timau gwasanaethau eiddo. Mae tîm y ganolfan ailgylchu'n derbyn, yn gwahanu ac yn ailddefnyddio neu'n ailgylchu llifoedd gwastraff gwahanol gan gynnwys boeleri wedi'u dadgomisiynu, gwastraff pren, metelau a chardbord.

Mewn prin 2 flynedd, rydym wedi arbed 50 tunnell fetrig o wastraff rhag mynd i'r safleoedd tirlenwi trwy ei roi i elusen, ynghyd â 120 o ddyfeisiau sydd wedi bod trwy brofion PAT a thros 3500 o eitemau heb fod yn drydanol eraill, 150 tunnell fetrig o bren a 24 tunnell fetrig o gardbord.

Gall y rheiny mewn angen ailddefnyddio sawl eitem o'r cartref; mae'r tîm yn sicrhau bod pob eitem o safon dda ac yn ddiogel i'w hailddefnyddio. Caiff yr eitemau trydanol sy'n gweithio eu rhoi trwy brofion PAT a'u hailddefnyddio lle bo modd ond os nad oes modd atgyweirio'r eitem, caiff ei datgymalu trwy wahanu'r cydrannau ac yna'u gwerthu i fasnachwr sgrap.

Rydym wedi datblygu sawl partneriaeth leol gydag elusennau, megis:

- Mae Elusen TRAC 2 yn cefnogi pobl mewn argyfwng a thlodi trwy roi eitemau iddynt yn uniongyrchol ac yn rhad ac am ddim, maen nhw'n gwerthu llawer o eitemau trwy eu siop ac ar-lein ac yn defnyddio'r incwm i gefnogi pobl mewn gwir angen trwy dalu'r biliau gwasanaethau, prynu parseli bwyd, helpu gyda thaliadau rhent, hyd yn oed i brynu gwisg ysgol a helpu i dalu am dripiau ysgol. Mae TRAC 2 yn cynnwys gwirfoddolwyr yn bennaf, llawer ohonynt yn bobl ifanc ddi-waith sy'n cymryd rhan yn weithgar yn y siop elusen a'r gwasanaeth cronfa fwyd y mae TRAC 2 yn ei ddarparu.
- Mae Changing Gearz yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc 14-24 oed sydd angen ychydig o gymorth ychwanegol i ddatblygu eu potensial. Maen nhw'n hyfforddi pobl ifanc mewn cynnal a chadw a thrwsio beiciau a hefyd yn darparu hyfforddiant beicio i bobl ifanc. Mae Bron Afon yn rhoi'r beiciau maen nhw'n dod o hyd iddynt mewn eiddo gwag.
- Mae Vision Products yn ailddefnyddio cymhorthion anabledd yn y gymuned, yn rhad ac am ddim.
- Randomz – Rydym yn rhoi hen gelfi, paent, offer a theganau i'r elusen hon. Defnyddir yr adnoddau i hyfforddi pobl ifanc o gefndiroedd dan anfantais mewn adfer. Mae'n cadw'r plant yn brysur ac allan o drafferth!
- Reseiclo - menter gymdeithasol yng Nghasnewydd, De Cymru. Maen nhw'n atal pren gwastraff, fel y'i gelwir, rhag cael ei wastraffu. Talwn Reseiclo i gasglu ein cynhyrchion pren gwastraff. Maen nhw'n gwerthu pren wedi'i adhawlio am brisiau isel ac yn cynhyrchu eitemau pren unigryw i'w gwerthu yn eu siop.
- All Creatures Great and Small - lloches leol i anifeiliaid, rhown gyflenwadau anifeiliaid anwes a llyfrau er mwyn iddynt eu gwerthu.
- Greenmeadow Farm – fferm gymunedol leol rydym yn rhoi offer garddio iddi. Rydym yn mynd â'u cardbord diangen hefyd.

Mae'r prosiect yn darparu manteision cymunedol gwych ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein targedau amgylcheddol cenedlaethol wrth leihau tirlenwi ac ailgylchu ar bob cyfle.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Ers dechrau'r fenter hon, mae costau tirlenwi Bron Afon wedi syrthio o £285,000 yn 2012-13 i ddim ond £80,000 llynedd a disgwylir i gostau tirlenwi eleni fod yn £9000 yn unig.

Gwnaethom greu incwm o £50,000 er 2013 trwy werthu metelau cymysg.

At ei gilydd, pwysau'r gwastraff a gafodd ei arbed o'r safle tirlenwi yw 210 tunnell fetrig (gan gynnwys rhoddion elusennol, cardbord, gwastraff pren, metelau).

Gwnaeth Reseiclo eu casgliad cyntaf o bren o Fron Afon ym mis Mawrth 2014. Ers hynny, maen nhw wedi casglu cyfanswm o 2330 o lathenni ciwbig (rhyw 150 tunnell fetrig).

Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru wedi dangos cryn dipyn o ddiddordeb yn y fenter ac wedi ysgrifennu astudiaeth achos am y ganolfan ailgylchu sy'n dwyn y teitl '*Waste not want not: how a social housing organisation is winning the waste war through collaborative working*'.

Ar 6 Gorffennaf 2016, enillodd tîm ailgylchu Bron Afon, ar y cyd â'r elusen TRAC2 a Reseiclo, Wobr Ailgylchu Genedlaethol MRW am y bartneriaeth fusnes orau (https://nra.mrw.co.uk/)

Dychmygwch y gwahaniaeth fyddai'n ei wneud petai pob cymdeithas tai yng Nghymru'n gwneud yr un fath trwy ailgylchu eu gwastraff a rhoi eitemau cartref diangen i elusen.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae Bron Afon wedi datblygu prosiect cydweithredol ystod eang gydag ymrwymiad i'r amgylchedd*

**David Smith**
Rheolwr logisteg

Tai Cymunedol Bron Afon Ltd

**Ff:** 07528965252
**E:** david.smith@bronafon.org.uk




## Partneriaeth rhydd o ofn

### Charter Housing Association gyda Tai Cymunedol Bron Afon, Charter Housing, Derwen Cymru, Solas Cymru, Cartrefi Melin, Tai Sir Fynwy, Cartrefi Dinas Casnewydd, United Welsh Housing Association, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tai Calon Community Housing, Tai Gwalia, Linc Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd a Thîm Cam-drin Domestig Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, partneriaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru (sy'n cynnwys y darparwyr tai cymdeithasol Cymoedd i'r Arfordir, Cyngor Sir Bro Morgannwg a Trivallis), Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent

Dechreuodd y prosiect 'rhydd o ofn' yn 2014, pan ddaethom ni, fel grŵp o landlordiaid cymdeithasol yng Ngwent, at ein gilydd i wella'n hymateb i gam-drin domestig.

O gyflwyno protocol rhannu gwybodaeth yn 2011 ar achosion cam-drin domestig gyda heddlu Gwent, agorwyd ein llygaid i fynychder hyn ymhlith ein tenantiaid. Gyda chynnydd o 500% mewn achosion, gwnaethom gydnabod rôl landlordiaid cymdeithasol wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig sy'n effeithio ar denantiaid a gweithwyr.

Ein nod oedd dynodi arfer gorau ac arloesed wrth ymateb i'r rhai sy'n cael trwy neu'n gyfrifol am gam-drin domestig a chynhyrchu pecyn cymorth ymarferol i staff gweithredol yng Ngwent.

Cyd-darodd y gwaith o ddatblygu'r prosiect gyda sefydlu'r gwasanaeth cam-drin domestig rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru dan arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd. Roedd eu hymwneud yn y bartneriaeth o'r cychwyn yn amhrisiadwy.

Trwy gronni adnoddau, rhannu'n syniadau, pryderon ac arfer, rydym wedi gwneud y gwaith hwn yn realiti. Bu hyd a lled y cydweithredu'n gyflawniad gwych, gyda nifer y partneriaid yn tyfu ac yn cyfrannu mewn amryw ffyrdd.

Ar ôl methu sicrhau cyllid o ffynonellau eraill, cafodd y prosiect ei 'gydariannu' gan y partneriaid. Yn 2015, aeth y rheolwr prosiect i gydlynu'r gwaith ati i ddatblygu cynnwys y pecyn cymorth – a fydd yn cael ei lansio mewn digwyddiad rhannu gwybodaeth ar ddechrau 2017 (www.poblgroup.co.uk/news/the-seren-story-august-2015/)

Trwy'n partneriaeth, rydym wedi galluogi cydlyniad gwaith cynyddol o gwmpas yr agenda hon ar draws Gwent. Yn 2015, ymunodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu De Cymru, ynghyd â 3 landlord cymdeithasol yn rhagor â'r prosiect, gan gyfrannu at y cynnwys a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r pecyn cymorth yng Nghymru.

Yn sgil cyflwyno'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, mae'r prosiect wedi ehangu ei bersbectif ac wedi dod yn rhan o'r peilot ar gyfer menter 'gofyn a gweithredu' Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o ddod â nifer enfawr o wahanol bartneriaid at ei gilydd. Mae pob aelod o'r bartneriaeth wedi gwneud cyfraniad gan gydweithredu ar elfennau'r pecyn cymorth, rhannu arfer gorau, rhoi amser ac adnoddau ariannol i staff gyflawni ein nod.

Credwn y gall ac y dylai tai cymdeithasol ddarparu porth y gall pobl sy'n cael eu cam-drin fynd ato am gymorth, gan eu galluogi i gyflawni mwy o annibyniaeth, gwell gwydnwch a bywyd rhydd o ofn. (www.charterhousing.co.uk/faqs/tackling-domestic-violence/)

*"Ni ddylai neb fyw mewn ofn o drais neu gamdriniaeth a bydd pob un ohonom yn gwneud popeth o fewn ein gallu fel sefydliad i ddiogelu pobl lle gallwn ni. Gwnaethom gydnabod y ffordd yr oedd cam-drin domestig yn niweidio bywydau nifer fawr o'n tenantiaid. Rydym wedi gwneud trechu cam-drin domestig yn flaenoriaeth bwysig ym Mron Afon. Rydym yn falch o fod yn rhan o'r bartneriaeth ehangach nawr ac mae'n gwneud cyfraniad gwirioneddol bwysig at wella'r effaith y gallwn ei gwneud i gadw pobl yn ddiogel."* - Duncan Forbes, Prif Swyddog Gweithredol Bron Afon

*"Bu hwn yn gyfle unigryw i landlordiaid cymdeithasol (y cyngor a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) sydd ynghlwm i ddysgu wrth ei gilydd a chydweithredu i ddatblygu prosesau ac offer a fydd o fantais i unrhyw un o'n tenantiaid sy'n mynd trwy gam-drin domestig."* - Rachel Thornet, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

*"Mae'r prosiect 'rhydd o ofn' yn arwain y ffordd yng Nghymru mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth yn y sector tai. Mae wedi dangos*

*ymrwymiad gan bob sefydliad partner i rannu a datblygu arfer gorau a gwneud gwir wahaniaeth i oroeswyr a darpar ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae'r prosiect wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) rhanbarthol ac mae wedi galluogi adrannau tai i ffurfio rhan o fabwysiadu 'gofyn a gweithredu' yn gynnar yng Ngwent"* - Rebecca Haycock, Ymgynghorydd Rhanbarthol, Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Gwent.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae'r cydweithrediad hwn wedi galluogi ar gyfer datblygu ystod o adnoddau ymarferol i landlordiaid cymdeithasol sy'n adlewyrchu cyd-destun Cymru. Trwy'n partneriaeth, rydym wedi dylanwadu ar yr agenda Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn ystod peilot rhanbarthol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol yn rhan o'r sgwrs, gan ddylanwadu ar ganfyddiadau mwy cadarnhaol o landlordiaid cymdeithasol ymhlith asiantaethau eraill.

Caiff buddiannau'r cydweithrediad hwn ei weld eisoes trwy:

- Ymatebion mwy effeithiol, cydlynol
- Staff wedi'u hyfforddi'n well, mwy ymwybodol o faterion cam-drin domestig a sut i helpu
- Gwell rhannu gwybodaeth a gweithio amlasiantaeth
- Atgyweiriadau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn lleihau
- Trwy ddarparu porth – mae mwy o denantiaid yn datgelu, o wybod y byddant yn cael ymateb cadarnhaol.

Mae'r tenantiaid:

- Yn teimlo'n fwy diogel
- Yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt
- Yn fwy tebygol o gael cynnig cefnogaeth yn gynt (gan leihau risg a gwaethygiad)
- Yn fwy tebygol o gynnal eu tenantiaeth – yn llai tebygol o fynd i lety dros dro a chofrestru eu hunain yn ddigartref
- Yn fwy tebygol o droi at wasanaethau arbenigol am gymorth parhaus
- Yn gallu symud yn gynt ac yn ddiogel os oes angen iddynt wneud hynny
- Mae asiantaethau arbenigol yn adrodd bod llai o deuluoedd yn chwilio am loches gan eu bod yn cael cefnogaeth i aros yn eu cartrefi
- Mae'r prosiect yn dangos gwerth am arian

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae gan Charter Housing brosiect yn y camau cynnar sydd â chwmpas am fuddiannau arwyddocaol.*

**Bron Lloyd**
Cyfarwyddwr adfywio cymunedol

Charter Housing

**Ff:** 01633 678546
**E:** bron.lloyd@charterhousing.co.uk




## Y Ffordd i Rio

### Cartrefi Dinas Casnewydd gyda Newport Live a Charter Housing, Linc Cymru, Tai Sir Fynwy, Tesco

Yn dilyn digwyddiad llwyddiannus ' Rho Gynnig ar Gamp' yn 2015 lle cydweithiodd Cartrefi Dinas Casnewydd gyda'r fenter gymdeithasol a'r ymddiriedolaeth elusennol Newport Live i gyflwyno sesiynau blasu chwaraeon, teimlwyd y gallai'r prosiect gael effaith lawer mwy petai'r sesiynau'n fwy hygyrch ar draws y ddinas. Defnyddiwyd yr un gwerthoedd craidd o 'Rho Gynnig ar Gamp', ynghyd â'r wedd gadarnhaol sydd ynghlwm â blwyddyn Olympaidd fel arf i gysylltu â chymunedau yn y prosiect hwn. Gwahoddwyd landlordiaid cymdeithasol eraill ar draws y ddinas i weithio gyda ni ar brosiect graddfa ehangach yn 2016, Y Ffordd i Rio. Fel cymdeithas tai, roedd hi'n bwysig pwysleisio gwerthoedd y Gemau Olympaidd (cyfeillgarwch, parch, rhagoriaeth) a'r Gemau Paralympaidd (penderfyniad, ysbrydoliaeth, dewrder a chydraddoldeb) er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy a chydlynol.

Gwnaethom greu partneriaeth gyda Thai Sir Fynwy, Charter Housing, Linc Cymru a Tesco am y prosiect a fwriadai annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon/ymarfer corff, magu hyder ac iechyd cyffredinol yn y cyfranogwyr, creu cysylltiadau â chwaraeon a darpariaeth gymunedol tymor hir, cynyddu

ymgysylltiad mewn cymunedau a gwasanaethau a deall anghenion unigolion a chymunedau.

Lansiwyd y Ffordd i Rio yn swyddogol ar 28 Mai a theithiodd tan 26 Awst. Rhannwyd ymgyrch y Ffordd i Rio yn ddau gam. Byddai'r cam cyntaf yn cynnwys fan teithio a fyddai'n lletya offer dros 20 o wahanol gampau Olympaidd/Paralympaidd. Y cysyniad oedd lleoli'r fan o gwmpas y ddinas, gyda choetsis chwaraeon Newport Live yn cyflwyno gweithgareddau chwaraeon Olympaidd cyfeillgar i deuluoedd am ddim unrhyw le, unrhyw bryd. Penderfynwyd gan bob partner y byddai'r fan yn targedu'r cymunedau mwyaf dan anfantais oedd yn draddodiadol yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn datgan bod rhwystrau fel cost, cludiant, diffyg hyder a diffyg gwybodaeth yn eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Trwy fynd â'r gweithgareddau atyn nhw, nod y prosiect oedd chwalu'r rhwystrau hynny ac annog y preswylwyr i fyw ffyrdd o fyw mwy active ac iachus.

Roedd ail gam y prosiect yn golygu trefnu seremoni agoriadol Gemau Olympaidd Casnewydd ei hun. Ar 5 Awst, gwahoddwyd y preswylwyr a'r gymuned ehangach i fynychu gŵyl chwaraeon Olympaidd cymunedol a theuluol am ddim cyntaf Casnewydd ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd. Roedd dros 20 o wahanol weithgareddau Olympaidd a Pharalympaidd ar gael yn y seremoni, gan gynnwys athletau, canŵio, rhwyfo, tennis, beicio mynydd, boccia, pêl-fasged, pêl gôl a llawer mwy. Mynychodd dros 40 o asiantaethau partner gan gynnwys cyrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon a chlybiau chwaraeon lleol i amlygu amrywiaeth y ddarpariaeth chwaraeon ar draws y ddinas, a rhwyddineb a manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Yn ogystal â hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol, roedd hi'n bwysig ein bod ni hefyd yn amlygu'r nifer fawr o wasanaethau iechyd a lles a gynigir ar hyd a lled Casnewydd, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, cymorth gyda dibyniaeth, dietegwyr, a gwasanaethau iechyd. Yn ogystal, darparodd Tesco byrbrydau iach a dŵr am ddim trwy gydol y dydd. Mynychodd pob partner a chawsant y cyfle i hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigir ganddynt.

Bu'r adborth gan y partneriaid eraill yn galonogol iawn:

*"Roedd Cofnodi i Adrodd yn wych i ni. O'n safbwynt ni, rhoddodd i ni ymddangosiad ar ein hystadau heb i ni orfod cael cymhelliant cudd fel sy'n digwydd o bryd i'w gilydd"* (Charter Housing).

*"Roedd hi'n bleserus iawn bod yn rhan ohono drwy'r haf ac roedd yn arf ardderchog i gysylltu â phobl yn ein cymunedau a'n hardaloedd"*
(Monmouthshire Housing).

Rydym bellach yn edrych i barhau i dyfu'r partneriaethau cryf hyn a ffurfiwyd er mwyn cadw cyflwyno sesiynau chwaraeon am ddim ar hyd Casnewydd ac ymhellach i ffwrdd.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

At ei gilydd, gwnaethom gysylltu â 16,730 o bobl yn ystod y daith 13 wythnos o hyd, gan gyflwyno 63 sesiwn gymunedol mewn 28 cymuned wahanol ar draws Casnewydd a Sir Fynwy. Darparodd staff Newport Live dros 410 o oriau o hyfforddiant chwaraeon yn y sesiynau hyn, gan gynnwys mynychu 19 sesiwn ysgol.

Mynychodd fan y Ffordd i Rio 14 digwyddiad a gŵyl yng Nghasnewydd gan gynnwys The Big Splash, Rawffest a ffanbarth Ewro 2016, gan ein galluogi ni i feithrin ragor o bartneriaethau a hyrwyddo'r prosiect cyn y seremoni.

Mynychodd bron i 2,000 o bobl seremoni Y Ffordd i Rio ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, gyda'r sawl a fynychodd yn rhoi ymateb cadarnhaol iawn ac yn dweud yr hoffwn weld rhagor o ddigwyddiadau tebyg ar draws Casnewydd. Roedd oddeutu 40% o'r rhai a fynychodd y seremoni agoriadol yn breswylwyr Cartrefi Dinas Casnewydd gyda'r gweddill yn dod o ardal Casnewydd a Gwent.

Roedd llwyddiant y prosiect i'w briodoli i weithio mewn partneriaeth lwyddiannus. Roedd y cydweithredu rhwng Cartrefi Dinas Casnewydd a Newport Live yn hollbwysig wrth sicrhau bod y cyllid a'r adnoddau iawn yn cael eu darparu. Galluogodd y gefnogaeth o Dai Sir Fynwy, Charter Housing, Linc Cymru a Tesco ni i fynd i ragor o gymunedau gyda'r fan a'n helpu i wneud y seremoni'n llwyddiant go iawn.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Prosiect cydweithredol hwyliog a pherthnasol gan Gartrefi Dinas Casnewydd/Newport Live*

**Casey Edwards, Michelle Carlyle, Leigh Williams, Chloe Powton**

Cartrefi Dinas Casnewydd/Newport Live

**Ff:** 01633227796
**E:** casey.edwards@newportcityhomes.com

# Gwobr cydweithredu (ALl/arweinydd arall)

Mae'r wobr hon yn cydnabod bod cydweithredu'n fwyfwy pwysig. Bydd prosiectau neu ymgyrchoedd wedi cael eu cyflwyno ar y cyd ac wedi cael effaith fawr ar gymunedau neu sefydliadau. Byddant yn gallu dangos canlyniadau cadarnhaol ac arbedion effeithlonrwydd dan arweiniad tai o ganlyniad i bartneriaeth.




## Cartrefi i Gymru

### Cartrefi Cymunedol Cymru gyda CIH Cymru, RTPI Cymru, Shelter Cymru, Tenantiaid Cymru, Residential Landlord's Association, Homes Builders Federation, Gofal a Thrwsio Cymru

Sefydlwyd ymgyrch Cartrefi i Gymru gydag un amcan: sicrhau bod tai yn fater gwleidyddol allweddol yn etholiadau Cymru ym mis Mai 2016. Cafodd ei redeg ar y cyd gan glymblaid o sefydliadau sy'n credu bod gan bawb yr hawl i gartref fforddiadwy boddhaol i'w alw'n un nhw eu hunain.

Roedd y glymblaid yn cynnwys CIH Cymru, Tenantiaid Cymru, Homes Builders Federation, Gofal a Thrwsio, Cartrefi Cymunedol Cymru, RTPI Cymru, y Residential Landlord Association a Shelter Cymru.

Yn etholiadau'r gorffennol, yr economi, iechyd ac addysg sydd wedi rheoli'r agenda. Er mwyn bodloni'n hamcan, gwyddem y byddai gweithio mewn partneriaeth yn allweddol, a chytunodd y glymblaid ymgyrchu gan ddefnyddio un neges: 'Dod â'r argyfwng tai i ben, adeiladu Cymru gryfach'. Un peth y gofynnodd pob un ohonom amdano oedd bod y llywodraeth oedd yn dod i mewn yn cyhoeddi cynllun uchelgeisiol ar gyfer tai ar gyfer tymor nesaf y cynulliad.

Er bod gan bob partner rywbeth penodol i'w ofyn i Lywodraeth Cymru, gwyddem fod rhaid i ni siarad fel un llais er mwyn torri trwy agendâu eraill a hoelio sylw'r gwleidyddion.

Nododd y bartneriaeth hyd a lled yr argyfwng tai yng Nghymru a chyfrannodd bawb at y naratif.

- Mae angen 14,200 o gartrefi newydd bob blwyddyn i ddiwallu'r galw sydd ohoni.
- Mae 8,596 o deuluoedd ar restr aros am dai ers yr etholiad diwethaf yn 2011
- Mae 152,000 o oedolion ifanc 20-34 oed yn byw gartref.
- Mae 23,000 o eiddo'n wag.
- Llynedd, derbyniwyd bod 5,070 o aelwydydd yn ddigartref.
- Mae prisiau tai dros 6 gwaith yn fwy nag incwm y person cyfartalog.
- Mae 63% o bobl dan 35 oed yn rhentu eu cartrefi.

Un o brif gerrig milltir yr ymgyrch oedd rali Cartrefi i Gymru. Roedd y partneriaid yn glir y byddai hyn yn ddigwyddiad cyhoeddus iawn i dynnu sylw'r cyfryngau at bwnc argyfwng tai.

Er mwyn osgoi 'pregethu'n ofer', cytunodd y bartneriaeth fod angen i ni ymgysylltu â sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â thai i ledaenu'r neges. Canfu'r ymchwil fod sawl sefydliad arall eisoes yn trafod yr argyfwng tai yn eu cylchoedd eu hunain.

Gwnaethom wahodd cyfraniadau gan y sefydliadau hyn yn rali Cartrefi i Gymru i drafod pwysigrwydd tai i gymdeithas (Eglwys yng Nghymru), iechyd (RCN Cymru) ac addysg (Youth Cymru a myfyriwr ym Mhrifysgol Caergrawnt oedd wedi cael profiad o ddigartrefedd yn uniongyrchol).

Ar wahân i'r rali, gwnaethom fuddsoddi amser mewn meithrin partneriaethau gyda sefydliadau eraill i ennill cefnogaeth i'w defnyddio yn ein gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth Undeb Amaethwyr Cymru, UCM Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn i enwi rhai yn unig.

Rhoesom ragor o bwysau gyda gweithgarwch wedi'i leoli'n dda yn y cyfryngau oedd yn gynnwys creu partneriaeth gyda CBI Wales ar ddatganiad i'r wasg lle cawsant eu

dyfynnu'n dweud: 'nid ydym yn adeiladu'r cartrefi newydd y mae ar Gymru eu hangen. Mae hyn wedi arwain at godi prisiau, tanseilio'n cystadleugarwch economaidd ac enw da Cymru fel cyrchfan i fuddsoddi ynddo.'

Ni stopiodd y bartneriaeth gyda'r gymuned fusnes yn y fan honno. Gwnaethom sefydlu ymgyrch fach ar y cyfryngau cymdeithasol yn gofyn i sefydliadau busnes amlwg ddangos eu cefnogaeth. Er mai CBI Wales oedd dylanwadwr mwyaf yr ymgyrch hon, ymhlith y cefnogwyr busnes unigol amlwg eraill oedd Mike Learmond, FSB Wales, Gareth Jones Prif Swyddog Gweithredol Welsh ICE (Canolfan Arloesi Menter) a Cerys Furlong, cyfarwyddwr Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru.

Yn olaf, ni fyddai'r ymgyrch wedi bod yn llwyddiant heb weithio mewn partneriaeth gyda chymdeithasau tai Cymru a oedd yn allweddol wrth ffurfio a dylanwadu ar gyfeiriad yr ymgyrch trwy Rwydwaith Cysylltiadau Cyhoeddus Cartrefi Cymunedol Cymru. Yn ogystal, darparon nhw'r astudiaethau achos i ddarlunio 'wynebau dynol' yr argyfwng tai yng Nghymru - a oedd yn rhan annatod o'r ymgyrch.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Cyflawnom y canlynol o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth:

- Rali gyda nifer dda o fynychwyr – roedd dros 400 o bobl yn bresennol mewn arddangosfa gyhoeddus iawn y tu allan i'r Senedd ym Mae Caerdydd, a orymdeithiodd i ganol dinas Caerdydd.
- Cysylltom gyda'r chwe phlaid wleidyddol a chawsom gefnogaeth ganddynt.
- Sicrhawyd sylw yn y cyfryngau ledled Cymru ar-lein, ar brint a thrwy gyfrwng darlledu a chriw cyfryngau oedd yn bresennol yn y rali. Rhannwyd stori Wales Online 105 o weithiau.
- Trendiodd ar y cyfryngau cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y rali, cafwyd trydarau gan Michael Sheen, defnyddiwyd Periscope a chafwyd 282 o wylwyr byw gyda'i gilydd. Edrychwyd ar y cynnwys fideo dros 1,000 o weithiau i gyd.
- Cafodd tai ei gynnwys fel un o'r 4 pwnc allweddol yn nadl yr arweinwyr ar ITV Wales ym mis Ebrill, ochr yn ochr â'r economi, iechyd ac addysg.
- Cyflawnodd ein hymgyrch fach oedd yn canolbwyntio ar fusnes ar y cyfryngau cymdeithasol 109 o gefnogwyr busnes oedd yn cefnogi'r neges: 'mae buddsoddi mewn Cartrefi i Gymru'n gwneud synnwyr busnes da i Gymru'. Cyrhaeddodd yr hashnod 90,720 o gyfrifon, gyda 159,612 o argraffiadau a threndiodd yng Nghaerdydd ar ddiwrnod yr ymgyrch.
- Roedd 5 plaid yn cynnwys targed tai fforddiadwy o 20,000 yn eu maniffestos – sef dwbl y targed presennol. Mae Llafur bellach wedi ffurfio llywodraeth leiafrifol yng Nghymru. Maen nhw wedi cadarnhau'r targed uchelgeisiol o 20,000 o gartrefi fforddiadwy.

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Roedd Cartrefi i Gymru'n ymgyrch gynhwysol, gydweithredol a gododd ymwybyddiaeth*

**Edwina O'Hart**
Cyfarwyddwr cynorthwyol cyfathrebu a gwasanaethau aelodau

Cartrefi Cymunedol Cymru a Phartneriaid

**Ff:** 02920674808
**E:** edwina-ohart@chcymru.org.uk



## Dod ag Emmaus i Gymru

### Emmaus South Wales gyda Cymoedd i'r Arfordir

Ar ôl cwblhau prosiect trawsnewid fflatiau un ystafell gwarchod ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd gan Cymoedd i'r Arfordir ganolfan o fflatiau un ystafell gwarchod wag arall gerllaw. Er mai'r bwriad yn wreiddiol oedd eu trawsnewid o fflatiau un ystafell i fflatiau hunangynhwysol, sylweddolodd Cymoedd i'r Arfordir yn gyflym nad oedd hyn yn bosibl. Ystyriwyd amryw ddewisiadau cyn i sgwrs gyda Chymuned Wallich awgrymu ein bod ni'n ystyried gweithio gyda sefydliad Emmaus newydd ei ffurfio Pen-y-bont ar Ogwr. Cawsom ein cyflwyno i'n gilydd a dilynodd ymweliad â chartref cymunedol presennol yn Hampshire.

*"Cartref, swydd, pwrpas: Mae Emmaus yn helpu unigolion i adeiladu bywydau newydd".*

Mewn cymuned Emmaus, mae dynion a menywod (a elwir yn gymdeithion) a arferai fod yn ddigartref yn cyd-fyw ac yn cydweithio mewn amgylchedd cefnogol. Mae gan bawb mewn cymuned Emmaus rôl i'w diwallu ac maen nhw'n cyfrannu at les y gymuned.

Roedd y weledigaeth hon yn gyson â gweledigaeth Cymoedd i'r Arfordir. Er 2009, mae Cymoedd i'r Arfordir ac Emmaus wedi bod yn gweithio i sefydlu cartref cymunedol a menter gymdeithasol ymarferol i gyflwyno'r profiad gwaith. Yn ystod y cyfnod rhwng 2009 a 2013, cefnogodd Cymoedd i'r Arfordir ddatblygiad Emmaus trwy helpu codi arian, cyflwyniadau gyda darpar bartneriaid ariannu, dylunio prosiectau a datblygu cynlluniau.

Sefydlwyd partneriaeth ehangach a oedd yn cynnwys cefnogaeth allweddol CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Llywodraeth Cymru, Y Gronfa Loteri Fawr, Henry Smith Charitable Trust a chefnogwyr Emmaus ar draws y DU. Daeth cymorth elusennol arall wrth y Moon Dance Foundation, y Bernard Sunley Trust, y Bridgend Civil Charities Fund a'r People's Postcode Trust.

Yn sgil ail-frandio i Emmaus South Wales, sefydlu menter gymdeithasol a dyfarniadau grant y Gronfa Loteri Fawr a Llywodraeth Cymru, a sicrhaodd y cyllid llenwi bwlch oedd ei angen, galluogwyd y prosiect i fwrw ymlaen i ddylunio manwl, tendro a gweithredu.

Gwerthodd Cymoedd i'r Arfordir Nantlais i Emmaus ac yna rheolodd y prosiect o'i adnewyddu i'w gwblhau ym mis Rhagfyr 2015. Fe'i hagorwyd yn swyddogol gan Brif Weinidog Cymru, a dechreuodd y cymdeithion symud i mewn i Nantlais ym mis Ionawr 2016.

Cymdeithion yw stori go iawn Nantlais. Amrywia'r rhesymau am eu digartrefedd: perthynas yn chwalu, camddefnyddio sylweddau, tlodi, ond mae'r holl gymdeithion yn rhannu dymuniad a chymhelliant i ddechrau o'r newydd. Wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd, darganfod doniau cudd a datblygu cyfeillgarwch newydd yn Emmaus, maen nhw'n cael ymdeimlad o hunan werth ac annibyniaeth. Yn aml, mae cymdeithion yn canmol Emmaus am newid eu bywydau er gwell, o'r pwynt lle newidion nhw o anobaith llwyr i obaith.

Mae'r cymdeithion yn aros yn y gymuned cyhyd ag y mae arnynt angen. Nid oes pwysau arnynt i symud ymlaen nes y teimlant yn barod. Bydd rhai'n aros yn ddigon hir i gael eu hunain nôl ar eu traed; bydd rhai eraill yn aros am y tymor hir.

Bydd y cymdeithion yn byw wrth ambell i reol sylfaenol: disgwylir i bob un ohonynt weithio hyd eithaf eu gallu yn y fenter gymdeithasol gymunedol ac ni chaniateir unrhyw ddiod, cyffuriau na thrais yn y gymuned. Gall cymdeithion ddatblygu yn eu hamser eu hunain heb y pwysau i symud ymlaen i fyw yn annibynnol pan nad ydynt yn barod nac yn ddigon hyderus i wneud hynny.

Cânt y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen tra byddant yn Emmaus, yn ogystal â'r hunan-barch cynyddol sydd i'w gael o gydweithio yn y gymuned. Cefnogir y gymuned gan fenter gymdeithasol mewn ailgylchu, sy'n gweithredu o Ben-y-bont ar Ogwr yn bennaf, ond sy'n ymestyn hefyd o Gastell-nedd yn y gorllewin i'r Bontfaen yn y dwyrain, ac Aberdâr yn y gogledd. Darperir cyfleoedd gwaith ystyrlon i'r cymdeithion gan y fenter gymdeithasol.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae'r prosiect hwn wedi sefydlu'r gymuned Emmaus gyntaf yng Nghymru ac wedi datblygu 24 ystafell i gymdeithion gael cartref sefydlog yn dilyn cyfnod o ddigartrefedd.

Mae Nantlais wedi cynnig cyfle i gymdeithion fyw'n annibynnol mewn amgylchedd cefnogol. Addysgir sgiliau bywyd, bwyta'n iach a choginio, a rheoli cyllideb yn y cartref.

Elfen allweddol o gymuned Emmaus yw sefydlu moeseg gwaith, trwy wirfoddoli yn un o'u 7 canolfan adwerthu ar draws De Cymru. Cynigia'r gwaith hwn reswm i gymdeithion godi yn y bore, a gwobr am eu llafur.

Yn aml iawn, mae gwerth cymuned Emmaus i'w cymdeithion yn un emosiynol, sy'n golygu bod y cymdeithion yn rhan o amgylchedd sefydlog, teulu gweithio, sy'n eu galluogi i gael eu hunain nôl ar eu traed.

Dangosodd astudiaeth annibynnol fod cymuned emmaus wedi arbed £24,000 fesul cydymaith y flwyddyn i'r wlad. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o gymdeithion yn aros am chwe mis neu'n llai, cyn symud i gymuned, cyflogaeth neu lety arall. Mae tri chydymaith wedi symud ymlaen o Nantlais hyd yma.

Fel y dywedodd un cydymaith: 'Rhoddodd Emmaus wely i mi, a rheswm imi godi o'r gwely.'

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae gwaith Emmaus South Wales wedi dangos effaith go iawn ar fywydau pobl*

**Tom Clarke**
Cyfarwyddwr

Emmaus South Wales

**Ff:** 01656 332756
**E:** tom@emmaussouthwales.org.uk



# Adfywio Lle Rowan

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyda Chymunedau yn Gyntaf, Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Partneriaeth Caerffili Saffach, Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

Ystâd yng ngogledd Rhymni yw Lle Rowan o fewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Twyn Carno 1. Twyn Carno 1 yw'r ail ardal fwyaf difreintiedig ym mwrdeistref sirol Caerffili ac, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, mae o fewn y 10% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is fwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg a diogelwch cymunedol. Mae yn y chweched safle yn y mynegai cyffredinol.

Roedd Lle Rowan yn ardal a nodweddwyd gan lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a thenantiaethau tymor byr. Roedd yr amgylchedd di-oed yn dlawd, ac ychydig iawn o le awyr agored personol sydd gan y tenantiaid a'r preswylwyr. Roedd y lle awyr agored oedd ar gael yn cynnwys ardaloedd glaswellt, lle parcio a thramwyfeydd segur ac wedi'u hesgeuluso, oedd ar gau er mwyn atal ymddygiad troseddol ond a ddaeth yn fagnet nes ymlaen ar gyfer sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae Lle Rowan yn cynnwys 80 eiddo; mae 10 yn eiddo preifat a 70 yn eiddo i'r cyngor, mae cyfran fawr o'r eiddo hyn (48) yn fflatiau. Ystyriwyd yr ardal y mae'r fflatiau ynddi'n 'ardal i'w hosgoi' a daeth yn gartref gan mwyaf i bobl sengl dros dro ac i deuluoedd gyda heriau arbennig, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cofnodion troseddol, problemau cyffuriau ac alcohol.

Yn ogystal, arweiniodd y gwarth oedd ynghlwm â'r ardal hon yn hanesyddol at ddarpar denantiaid yn gwrthod cynigion llety yn Lle Rowan, gan arwain at nifer o eiddo gwag tymor hir.

Wrth gyflawni arolygon o'r cartrefi, fel rhan o raglen Safon Ansawdd Tai Cymru'r cyngor, dynodwyd problemau lleithder difrifol ynghyd â namau allanol i wneuthuriad sawl eiddo.

Yn hytrach na dim ond ymgymryd â rhaglen gwella cartrefi yn Lle Rowan, gwelodd isadran tai'r cyngor hwn fel cyfle i adfywio'r ardal ar raddfa ehangach. Cydnabyddai fod cydweithredu gydag asiantaethau partner yn allweddol er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddsoddiad o £4.2 miliwn oedd yn cael ei wneud i Le Rowan er mwyn cyflwyno manteision ehangach i'r gymuned leol.

Yn ystod camau cynllunio'r rhaglen, nododd yr isadran tai nifer o bartneriaid a fyddai'n hollbwysig i helpu mynd i'r afael â'r problemau yn Lle Rowan. Ymhlith y partneriaid allweddol roedd Cymunedau yn Gyntaf, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Heddlu Gwent.

Sicrhawyd £1miliwn ychwanegol o gyllid i wella'r prosiect trwy Gronfa Trechu Tlodi Lleoedd Llewyrchus Iawn Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd rhan o'r cyllid i adnewyddu Canolfan Adnoddau Hafod Deg ar Stryd Fawr y Rhymni. Trawsnewidiwyd y cyfleuster hwn yn gyfleuster amlasiantaeth gweithrediad llawn, gan ddarparu ystod eang o ddarpariaeth a gwasanaethau cymorth i fodloni anghenion y gymuned yn Rhymni. Cynigia'r cyfleuster amrywiaeth o wasanaethau lleol pwysig gan gynnwys Cyngor Ar Bopeth, cymorth hyfforddiant a chyflogaeth, prosiectau tyfu bwyd cymunedol a mwy.

Yn ogystal, mae Partneriaeth Caerffili Saffach a Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau wedi datblygu lleoliad camddefnyddio sylweddau amlasiantaeth yn Hafod Deg i wasanaethu'r anghenion yn yr ardal hon; gan alluogi'r preswylwyr i fynd at wasanaethau mewn lleoliad cyfleus, ac felly cynyddu'r cyfraddau cadw cleientiaid a chanlyniadau cadarnhaol i driniaeth.

Bu effaith y cydweithredu ar y preswylwyr yn arwyddocaol, gyda niferoedd mawr yn troi at driniaeth a chefnogaeth trwy Hafod Deg. Ni fyddai llawer ohonynt wedi cymryd rhan ynddynt yn flaenorol. Ar yr un pryd, mae preswylwyr Lle Rowan wedi gweld gwaith adnewyddu helaeth i'w cartrefi i'w gwneud nhw'n gynhesach ac yn wrth-ddŵr yn ogystal â gwella'u hymddangosiad yn sylweddol. Bydd y gwelliannau amgylcheddol yn helpu codi'r ardal ymhellach ac annog tenantiaid newydd i'r eiddo sy'n wag ar hyn o bryd. Defnyddir y gwelliannau hefyd i ymgysylltu â phreswylwyr a chodi dyheadau'r gymuned.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae'r prosiect yn dal i fynd ond mae eisoes wedi cyflawni canlyniadau arwyddocaol i bobl leol. Er enghraifft, helpu tenantiaid i ostwng costau tanwydd trwy welliannau i gartrefi, gwell iechyd a lles unigolion trwy brosiectau tyfu, cefnogi pobl i waith a darparu triniaeth i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau.

Ymhlith yr allbynnau penodol hyd yma oedd:

- 3 hyfforddeiaeth a 10 swydd a grëwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith adnewyddu
- helpu 74 aelwyd tuag at wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi
- cefnogwyd 41 o bobl i waith
- cwblhaodd 72 o bobl gyrsiau cysylltiedig â chyflogaeth
- cafodd 16 o bobl gymhwyster cysylltiedig â chyflogaeth
- cyflogwyd 52 o bobl anweithgar yn economaidd ar y prosiect neu i gymryd rhan yn y prosiect

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae'r prosiect hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwella bywydau'r tenantiaid trwy gydweithredu.*

**Kelsey Watkins**
Swyddog cyfathrebu ac ymgysylltu â thenantiaid

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

**Ff:** 01443 864262
**E:** watkik1@caerphilly.gov.uk

# Gwobr hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a chefnogaeth

Mae'r wobr hon yn cydnabod sefydliad sydd wedi datblygu dulliau cydraddoldeb, cynhwysiant ac/neu gefnogaeth ragorol. Byddant yn gallu dangos eu bod wedi bodloni anghenion grŵp penodol sy'n gofyn am gefnogaeth ychwanegol, wedi meithrin cynhwysiant ac wedi dathlu amrywiaeth, cynyddu amrywiaeth yn y gweithlu o ganlyniad i ddiwylliant gwaith sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, ac wedi dangos canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth o drechu eithrio cymdeithasol a gwella gwydnwch.



## Connect

### United Welsh

Sefydlwyd prosiect Connect gan Thrive@United Welsh i ateb tystiolaeth gymhellol a chynyddol bod arwahanrwydd cymdeithasol a diffyg pwrpas/hunanwerth yn cael effaith enfawr ar bobl.

Amlyga'r dystiolaeth fod y disgwyliad oes yn cael ei leihau rhwng 2 a 5 gwaith i bobl ar eu pen eu hun a bod arwahanrwydd yn cynyddu'n sylweddol gydag oedran.

Roedd Thrive, y tîm sy'n rheoli llety a chefnogaeth arbenigol i United Welsh, eisiau mynd i'r afael â'r duedd frawychus hon a dyluniwyd prosiect Connect i lenwi'r bwlch hwnnw.

Dyluniwyd y gwasanaeth i helpu tenantiaid i feithrin fwy o allu mewn perthynas â phwrpas unigol, hyrwyddo perthnasoedd ystyrlon a'u hannog i fod yn fwy gweithgar yn y gymuned gan leihau teimladau o arwahanrwydd.

Canolbwyntiodd Connect yn wreiddiol ar gynlluniau i bobl 50 oed a hŷn yng Nghaerffili, ond mae bellach wedi symud i Flaenau Gwent.

Yn yr achos cyntaf, sefydlodd Connect rwydwaith o 10 gwirfoddolwr cysylltu cymunedol i gefnogi rheolwyr cynllun i gynnal digwyddiadau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â buddiannau'r tenantiaid. Yn ogystal, mae cysylltwyr yn cynorthwyo wrth helpu'r tenantiaid i ddibynnu'n raddol llai ar gymorth ffurfiol.

Roedd y broses recriwtio gwirfoddolwyr yn amrywiol, gan gynnwys hysbysebion yn y papurau newydd lleol, y cyfryngau cymdeithasol a defnyddio gwefannau gwirfoddoli ochr yn ochr â phresenoldeb mewn grwpiau a gweithdai cymunedol.

Mae gan bob gwirfoddolwr wahanol fwriad i wirfoddoli ac maen nhw'n dod ag amrywiaeth o sgiliau. Mae pob un yn cael cwrs cynefino, archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac yn cael eu mentora gyda sesiynau 1-i-1 cyson.

Gofynnwyd i'r tenantiaid yn y cynlluniau oedd ynghlwm i lenwi ffurflen syml 'amdanaf i' sy'n gofyn i bobl siarad am yr hyn maen nhw'n hoffi ei wneud. Cawsom gyfradd dychwelyd ffurflenni llwyddiannus o 78.7 y cant a roddodd gronfa fawr o wybodaeth i ni.

Diolch i'r wybodaeth yn y ffurflenni 'amdanaf i' a'r sesiynau 1 i 1, sefydlwyd nifer o grwpiau gweithgareddau gan gynnwys bowlio, gwaith gwnïo, darllen a chlwb ffilmiau. Yn ogystal, sefydlwyd clwb i ddynion gan fod rhai o'r dynion eisiau cael cyfle i drafod a chael dadl. Gall y gweithgareddau 1 i 1 a gynhelir gynnwys pobi, dadlau neu dim ond siarad.

Mae'r gwirfoddolwyr wedi rhoi cyfanswm cyfunol o 174 o oriau - gan ennill 174 o gredydau Amser Banc (Tachwedd 2015 - Ebrill 2016). Cafwyd cyfanswm o 54 sesiwn 1 i 1 oedd yn gwneud cyfanswm o 86.5 o oriau. Cafwyd 87.5 o oriau ar gyfer gweithgareddau grŵp.

Gweithia prosiect Connect yn agos gyda nifer o wahanol asiantaethau er mwyn chwyddo'i effaith. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltwyr cymunedol Blaenau Gwent a Working Links Caerffili a Gavo sydd wedi rhoi cyngor diderfyn.

Mae Connect mor fanteisiol i denantiaid ag y mae i'r cysylltwyr:

**Sonia** (tenant - Fitzroy Lodge) – *"Rwy'n teimlo bod gen i rywun i siarad ag ef. Ar wahân i'r gofalwyr, yr unig berson rwy'n gweld yw fy wyres ac mae'n braf gwybod bod rhywun yn mynd i fod yno bob wythnos."*

**Clive** (tenant - Plas Hyfryd) – *"Rwy'n hoffi cwmni Marc ac mae'n wych cael rhywun sy'n gallu cadw cwmni i mi ar deithiau cerdded. Rwy'n hoffi'r ffaith nad yw Connect yn ormod o beth a gall fod cyn lleied neu gymaint ag yr wyf yn dymuno. Mae'n gydbwysedd braf."*

**Angharad** (cysylltwr) – *"Mae gennyf well dealltwriaeth erbyn hyn ynghylch pa yrfa hoffwn i ei dilyn ac rydw i newydd wneud cais am swydd mewn cartref gofal preifat ac wedi bod yn llwyddiannus."*

**Zara** (cysylltwr) – *"Mae Connect wedi rhoi hwb i'm hyder ac wedi fy helpu i fynd allan o'r tŷ. Rydw i wrth fy modd yn gweithio gyda Sonia a theimlaf fy mod i'n gwneud gwir wahaniaeth."*

**Gareth** (cysylltwr) – *"Mae'r prosiect wedi rhoi cymhelliant i mi ac mae'n cadw fy meddwl yn effro. Mae wedi fy ngalluogi i adnabod fy sgiliau ac wedi tynnu sylw at feysydd i'w datblygu."*

Rydym bellach eisiau ehangu Connect ac rydym yn dynodi ffynonellau cyllid i helpu cyrraedd hyd yn oed mwy o bobl.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Cafwyd eisoes nifer o ganlyniadau da o brosiect Connect.

Roeddem yn awyddus o'r cychwyn i werthuso pa mor dda roedd y prosiect yn gweithio a gofynnwyd i'r rheiny rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda nhw i gwblhau Graddfa Lles Meddwl Warwig-Caeredin ar ddechrau eu hymwneud gyda Connect ac wedi hynny buon nhw'n gweithio gyda'u cysylltwr am chwe mis.

Ar ddechrau'r prosiect, graddiodd 37% bod eu lles yn dda neu'n rhagorol; ar ddiwedd y chwech mis dywedodd 87% fod eu lles yn dda neu'n rhagorol ac roeddent yn priodoli hyn yn uniongyrchol i'w hymwneud â'r prosiect.

O ganlyniad, gallwn ddweud yn eithaf hyderus am bob awr sy'n cael ei dreulio'n rheoli tîm y cysylltwyr bob wythnos yn uniongyrchol, ein bod yn gweld pedair awr o fudd o ran yr effaith maen nhw'n ei chael a'r gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud.

Mae'r bobl sy'n gweithio gyda chysylltwr wedi mynd yn llai unig, wedi magu hyder ac wedi datblygu diddordebau newydd.

Fel y mae Brenda, tenant, yn tystio:

*"Mae gweithio gydag Angharad (ei chysylltwr) yn wych, mae hi'n galonogol ac wedi gwneud i mi edrych ar bethau eraill y gallaf eu gwneud. Ni'n mynd i fferm yn fuan gan fy mod i'n caru anifeiliaid"*

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae Connect United Welsh yn fenter gydlynol, wedi'i hystyried yn dda sy'n mynd i'r afael â mater mwyfwy heriol arwahanrwydd cymdeithasol*

**Dominy Palmer-Day**
Uwch weithiwr cyswllt cymunedol

United Welsh

**Ff:** 029 2085 8100
**E:** dominy.palmer-day@unitedwelsh.com



# Achos pryder

## Charter Housing Association a phartneriaid

### Datganiad Cefnogol:

Wrth ddatblygu'n strategaeth 'Atal trwy Ymyrryd' a gweithio gyda'r heddlu ac asiantaethau lleol eraill, daethom yn ymwybodol fod graddfa'r materion diogelu sy'n effeithio ar ein tenantiaid yn llawer mwy nag y credwyd yn flaenorol. O ganlyniad, roeddem am greu system fwy effeithiol o ddelio â materion sy'n effeithio ar blant diamddiffyn, oedolion a dioddefwyr cam-drin domestig.

Er mwyn gwneud hyn, nodwyd angen gennym i wella'r ffordd rydym yn cofnodi, yn rheoli ac yn monitro gwybodaeth yn ymwneud â phryderon diogelu ar draws y gymdeithas er mwyn ymdrin ag achosion yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

Gwyddem nad peth hawdd oedd dod o hyd i ddata'n ymwneud â thenantiaethau, bod y wybodaeth yn aml yn cael ei cholli pan fyddai staff yn gadael y sefydliad, ac nad oeddem yn ymateb mor gyflym ag y gallem fod yn ei wneud.

Byddai mynd i'r afael â hyn yn ein galluogi ni i ddefnyddio profiad a gwybodaeth ein holl staff i nodi pryderon a helpu teilwra ymateb di-oed ac effeithiol.

Gwnaethom ddatblygu dull newydd o'r enw 'Achos Pryder' ym mis Hydref 2014 yn seiliedig ar gronfa ddata gyfrinachol sy'n galluogi'r holl staff i gofnodi pryderon yn ymwneud ag unrhyw fath o fater diogelu. Mae'n dal data o bob adran mewn un man canolog sydd ond o fewn cyrraedd staff wedi'u hyfforddi'n benodol. Pan fydd yna broblem, mae'r system hon yn rhoi i ni ddarlun clir o beth sydd wedi digwydd ac yn caniatáu'r swyddogion i ymateb yn effeithiol ac yn ddeallus.

Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant penodol (184 dros y ddwy flynedd diwethaf), yn ogystal â hyfforddiant diogelu gorfodol arall. Ar ôl mynychu, cânt fynediad i'r gronfa ddata er mwyn iddynt allu dechrau cofnodi pryderon yn syth.

Pan fydd pryderon yn cael eu cofnodi, bydd grŵp 'Achos Pryder' o 8 aelod o staff gyda rolau amrywiol yn y sefydliad, pob un gyda set benodol o sgiliau a phrofiad, yn adolygu pob achos ac yn gwneud penderfyniadau ar ba gamau y mae angen eu cymryd. Rydym yn sicrhau bod y grŵp yn adrodd nôl i'r aelod o staff a greodd yr adroddiad i feithrin ffydd yn y broses. Mae hyn wedi gwella adroddiadau'n sylweddol, yn enwedig gan ein staff yn ein timau cynnal a chadw a'n contractwyr mewnol.

Mae ein staff yn hollbwysig i'n hymagwedd. Trwy weithio gyda phartneriaid, roedd y staff ymhlith y cyntaf i nodi bod angen i ni wella'n dull o ychwanegu at ein gwaith cynnal tenantiaeth ehangach. Maen nhw wedi bod yn annatod hefyd wrth ddatblygu ymateb syml, effeithiol ond cost isel. Rydym yn parhau i ddatblygu a gwella hyn wrth i fwy o staff gymryd rhan ynddo ac, er bod yr uwch reolwyr yn cefnogi'r gwaith hwn yn weithgar, daw'r ysgogiad a'r syniadau i wella'n aml gan dimau gweithredol. Mae hyn wedi ein galluogi ni i oresgyn yr adrannau ar wahân a'r sensitifrwydd traddodiadol i ymgorffori'r dull hwn yn ein gwaith dyddiol a sicrhau y caiff ei ystyried yn rhywbeth y mae pob un ohonom yn gyfrifol amdano.

Mae diogelu lles ein tenantiaid yn hynod bwysig i ni a chredwn fod Achos Pryder yn unigryw. Dengys y canlyniadau ei fod yn ffordd syml ond effeithiol o ddefnyddio adnoddau presennol i wella ein dealltwriaeth, gwneud y defnydd gorau o sgiliau a gwybodaeth ein staff a gweithio'n fwy effeithiol gyda sefydliadau lleol i gael effaith a helpu cadw'n tenantiaid yn ddiogel. Yn ogystal, mae'n ychwanegu at ein gwaith cynnal tenantiaeth ehangach.

Mae adborth y tenantiaid a'r partneriaid yn gadarnhaol. Dywedodd y gweithwyr cymdeithasol wrthym fod ein dull wedi helpu atal sefyllfaoedd rhag dwysáu ac mae'r tenantiaid yn esbonio bod ein dull rhagweithiol yn golygu eu bod yn *"gwybod ble i gysylltu â ni os bydd ganddynt unrhyw broblemau"*.

Dywed llawer o ddioddefwyr cam-drin domestig wrthym eu bod yn teimlo'n fwy diogel a sut mae'r ymyrraeth wedi'u galluogi i dorri'r cylchoedd cam-drin hirsefydlog:

*"Gwnaeth wahaniaeth enfawr i'm bywyd, heb y gefnogaeth byddwn i wedi bod yn ddigartref; allwn i ddim bod wedi ymdopi a gallwn i fod wedi colli fy merched".*

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Ers i'r prosiect gael ei lansio, mae'r staff wedi rhoi gwybod am dros bedair gwaith yn fwy o achosion na chyn i ni weithredu 'Achos Pryder'. O ganlyniad, roeddem yn gallu ymyrryd yn fwy llwyddiannus mewn llawer mwy o achosion nag oedd yn bosibl o'r blaen.

Er 2014, rydym wedi adrodd ac wedi ymchwilio i:

- Drais domestig: 435 o achosion
- Diogelwch plant: 70 o achosion
- Diogelwch oedolion: 219 o achosion

Mae hyn wedi arwain at gannoedd o atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd, yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, staff yn mynychu dros 20 cyfarfod Cynhadledd

Amlasiantaeth Asesu Risg ac ystod o gamau gweithredu eraill. Rydym bellach yn gallu cefnogi llawer mwy o bobl i aros yn eu cartref ac osgoi sefyllfaoedd rhag mynd allan o reolaeth, gyda dim ond 15% o bob tenantiaeth sy'n dod i ben yn gwneud hynny am resymau negyddol.

Mae gennym fwy o gysylltiadau effeithiol gyda'r heddlu, y timau amddiffyn oedolion a phlant hefyd wrth i'n harbenigedd a'n canlyniadau wella. Yn rhan o hyn, rydym bellach yn cynnal prosiect ledled Gwent i wella'n dull ar y cyd o droi at drais domestig ac rydym wrthi'n cymryd rhan ym mhroses galwadau cynadledda cam-drin domestig Heddlu Gwent.

Yn olaf, er mwyn sicrhau ymateb cyflym ac effeithiol i geisiadau am wella diogelwch, rydym bellach yn gweithio gyda Gofal a Thrwsio Cymru, ac wedi darparu cefnogaeth 'gwella diogelwch' ychwanegol yng nghartrefi dros 50 o bobl er 2014.

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae Charter Housing Association wedi cymryd dull gwirioneddol ymarferol o droi at yr her gyson o rannu gwybodaeth*

**Kay Helyar**
Pennaeth cymunedau cynaliadwy

Charter Housing Association

**Ff:** 01633 678504
**E:** kay.helyar@charterhousing.co.uk



# Film Vibez

## Cymoedd i'r Arfordir

Ar gyfer y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn 2015, penderfynodd Cymoedd i'r Arfordir wneud rhywbeth ychydig yn wahanol i flynyddoedd y gorffennol a dod â chynulleidfa fwy cynhwysol i rannu cyflawniadau Cymoedd i'r Arfordir.

Gan gadw hyn yn y cof, penderfynodd tîm adfywio Cymoedd i'r Arfordir redeg prosiect ffilm mewn partneriaeth â Big Foot Arts Education o'r enw 'Film Vibez'. Daeth 30 o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed ar draws y fwrdeistref at ei gilydd i ddangos eu sgiliau actio a ffilmio, gan greu a golygu nifer o ffilmiau byrion oedd yn rhannu eu safbwyntiau ar 'Sut beth yw hi i fyw yn eich cymuned? Amlygwyd ystod amrywiol o faterion gan gynnwys bwlio a gwahaniaethu, a rôl bwysig gweithwyr ieuenctid.

Ar yr un pryd, gweithiodd Cymoedd i'r Arfordir gyda phreswylwyr tai gwarchod 55 oed neu'n hŷn i wneud ffilmiau am y newidiadau maen nhw wedi'u gweld yn eu cymunedau ac i roi golwg o sut beth yw hi i fyw mewn llety gwarchod.

Er mwyn dangos y doniau, cynhaliwyd première i'r ffilm, cyfarchwyd y gwesteion gyda phopcorn a lluniaeth i wylio a mwynhau'r ffilmiau. Anogwyd y gynulleidfa, oedd yn cynnwys tenantiaid, preswylwyr, pobl ifanc a'u teuluoedd, staff a rhanddeiliaid i bleidleisio am eu hoff ffilm yn ystod yr egwyl a rhoddwyd gwobrau i'r ffilmiau gorau ynghyd â'r Actor Gorau a'r Actores Orau.

Dywedodd Autumn Hubbard; un o'r bobl ifanc a fynychodd digwyddiad Film Vibez:

*"Mynychais Film Vibez a chefais yr amser gorau erioed yn gwneud llawer o ffrindiau newydd. Rhoddodd première y ffilm gyfle i bawb ddisgleirio. Roedd hi'n brofiad gwych a fwynhawyd gan bawb"*

Defnyddiodd Cymoedd i'r Arfordir y digwyddiad cynhwysol hwn i gynnal eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd. Yn ysbryd y noson, gwnaeth prif weithredwr y sefydliad, Stephen Cook, gyflwyno llwyddiannau a ffigurau'r flwyddyn ar gyfer Cymoedd i'r Arfordir trwy ei ffilm ei hun.

Dywed Mrs Bayliss yng nghynllun gwarchod Llys Cynffig wrthym:

*"Dyma ddangos y gall hyd yn oed ni'r hen bobl gael hwyl a chael rhywbeth i chwerthin yn ei gylch."*

Roedd y noson yn llwyddiant ysgubol, gyda phreswylwyr o bob oedran yn dod at ei gilydd, yn rhannu eu safbwyntiau gwahanol ar fywyd ac yn gwrando ar faterion o safbwynt ei gilydd.

Rhoddodd prosiect a première FilmVibez yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y canlynol i'r cyfranogwyr a'r gynulleidfa:

- Gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion a blaenoriaethau pobl ifanc a hŷn yng nghymuned Cymoedd i'r Arfordir.
- Hyrwyddo cynlluniau gwarchod yn gadarnhaol i leihau stereoteipio yn y gymuned ehangach.

- Mwy o sgiliau a hyder ymhlith y cyfranogwyr i rannu eu syniadau a'u barnau gyda Cymoedd i'r Arfordir.
- Mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol fel arf ymgysylltu, yn enwedig yn y cynlluniau gwarchod sydd wedi arwain at ddymuniad am ragor o hyfforddiant TG.
- Gwella cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol.

Roedd cynnwys y ffilmiau ac ystod amrywiol y bobl a'r cymunedau a gynhwyswyd yn y digwyddiadau'n rhoi gwell gwybodaeth a mewnwelediad i'r gynulleidfa, gan gynnwys staff a rhanddeiliaid Cymoedd i'r Arfordir o ran:

- Gwella cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol
- Adolygu gwasanaethau Cymoedd i'r Arfordir
- Hyrwyddo cynlluniau gwarchod yn gadarnhaol a lleihau stereoteipio ymhlith y gymuned ehangach

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Daeth y canlyniadau canlynol o ganlyniad uniongyrchol i brosiect 'Filmvibez':

1. **Cydnabod cymunedau sy'n hunaneithrio**
   Adolygodd y tîm ymgysylltu â chwsmeriaid y fforwm cymunedol o gyfarfodydd ffurfiol mawr i ddigwyddiadau 2gether penodol i gymunedau. Mae aelodau staff yn mynd i wahanol ganolfannau cymunedol ar draws y fwrdeistref i gyflwyno gwasanaethau a chynnig cyngor a gwybodaeth, yn ogystal â gwahodd sefydliadau partner i gynnig eu gwasanaethau nhw hefyd.
2. **Cydnabod yr angen am gydlyniad cymunedol – rôl y gweithiwr ieuenctid**
   Mae Cymoedd i'r Arfordir wrthi'n cefnogi tenant i gwblhau cymhwyster gweithiwr ieuenctid, gan weithio yn un o'r cymunedau mwyaf anodd eu cyrraedd o ran ymgysylltu â chwsmeriaid Cymoedd i'r Arfordir.
3. **Rhoi pwrpas newydd i swyddfa gwasanaethau cwsmeriaid Cymoedd i'r Arfordir**
   Er mwyn annog cydlyniad cymunedol a datblygu rhwydweithiau lleol sy'n croesi cymunedau. Mae Cymoedd i'r Arfordir yn darparu canolfan newydd i gwsmeriaid; lle mae cefnogaeth i staff, cynhwysiant digidol a mynediad i asiantaethau cymorth eraill. Mae'r rhain yn cynnwys diwrnodau fel:
   - Dydd Mawrth Siarad (cyngor ar gyllidebu)
   - Dydd Iau Ar-lein
   - Grŵp Clonc
4. **Creu cymunedau a gwasanaethau cyfeillgar i oedran trwy ymarferion cynaliadwy tymor hir.**
   Arweiniwyd menter 'Cymunedau Gardd' y tîm adfywio ar draws y fwrdeistref i lanhau ac adfywio gerddi yn:
   - Niwrnod rhoi ac ennill gardd gymunedol clwb ieuenctid 'Cyfeillion Brynheulog' ym mis Mai 2015.
   - Llety gwarchod: prosiect Gardd Dinham Close
   - Llety gwarchod: prosiect Gardd Merfield House

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Gall Cymoedd i'r Arfordir ddarparu tystiolaeth glir o ganlyniadau ymarferol a chwalu rhwystrau rhwng cwsmeriaid y dyfodol a chwsmeriaid craidd*

**Lizzie Conway**
Cynorthwyydd cyfathrebu

Tai O'r Cymoedd i'r Arfordir Cyf

**Ff:** 01656 762444
**E:** lizzie.conway@v2c.org.uk

# Gwobr grymuso a chynnwys cymunedau

Mae'r wobr yn cydnabod dulliau llwyddiannus o gynnwys, grymuso a chefnogi tenantiaid a phreswylwyr i ffurfio gwasanaethau, cymell gwelliannau a chyflawni newid ystyrlon mewn sefydliad neu yn y gymuned.




## Pencampwyr digidol

### Cymdeithas Tai Newydd gyda Chymunedau yn Gyntaf y Barri a Rhydyfelin, Tîm Cymunedol Bro Morgannwg, Canolfan Byd Gwaith RhCT a'r Fro, Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, Wales and West Housing, Hafod Housing, Trivallis, Cyngor RhCT a Chymunedau Digidol Cymru

Mae Newydd yn ymroi i drechu eithrio digidol a'i nod yw gwella sgiliau digidol a lefelau mynediad yn ein cymunedau.

Credai Newydd er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau, roedd rhaid wrth gydweithredu gyda phartneriaid i sicrhau cysondeb y ddarpariaeth gwasanaeth. Felly, pan edrychodd Newydd gyntaf i sefydlu sesiynau galw heibio digidol ym Mro Morgannwg yn 2014, aed at Gymunedau yn Gyntaf y Barri a'r gwasanaethau llyfrgell lleol i drafod gweithio mewn partneriaeth i drechu eithrio digidol a phenderfynu sut orau i ddenu pencampwyr digidol gwirfoddol i redeg sesiynau.

Yna, sefydlodd Newydd nifer o sesiynau galw heibio digidol mewn cyfleusterau cymunedol, llyfrgelloedd lleol a chynlluniau byw yn annibynnol ar draws y Fro er mwyn cynnig cyfleoedd i denantiaid a'r gymuned ehangach ddysgu neu loywi sgiliau ar unrhyw ddyfeisiau digidol allai fod ganddynt h.y. ffonau symudol, llechi, gliniaduron neu fyrddau gwaith. Gall cleientiaid gael pencampwr digidol 1 i 1 neu gallant ddysgu mewn lleoliad grŵp bach naill ai gydag aelod o staff neu bencampwr digidol Newydd, Cymunedau yn Gyntaf y Barri neu Gyngor Bro Morgannwg.

Yn ddiweddarach, cyflwynodd Newydd sesiynau galw heibio yn Rhydyfelin ac mae bellach wedi cysylltu â hyd yn oed mwy o bartneriaid - Cymunedau yn Gyntaf Rhydyfelin, Tîm Cymunedol Bro Morgannwg, Y Ganolfan Byd Gwaith (y Fro a Rhondda Cynon Taf), Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, Wales and west Housing, Tai Hafod, Trivallis a Chyngor Rhondda Cynon Taf er mwyn pontio'r rhwyg digidol.

Mae creu amgylcheddau dysgu anffurfiol mewn lleoliadau hygyrch wedi'n galluogi ni i ryngweithio'n llwyddiannus gyda chyfranogwyr nad oes ganddynt o reidrwydd yr hyder i gymryd rhan mewn cyfle dysgu mewn lleoliad mwy ffurfiol. Mae'r hyfforddiant a gânt yn eu galluogi i droi at gyfleoedd digidol, gwneud arbedion ariannol, mynd yn agosach at y farchnad waith, cyfathrebu'n electronig a pharatoi ar gyfer credyd cynhwysol.

Cydnabyddwn bwysigrwydd pencampwyr digidol gwirfoddol ac er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy, gweithiwn gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, Cymunedau Digidol Cymru a Chanolfan Byd Gwaith y Barri i hyrwyddo'r rhaglen ac annog darpar wirfoddolwyr i gymryd rhan. Rhoddir trosolwg o'r prosiect i'r holl wirfoddolwyr cyn penderfynu a ddymunant arwain sesiwn galw heibio penodol, darparu cefnogaeth ad hoc neu lanw sesiwn os nad oes pencampwr digidol arall ar gael. Cefnogir pob pencampwr digidol gan aelod o staff tan i'w harchwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd glirio a hyd nes y teimlant yn hyderus i redeg sesiwn heb oruchwyliaeth.

Mae cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn gyson yn sicrhau nad yw'n pencampwyr digidol yn teimlo ar wahân ond yn hytrach yn teimlo'n fwy hyderus i gyflwyno hyfforddiant. I'r perwyl hwn, sefydlodd Newydd dudalen Facebook a gyriant Google i'w rannu er mwyn gallu rhoi i'r pencampwyr digidol y newyddion diweddaraf; gwybodaeth am hyfforddiant/cyfleoedd gwaith sydd i ddod; gofyn am gefnogaeth/adnoddau; neu fynd at ganllawiau cam wrth gam ar hanfodion cyfrifiaduron, Word, e-bost, Internet Explorer, Facebook ac i'ch diogelu chi a'ch cyfrifiadur. Crëwyd y canllawiau defnyddwyr gyda chymorth Cymunedau yn Gyntaf y Barri.

Yn ogystal, mae Newydd yn rhedeg cynllun 'Benthyg TG' lle gall cyfranogwyr sy'n galw heibio brynu gliniadur/llechen a fenthyciwyd ganddynt am bris rhesymol iawn ar ôl 6 wythnos. Nid yn unig y gall cyfranogwyr ymarfer eu sgiliau rhwng sesiynau ond daw offer TG yn ddewis mwy fforddiadwy iddynt, yn enwedig gyda'r cymorth sydd ar gael gan eu hundeb credyd lleol.

Mae pencampwyr digidol wedi helpu hefyd i wella gwefan a gweithrediad 'Fy Nghyfrif' Newydd. Maen nhw hefyd yn helpu llywio cyfeiriad strategol digidol Newydd ac o ganlyniad, caiff y symudiad gwasanaethau digidol bellach ei ymgorffori i 4 o'r 8 strategaeth adrannol.

Bu adborth y cyfranogwyr a'r pencampwyr digidol yn hynod gadarnhaol ac maen nhw wedi bod wrth eu bodd yn cymryd rhan yn y prosiect hwn. Mae hyn yn amlwg iawn yn y fideo hyrwyddo a gomisiynwyd yn ddiweddar: https://www.youtube.com/watch?v=nuHG1tBlmk0

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae Newydd wedi sefydlu 20 sesiwn galw heibio ym Mro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf ac mae ganddynt 23 o bencampwyr digidol hyfforddedig. Dyma'n prif ganlyniadau:

- Yn y flwyddyn ariannol hon, cymerodd dros 150 o bobl ran yn ein sesiynau galw heibio
- Cronnwyd cyfanswm o 662 o oriau gwirfoddoli gan ein pencampwyr digidol
- Cyrhaeddodd 2 bencampwr digidol y wobr Seren Wirfoddoli 200 awr, mynychodd 3 y wobr 100 awr a 5 y wobr 50 awr – mae'r holl wirfoddolwyr eraill wrthi'n aros i'w horiau gael eu prosesu a chael eu tystysgrifau
- Datblygwyd rhestr o leoedd Wi-Fi ym Mro Morgannwg ac rydym wrthi'n datblygu rhestr i Rhondda Cynon Taf. Mae pencampwyr digidol hefyd yn addysgu cleientiaid i ddefnyddio mapiwr Wi-Fi i ganfod lleoedd Wi-Fi
- Mae 21 o bobl wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant heb fod yn achredededig
- Mae 5 o bobl yn ymgymryd â hyfforddiant achredededig Agored Cymru
- Mae 4 pencampwr digidol wedi cael gwaith cyflog

Yn ogystal, ym mis Chwefror 2016, arwyddodd Newydd siarter cynhwysiant digidol i sefydliadau yng Nghymru. Mae'r siarter yn cynnwys chwe adduned ac yn rhoi manylion ar sut mae sefydliadau'n cefnogi pobl wedi'u heithrio'n ddigidol i gaffael sgiliau digidol sylfaenol ac yn eu helpu i fynd ar-lein, yn enwedig pobl hŷn, pobl gydag anableddau, pobl ddi-waith, tenantiaid tai cymdeithasol a theuluoedd mewn tlodi.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Gweithio mewn partneriaeth yn dda gan Gymdeithas Tai Newydd, gydag ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol*

**Rachel Honey-Jones**
Rheolwr adfywio cymunedol

Cymdeithas Tai Newydd

**Ff:** 02920 00 5475
**E:** rachel.honey-jones@newydd.co.uk



# Adfywio ieuenctid Wildmill

## Cymoedd i'r Arfordir gyda Chlwb Ieuenctid Wildmill

Yn ystod yr haf 2014, dechreuodd y cyfleuster ieuenctid pwrpasol ar Wildmill dan arweiniad y sefydliad lleol Youth Works ddirywio oherwydd y trafferthion yn eu rhiant cwmni, Groundwork BNPT, a aeth i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Hydref 2014. Erbyn diwedd yr haf, caeodd yn llwyr, gan adael y bobl ifanc heb ganolfan werthfawr ar gyfer gweithgareddau pobl ifanc.

Roedd hyn yn golled aruthrol ar ystâd fawr o dai o ryw 800 o aelwydydd (oedd yn cynnwys cartrefi teuluol yn bennaf). Arferai'r bobl ifanc fynd i weithgareddau cymdeithasol, cael cyngor ar iechyd a dysgu, a hyfforddiant cyflogadwyedd yn y ganolfan. Roedd pobl yn ofni, heb ganolfan gymdeithasol na gweithgareddau i'w cadw'n brysur, byddai pobl ifanc Wildmill yn profi colli ymgysylltiad.

*"Cafwyd cynnydd amlwg yn y bobl ifanc oedd yn loetran o gwmpas y siopau ac yn creu niwsans pan oedd gaeodd y ganolfan ieuenctid...roedd ei gweld yn cael ei hailagor yn wych i'r ardal"* Preswylydd Wildmill.

Arweiniodd y cyhoeddiad am gau'r clwb yn y wasg leol at y bobl ifanc yn troi at (yn poeni) Debbie Bryn i wneud rhywbeth. Roedd Debbie'n weithiwr ieuenctid gyda Youth Works cyn iddo gau ac yn byw yn yr ardal leol.

Gwelodd Debbie a phobl eraill yr ystâd gyfle gwirioneddol fan hyn a daethon nhw â phobl leol at ei gilydd mewn grŵp gweithredu i sicrhau na fyddai'r ddarpariaeth i bobl ifanc yn cael ei cholli am byth. Aeth y grŵp bach hwn â deiseb o ddrws i ddrws i gasglu cefnogaeth i'r ganolfan ac i'r gwirfoddolwyr.

*"Pobl leol o'r ystâd oedd yn y grŵp, ac roedd gan un ohonynt, Debbie, rywfaint o brofiad gyda gwaith ieuenctid. Daethant at Cymoedd i'r Arfordir ym mis Tachwedd 2014 i ofyn am gymorth ar ôl i hen adeilad Groundwork/Youth Works gau. Maen nhw wedi goresgyn rhwystrau gweinyddiaeth – gan sefydlu fel cwmni, gwneud ceisiadau grant, iechyd a diogelwch a materion tân/adeiladu/yswiriant."* Steve Curry, Rheolwr Adfywio Cymoedd i'r Arfordir

Roedd y grŵp yn awyddus i weithio gyda Cymoedd i'r Arfordir gan ein bod ni wedi gweithio'n agos gyda nhw yn y gorffennol. Daethant atom ni i weld sut gallem eu helpu nhw gyda'u cynllun. Roedd eu hymrwymiad, eu huchelgais a'u hymdrech i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y dechreuad gorau'n amlwg ac roeddem yn hyderus iawn y byddai'r grŵp yn gallu cyflawni pethau gwych i'r ystâd.

Er bod gan y grŵp dipyn o brofiad, nodwyd yr angen i gefnogi'r grŵp gyda mentor. Gwnaethom drefnu i reolwr gwaith ieuenctid profiadol weithio gyda nhw i ddatblygu rhai polisïau a nodi'r hyn yr oedd arnynt eu hangen. Yna, trefnodd Cymoedd i'r Arfordir i un o'u hadeiladau ar yr ystâd gael eu clustnodi i'r grŵp ei ddefnyddio fel clwb/adeilad ieuenctid heb unrhyw gost i'r grŵp. Datblygon nhw gynllun oedd yn cynnwys sefydlu grŵp cyfansoddiadol, agor cyfrif banc ac ymgynghori â phobl ifanc a'r gymuned ehangach am eu teimladau a'u meddyliau tuag at gyfleuster ieuenctid i'r dyfodol.

Rhoddodd y gwirfoddolwyr o'u hamser i weithio'n agos gyda Cymoedd i'r Arfordir ar adnewyddu'r adeilad, ac maen nhw wedi cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar iechyd a diogelwch gan gynnwys diogelwch tân. Cymerodd y grŵp i gyd ran mewn sesiynau hyfforddi ac maen nhw'n parhau i wneud hynny ar sail anghenion y grŵp wrth iddynt ddatblygu. Mae hyn ar ben eu hymrwymiadau gwaith a theuluol. Ail-agorodd y grŵp y ganolfan ieuenctid yn swyddogol ym mis Ebrill 2015.

Ers hynny, mae'r grŵp wedi gweithio'n agos gyda ni ar nifer o brosiectau, gan gynnwys dylunio ardal chwarae awyr agored newydd a datblygu arwyddion i'w defnyddio ar yr ystâd i fynd i'r afael â phroblemau baeddu gan grŵp. Trwy waith y grŵp, rydym bellach yn gallu cysylltu'n llwyddiannus gyda'r bobl ifanc a'r teuluoedd ar yr ystâd.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Ymhlith y canlyniadau y gellir eu hadnabod o'r flwyddyn agor gyntaf a rhedeg prosiect y clwb ieuenctid mae:

- Mwy o gyfleoedd i wirfoddoli ar yr ystâd gan arwain at fwy o hyder a sgiliau ymhlith pobl ifanc a phreswylwyr eraill mewn amryw alluoedd
- Mae gwirfoddolwyr wedi cynyddu eu sgiliau trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi gan gynnwys arweinyddiaeth chwaraeon, sut i addysgu pêl-rwyd, hylendid bwyd, diogelwch TG ar-lein, diogelu, camddefnyddio sylweddau ac alcohol a chymorth cyntaf
- Cymuned wedi'i grymuso ac ymgysylltiol ymhlith eu hunain a hefyd gyda sefydliadau eraill fel Cymoedd i'r Arfordir
- Gwell cyfathrebu gyda Cymoedd i'r Arfordir a sefydliadau eraill a all gynnwys hefyd gyfleoedd am ddyheadau mwy ymhlith pobl ifanc sy'n byw ar yr ystâd
- Rhoi llais ymroddedig i bobl ifanc a llwybr ar gyfer cyflawniad trwy weithgareddau wedi'u saernïo
- Gwelliannau yn amgylchedd yr ystâd gan gynnwys newidiadau ffisegol fel ardal chwarae naturiol newydd
- Mwy o berchnogaeth gymunedol o'r cyfleuster, yr ardal a'r nifer fawr o brosiectau a digwyddiadau sy'n digwydd
- Gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gynnig cyfleoedd i bobl ifanc.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae Clwb Ieuenctid Wildmill yn enghraifft dda o gyfuno hyfforddiant, sgiliau a grymuso i gefnogi datblygiad sgiliau pobl ac i wneud gwahaniaeth yn lleol*

**Debbie Bryn**
Gweithiwr ieuenctid gwirfoddol

Clwb Ieuenctid Wildmill

**Ff:** 07403 346546
**E:** funky.fairy@talktalk.net




# Gwireddu'ch potensial

## Cymdeithas Tai Cadwyn

Cynigia prosiect gwireddu'ch potensial (GP) Cadwyn wasanaeth wedi'i deilwra unigryw. Mae ein tîm o dri'n gweithio gyda thenantiaid a phreswylwyr i fapio'u taith gan archwilio pa rwystrau sy'n eu hatal rhag gwireddu'u potensial, a sut gellir goresgyn y rhwystrau hyn. Gall hyn gynnwys delio ag arwahanrwydd cymdeithasol, mynd at gyrsiau, addysg neu hyfforddiant a sgiliau cyflogadwyedd, neu chwilio am gyfleoedd i wirfoddoli neu waith cyflog. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:

- Cynllun gweithredu CAMPUS cytûn
- Cyfarfod / cysylltu'n rheolaidd
- Atgyfeirio a chyfeirio at ddarpariaethau penodol/arbenigol
- Peidio â chael terfynau amser ar y cynllun a gall unigolion ddychwelyd unrhyw bryd

Gan ein bod yn cynnig ystod o ddewisiadau unigol, grŵp a chymunedol i gymryd rhan, a hynny'n ffurfiol ac yn anffurfiol, darparwn ddigon o gyfleoedd a chefnogaeth i bobl ddod i adnabod ei gilydd, magu hyder a datblygu eu diddordebau. Mae ein dull un-i-un yn helpu cefnogi'r rheiny sydd eisiau arwain prosiectau. Mae gennym bellach denant gwirfoddolwyr sy'n arwain nifer fawr o'n grwpiau gan gynnwys ein cwmni bwyd cydweithredol wythnosol, grp gwnïo, gwarchod y gymdogaeth a thîm gwella gwasanaeth Cadwyn. Gall ymwneud â Chadwyn gynnig amgylchedd cyfarwydd i denantiaid ddechrau ar eu taith arweinyddiaeth, cyn iddynt fynd ymlaen i gymryd rolau allweddol yn eu cymuned leol. Mae'r fath enghreifftiau'n cynnwys ein tri thenant sy'n cynnal y bwyty dwywaith yr wythnos yn Wyndham Street Diner a'r rhai sy'n llysgenhadon cymunedol Cymunedau yn Gyntaf.

Mae cyfleoedd i hyfforddi'n ganolog i'n rhaglen ymgysylltu. Rydym yn gwrando ar yr hyn y mae ar denantiaid eu heisiau ac yn teilwra'r hyn a gynigiwn yn unol â hynny. Rydym wedi meithrin perthnasoedd cryf gydag ystod eang o ddarparwyr ar draws y sbectrwm gan gynnwys Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Dysgu yn y Gymdogaeth, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Princes Trust a Busnes Cymru ochr yn ochr â sefydliadau cymunedol eraill fel Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff.

Helpwn bobl i ymrestru yn y coleg a'r brifysgol yn ogystal â chyflwyno cyrsiau byrion a sesiynau blasu'n fewnol. Mae'r cyrsiau'n cynnwys dechrau'ch busnes eich hun, cyflwyniad i dai, hylendid bwyd, pencampwyr digidol, therapi cyflenwol, gwnïo, ffotograffiaeth, craffu tenantiaid a sut i drefnu arddangosfa (a fydd yn cael ei dangos yn ein digwyddiad i denantiaid/Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol).

Mae enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth yn cynnwys cyd-hwyluso cwrs achrededig STEPS i ragoriaeth ar y cyd â Chymunedau yn Gyntaf. Gweithiwn hefyd gyda'r Princes Trust i gyflwyno cyrsiau 'dechrau adeiladu' i bobl ifanc leol. Yn ddiweddar, creom bartneriaeth gyda Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i beilota cwrs 'dechrau diogelwch' arloesol i denantiaid, a arweiniodd at bob un o'r mynychwyr yn pasio'u harholiad ac yn cael trwydded SIA. Mae hyn wedi galluogi'r tenantiaid hynny i fod yn llai dibynnol ar fudd-daliadau ac yn llai agored i ddiwygiadau lles, yn agored i gyfleoedd gwaith newydd ac wedi magu hyder.

Bu cynnwys tenantiaid yn uniongyrchol mewn asesu, siapio a gwella gwasanaethau yn flaenoriaeth i Cadwyn erioed. Mae'r gymdeithas wedi cysylltu ag o leiaf 30% o'i thenantiaid bob amser wrth wella gwasanaethau gyda thenantiaid oedd yn cymryd rhan yn uniongyrchol ar lefel weithredol a strategol. Adolygodd y tenantiaid ein Strategaeth TP yn 2014, gan sefydlu ei weledigaeth i Cadwyn "...wrando ar ein tenantiaid, gwerthfawrogi eu cyfraniad ac ymddiddori yn yr hyn sy'n bwysig iddynt. Byddwn yn galluogi ac yn annog tenantiaid i ddweud eu dweud a chydweithio gyda ni i siapio a gwella gwasanaethau". Er 2013, bu gennym banel o denantiaid yn gweithio'n annibynnol i graffu maes gwasanaeth penodol a nodi argymhellion ar gyfer gwelliant. Hyd yma, maen nhw wedi adolygu'r ffordd y mae'r gymdeithas yn delio â chwynion, cyfathrebu Cadwyn gyda'r tenantiaid, a sut mae Cadwyn yn delio ag adroddiadau o leithder ac anwedd. Mae llwyddiant ein dulliau Gwella Gwasanaeth yn enghraifft bwysig o sut mae ein tîm ymgysylltu â'r gymuned 'gwireddu'ch potensial' yn cydweithio i recriwtio a chefnogi aelodau newydd yn eu cynllun datblygiad personol wrth iddynt wirfoddoli fel rhan o'r tîm.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae Gwireddu'ch Potensial wedi:

- Cefnogi 109 o aelodau
- Cysylltu â thros draean o denantiaid Cadwyn wrth wella gwasanaethau.
- Cysylltu â 50 o denantiaid mewn addysg a hyfforddiant (gyda llawer yn dilyn cyrsiau amryfal)
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu 4 prentisiaeth ac 8 cyfle am brofiad gwaith yn y diwydiant adeiladu.

Gan arwain at:

- 23 canlyniad gwaith
- 39 o denantiaid wrthi'n gwirfoddoli
- Gwelliannau wrth ddylunio Datganiadau Rhent Cadwyn
- Gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â thrafod cwynion a arweiniodd at well bodlonrwydd ymhlith y tenantiaid.
- Tenantiaid yn cymryd rhan mewn ffurfio cynnwys gwefan newydd Cadwyn
- Adroddiad cynhwysfawr ar sut mae'r gymdeithas yn delio â lleithder ac anwedd gan roi manylion argymhellion i wella'r gwasanaeth.

Adborth:

Gan denant: *"Mae fy llais fel tenant yn cael ei glywed ac, fel aelod o'r panel, rydw i'n elwa ar yr holl hyfforddiant a gynigir i ni".*

Enillodd Sue, cleient Gwireddu'ch Potensial gyflogaeth gyda Chymunedau yn Gyntaf: *"Diolch yn fawr iawn am eich holl help a chefnogaeth i'm helpu i gael cyflogaeth. Rydych chi mor ysbrydoledig ac rwy'n gobeithio y gallaf helpu pobl mewn ffordd mor gadarnhaol"*

Adborth yr RNIB *"Mae dau berson ifanc wedi cael lleoliadau gyda Cadwyn ac mae'r ddau ohonynt wedi magu cymaint o hyder yn ogystal â dysgu sgiliau newydd".*

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae Cymdeithas Tai Cadwyn wedi rhoi prosiect cydlynol at ei gilydd, gyda rhestr drawiadol o ganlyniadau*

**Alessa Hill**
Swyddog cyflogaeth a hyfforddiant

Cymdeithas Tai Cadwyn

**Ff:** 02920498898
**E:** alessa.hill@cadwyn.co.uk




# Ein sefydliad cydfuddiannol

## Cartrefi Cymoedd Merthyr

### Yn gryfach gyda'n gilydd

Gyda'i gilydd, mae tenantiaid a gweithwyr bellach yn gwneud y penderfyniadau mawrion yng Nghartrefi Cymoedd Merthyr.

Ein prif amcan wrth greu ein sefydliad cydfuddiannol oedd rhoi llais go iawn i bobl yn y sefydliad sy'n chwarae rhan bwysig yn eu bywydau, eu cymunedau ac sydd hefyd yn effeithio ar eu hamgylchiadau economaidd. Mae ein sefydliad cydfuddiannol wedi golygu mwy na newid ein rheolau a'n strwythur llywodraethu - mae a wnelo â chreu perthynas newydd rhwng y darparwyr a defnyddwyr y gwasanaethau cyhoeddus.

Er mwyn rhoi grym a chyfrifoldeb i gymuned, mae angen y rheolau iawn, y strwythur iawn a'r hyfforddiant iawn i wneud iddo ddigwydd. Mae angen swm enfawr o ymroddiad a chymhelliant arnoch hefyd.

Ym mis Tachwedd 2014, cytunodd bwrdd Cartrefi Cymoedd Merthyr i adolygu'r strwythur llywodraethu a chwilio am well model. Un oedd yn cydnabod brwydr hanesyddol gweithwyr Merthyr Tudful, oedd yn rhoi rhagor o gyfrifoldeb i denantiaid, ac a oedd yn bodloni'r her o greu bwrdd oedd yn atebol ac a oedd yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd iawn i redeg sefydliad mawr. Mae sawl cymdeithas wedi ymrafael â'r broblem o sut i gael y cydbwysedd sgiliau iawn ar fwrdd heb leihau rôl y tenantiaid. Ychwanegodd y bwrdd ddimensiwn pellach pan geisiasant roi i weithwyr, yr oedd llawer ohonynt wedi gweithio'u bywydau cyfan i'r sefydliad, lais cyfartal i lais y tenantiaid.

Mae dros 70% o weithwyr Cartrefi Cymoedd Merthyr yn byw yn y fwrdeistref, gyda rhai'n byw yn yr union dai maen nhw'n gweithio arnynt ac yn eu rheoli. Roedd buddiannau'r tenantiaid a'r gweithwyr yn debyg iawn, mewn gwirionedd, roeddent yn gydfuddiannol.

Sefydlwyd comisiwn i benderfynu ar siâp Cartrefi Cymoedd Merthyr i'r dyfodol. Roedd yn cynnwys tenantiaid, gweithwyr, cynghorwyr lleol a rhanddeiliaid o'r gymuned leol. Gwnaethant gyfarfod ar hyd 2015, a chyda'i gilydd, dyluniwyd gweledigaeth newydd ar gyfer tai ganddynt, sefydliad hollol newydd ac ynghyd â hynny, strwythur llywodraethu newydd.

Creodd y comisiwn strwythur atebol a chydfuddiannol lle daw'r tenantiaid a'r gweithwyr yn aelodau. Mae gan aelodau gyfran yn y sefydliad sy'n rhoi'r hawl iddynt bleidleisio a chael llais go iawn wrth wneud penderfyniadau. Bydd yr aelodau hyn yn penodi corff

tenantiaid a gweithwyr etholedig i oruchwylio'r sefydliad, gosod nodau strategol allweddol a phenodi bwrdd o gyfarwyddwyr anweithredol. Bydd y bwrdd yn rhedeg y busnes, a bydd y penodiadau'n seiliedig ar eu sgiliau a'u gwerthoedd. Ffurfio'r sefydliad cydfuddiannol oedd un o'r newidiadau mwyaf mewn grym yn nhai Cymru, gan ddod â thenantiaid a'r gweithwyr y gweithiant yn agos gyda nhw i'r bwrdd uchaf un.

Er mwyn sefydlu'r sefydliad cydfuddiannol angenrheidiol, mae cyfansoddiad newydd y tu allan i'r canllawiau cyfredol yn rheoli cymdeithasau tai yng Nghymru. Yn ogystal, roedd arnom angen caniatâd Llywodraeth Cymru, cymeradwyaeth ein cyllidwyr (heb newid i gost y benthyciad) ac roedd angen i'r awdurdod lleol ildio'i 'gyfran euraidd' a'u seddau ar y bwrdd cyfredol. Rhoddodd yr awdurdod lleol gymeradwyaeth unfrydol i'r model newydd pan bleidleisiodd 29 o blaid (ac ni chafwyd yr un bleidlais yn erbyn) tenantiaid a gweithwyr yn cymryd rheolaeth go iawn ar y sefydliad. Yn ogystal, ymgynghoron ni â'n tenantiaid a'n gweithwyr oherwydd roeddem am gael eu cefnogaeth.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd 2015, pleidleisiodd rhanddeiliaid o blaid Cartrefi Cymoedd Merthyr yn troi'n sefydliad cydfuddiannol. Ymunodd dros 80% o weithwyr yn syth. Rhedodd y broses o recriwtio tenant-aelodau ochr yn ochr â'i gilydd, gyda llawer o denantiaid nad oeddent ynghlwm cyn hynny'n ymuno. Â'r etholiadau am seddau tenantiaid a gweithwyr ar y corff democrataidd (CD) yn gystadleuaeth danbaid. Mae gennym dros 1,000 o aelodau erbyn hyn.

Mae'r CD yn cyfarfod yn aml, penodwyd Keith Edwards yn gadeirydd annibynnol, a phenodwyd y cyfarwyddwyr anweithredol. Datblygon nhw eu strategaeth aelodaeth, a strategaeth gorfforaethol newydd i symud y sefydliad cydfuddiannol yn ei flaen. Mae gan Gartrefi Cymoedd Merthyr bellach werthoedd newydd a gweledigaeth newydd yn ymwneud â chyfrifoldeb, cymunedau a sefydliad cydfuddiannol sy'n cynnwys:

- Ymrwymiad i werth am arian
- Cydnabyddiaeth na all rhenti gadw codi
- Cyflogaeth a gwariant lleol
- Dim arallgyfeirio/is-gwmnïau

Yn ogystal, sefydlodd ein CD weithgorau:

- Panel cwyno
- Llywodraethu
- Tendr swyddfa
- Cyfweliadau contractwyr
- Cynllunio'n cyfarfod aelodau blynyddol cyntaf

Mae cyfaint y gwaith y mae ein CD wedi ymgymryd ag ef yn dangos yr ymrwymiad a'r momentwm sy'n bodoli a'r ymroddiad i wneud ein sefydliad cydfuddiannol yn llwyddiant. Dengys hefyd eu bod yn rhan o'r prif benderfyniadau a'u bod yn gosod cyfeiriad i'r dyfodol.

Mae'r gwir drosglwyddiad pŵer yn mynd rhagddo'n wirioneddol; bydd yr aelodau bellach yn sefydlu'r blaenoriaethau a'r gyllideb i'r bwrdd yn unol â'r strategaeth gorfforaethol newydd.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae symudiad Cartrefi Cymoedd Merthyr i strwythur cydfuddiannol yn enghraifft dda o drosglwyddo pŵer*

**Mike Owen**
Prif weithredwr

Cartrefi Cymoedd Merthyr

**Ff:** 01685727768
**E:** michael.owen@mvhomes.org.uk

# Gwobr rhagoriaeth cwsmeriaid

Mae'r wobr hon yn cydnabod dull rhagorol o droi at wasanaethau cwsmeriaid sy'n gallu dangos lefelau uchel o fodlonrwydd am y gwasanaeth a gyflwynir. Dangosant eu bod yn ymgysylltu â gweithwyr mewn gwasanaeth cwsmeriaid, a dangosant welliannau ar draws y busnes.



## Diwylliant cwsmeriaid

### Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd gyda Gwasanaethau Eiddo Morgan Sindall, The Creative Thinking Company

Dechreuwyd prosiect gwella gwasanaethau cwsmeriaid gan Gymdeithas Tai Cymuned Caerdydd (CCHA) yn dilyn canlyniadau siomedig yn arolwg tenantiaid cenedlaethol 2015. Gofynnwyd i'r pennaeth gwasanaethau cwsmeriaid a gwasanaethau cymorth a'r cyfarwyddwr gwasanaethau corfforaethol arwain y fenter ar y cyd, oherwydd er mwyn gweld canlyniadau yn ein gwasanaethau cwsmeriaid allanol, roeddem yn credu bod angen mynd i'r afael â materion mewnol yn gyntaf. I ddechrau, fe wnaethant gyfarfod â chynrychiolwyr o'n grŵp arolygwyr gwasanaethau tenantiaid i drafod sut gallai CCHA wella profiad y tenant, a'r hyn roedden nhw'n ei ddisgwyl gan ein staff.

Roedd ymgysylltiad a chyfranogiad staff â'r prosiect yn allweddol o'r cychwyn, ac roedd gweithdai ar wasanaethau cwsmeriaid ar gyfer pob aelod o staff yn cael eu cynnal gan hwylusydd allanol. Ar ôl y gweithdai hyn, fe wnaeth grŵp o staff sy'n wirfoddolwyr gyfarfod i nodi'r hyn roedden nhw'n eu hystyried fel yr egwyddorion sydd eu hangen i gael gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, ac fe wnaethon nhw hefyd feddwl am arwyddair newydd ar gyfer y prosiect, sef 'Byddwch y Gorau' ('Be the Best'), a lansiwyd yn ein cynhadledd staff yn 2015. Roedd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y prosiect fod yn rhaid i'r mentrau a'r syniadau hyn gael eu harwain gan y staff eu hunain, gan ein bod yn ceisio sicrhau proses newid 'o'r gwaelod i fyny' yn hytrach nag 'o'r brig i lawr', i rymuso'r staff a oedd fwyaf tebygol o fod yn rhyngweithio â'n cwsmeriaid o ddydd i ddydd.

Ar ôl y gynhadledd staff, dechreuon ni greu deunyddiau gweledol i helpu i sefydlu'r egwyddorion newydd ar draws y sefydliad, a oedd yn cynnwys crysau-T, cynfasau wal a chefndiroedd bwrdd gwaith cyfrifiadur. Unwaith eto, roedd cyfranogiad staff yn allweddol yma, a daeth gwirfoddolwyr o bob rhan o'r sefydliad ymlaen i greu'r gwaith celf ar gyfer y deunyddiau gweledol hyn, sydd bellach yn cael ei arddangos ar draws ein holl swyddfeydd.

Lansiwyd y deunyddiau gweledol eu hunain yn ein sesiwn friffio gorfforaethol ym mis Rhagfyr 2015, a chyflwynwyd cerdyn busnes sy'n plygu allan i bob aelod o staff, i'w hatgoffa'n barhaus am yr egwyddorion newydd. Wedyn, fe ddechreuon ni rannu neges a nodau'r prosiect gyda'n contractwyr, i sicrhau bod ein tenantiaid yn derbyn gwasanaeth cwsmeriaid cyson dda. I gyflawni hyn, fe wnaethom gynnal gweithdai ar gyfer gweithredwyr o Wasanaethau Eiddo Morgan Sindall a Westwards, i sicrhau bod eu staff yn gefnogol hefyd.

Dywed Richard Jones, rheolwr prosiect cynorthwyol ar gyfer Morgan Sindall:

*"Mae Morgan Sindall yn gweithio'n agos gyda thîm CCHA i gynnal lefelau rhagorol o wasanaeth cwsmeriaid. Rydym wedi cymryd rhan yn y prosiect diwylliant cwsmeriaid, gyda gweithdai tîm ar y cyd yn cynnwys ein gweithredwyr, rheolwyr yn ymgorffori dulliau arfer da o ran gwasanaethau cwsmeriaid, a rhannu profiadau, syniadau a gwybodaeth er mwyn i ni weithio'n well fel partneriaeth a gwella'r profiad cyfan i'r cwsmer."*

Bu ein tîm AD yn gweithio i sicrhau bod yr egwyddorion newydd yn cyd-fynd â gwerthoedd corfforaethol presennol CCHA, ac fe gafwyd fframwaith egwyddorion newydd yn lle'r fframwaith cymwyseddau presennol, gan ychwanegu gwerth at ein system rheoli perfformiad ar-lein. Cafodd grŵp 'hyrwyddo' diwylliant cwsmeriaid ei greu, sy'n cyfarfod oddeutu unwaith y mis i drafod syniadau ar gyfer rhoi'r egwyddorion newydd ar waith ar draws y busnes, a gweithredu fel mannau cyswllt ar gyfer staff eraill a allai fod â phryderon neu gwestiynau ar sut i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid.

Wrth fynd ymlaen, rydym yn edrych ar ffyrdd creadigol o gadw'r egwyddorion yn fyw ar draws y sefydliad, a hefyd yn dathlu ein llwyddiannau hyd yma, gan gynnwys y gwelliant sylweddol mewn cyfraddau bodlonrwydd cwsmeriaid rydym wedi eu gweld eleni. Roeddem wrth ein boddau o gael y wobr Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi ei hailachredu i ni ychydig fisoedd yn ôl, a hynny'n arbennig gan fod ein hasesydd wedi amlygu'r ffaith fod y prosiect diwylliant cwsmeriaid yn faes arfer da penodol yn ei hadroddiad.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae prosiect diwylliant cwsmeriaid CCHA wedi bod yn hynod lwyddiannus hyd yma, ac mae'n parhau i sicrhau canlyniadau.  Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014-15, ein cyfraddau bodlonrwydd cwsmeriaid oedd 85%. Ers lansio'r prosiect, a rhoi'r mentrau sy'n cael eu crybwyll uchod ar waith, fe wnaethom lwyddo i gynyddu hyn i 92% ar ddiwedd 2015-16. Yn ôl y ffigurau diweddaraf gan ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid (o Ch1 eleni), y gyfradd bodlonrwydd gyfartalog yw 93%, a'r hyn sydd hyd yn oed yn fwy trawiadol, yw bod y gyfradd bodlonrwydd â'n swyddfa gwasanaethau cwsmeriaid wedi codi i 98%.

Yn fewnol, rydym wedi dechrau gweld gwelliannau hefyd: cynhaliwyd arolwg ymgysylltu â gweithwyr ar ddiwedd 2015, a dywedodd 85% o staff eu bod yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â gweithio i CCHA, a dywedodd 55% o staff eu bod yn teimlo'n 'gadarnhaol iawn'.

Bu gwelliant nodedig â'n contractwyr hefyd, yn dilyn eu rhan nhw yn y prosiect. Rydym newydd dderbyn yr ystadegau monitro bodlonrwydd ag atgyweiriadau ar gyfer mis Gorffennaf, ac mae'r gyfradd bodlonrwydd dros 90% ar gyfer Gwasanaethau Eiddo Morgan Sindall (MSPS) a Westward fel ei gilydd. I MSPS yn arbennig, mae hyn yn newyddion gwych, gan mai 80% oedd eu cyfradd perfformiad ar ddechrau'r flwyddyn ddiwethaf.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd wedi sicrhau newid diwylliannol ar draws y sefydliad*

**Louise Sulley**
Cyfarwyddwr gwasanaethau corfforaethol

CCHA

**Ff:** 02920468427
**E:** louise.sulley@ccha.org.uk




# Y Tîm cyswllt cwsmeriaid

## Cartrefi Melin

Mae'r tîm cyswllt cwsmeriaid yn cynnwys 12 ymgynghorydd sy'n ymroi i gyflwyno gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Mae pob aelod o'r tîm wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth ac yn canolbwyntio ar ragori ar ddisgwyliadau'r cwsmeriaid trwy wneud mwy na'r disgwyl.  Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod taith cwsmer yn brofiad llawn mwynhad a'i fod yn edrych ymlaen at ymgysylltu â ni ymhellach.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r tîm wedi wynebu newidiadau sylweddol er mwyn bodloni'r gofynion cynyddol sy'n wynebu ein cwsmeriaid o ganlyniad i newidiadau ariannol, economaidd a lles.

Yn wreiddiol, roedd dau dîm yn cynnwys swyddogaeth ymholiadau cyffredinol ac atgyweiriadau, ac unwyd y ddau dîm i greu un tîm, sydd wedi eu hyfforddi i ddelio â'r holl ymholiadau ar sail datrys ar yr alwad gyntaf lle bo modd, gan wella profiad y cwsmer, sy'n arwain at amseroedd ymateb cyflymach a llai o ymholiadau ar gyfer adrannau mewnol eraill.

Swyddogaeth tîm cyswllt cwsmeriaid oedd ein system rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid (CRM) yn bennaf, a gyflwynwyd i'r sefydliad cyfan i sicrhau bod rhyngweithio â chwsmeriaid yn cael ei gofnodi yn ei gyfanrwydd – yn dilyn hyn, mae gan y tîm cyswllt cwsmeriaid welededd llwyr wrth ddelio â chwsmer, sy'n arwain at drafodion llyfnach i gwsmeriaid.

Wrth gydnabod bod angen cyflwyno gwasanaeth amlgyfrwng gan fod cwsmeriaid yn disgwyl eu bod yn gallu cysylltu â ni gan ddefnyddio cyfrwng o'u dewis, fe wnaethom roi swyddogaeth sgwrsio byw ar waith yn 2015. Gall pob un o'n tîm cyswllt cwsmeriaid ateb ymholiadau trwy'r swyddogaeth sgwrsio byw, ac rydym yn gweld cynnydd o ran defnydd a'r math o ymholiadau. Rydym hefyd yn ateb ymholiadau trwy Facebook a Twitter ac yn defnyddio hyn i bostio diweddariadau a gwybodaeth i breswylwyr – gan sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Gallwn gynnig ein cyfleuster testun i gwsmeriaid anfon negeseuon testun atom hefyd; mae hyn wedi bod yn hynod ddefnyddiol ar gyfer ein preswylwyr sy'n drwm eu clyw, y byddwn hefyd yn anfon negeseuon testun atynt i'w hatgoffa am apwyntiadau.  Mae ein system rheoli'r berthynas â chwsmeriaid yn ein galluogi i adnabod y cwsmeriaid hyn yn hawdd.

Yn Cartrefi Melin, rydym yn deall na all gwasanaethau fod yn ateb 'un maint i bawb' a byddwn yn addasu yn unol â'r newid yn anghenion ein cwsmeriaid. Rydym wedi arbrofi ag agor yn hwyr gyda'r nos, ble roedd modd cysylltu ag aelodau o'r tîm cyswllt cwsmeriaid tan 7pm – yn delio ag amrywiaeth o ymholiadau trwy bob cyfrwng.  Bydd hon yn swyddogaeth barhaol.

Mae ymgysylltu â'n cwsmeriaid yn hanfodol i'n tîm cyswllt cwsmeriaid, ac fe grëwyd y grŵp gwasanaethau cwsmeriaid i edrych ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Yn 2015, roedd y grŵp yn canolbwyntio ar wasanaethau cwsmeriaid a mynediad, ac fe wnaethom ymgysylltu'n helaeth â'r grŵp a rhoi nifer o argymhellion ar waith, roedd rhai ohonynt yn cynnwys:

- Newidiadau i wella gwasanaethau derbynfa
- Newid y cyfarchiad ffôn er mwyn ei wneud yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr

Rydym yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol gyda'n preswylwyr yn rheolaidd; mae hyn yn fuddiol iawn gan ei fod yn galluogi ein preswylwyr i ddod i'n hadnabod ac mae hefyd yn helpu i feithrin perthynas ac ymgysylltu. Yn aml iawn, pan fydd ein preswylwyr yn ffonio'r tîm cyswllt cwsmeriaid, maent yn cyfarch yr ymgynghorwyr wrth eu henw cyntaf, sy'n dangos bod perthynas wedi cael ei sefydlu.

Gweithiwn yn agos gyda thimau eraill yn Cartrefi Melin i sicrhau bod ein gwybodaeth yn gyfoes ar gyfer ein cwsmeriaid, mae gennym gysylltiadau uniongyrchol â staff cymorth hefyd i'n galluogi i wneud atgyfeiriadau am gymorth ar gyfer cymorth ariannol a chynaliadwyedd tenantiaeth.

Gweithiwn yn galed i sicrhau rhagoriaeth mewn gwasanaeth cwsmeriaid ac mae nifer o wiriadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau cysondeb a chywirdeb y cyngor sy'n cael ei roi, bod y gwasanaeth cwsmeriaid a gyflwynir o safon dda ac i nodi anghenion hyfforddi'r tîm.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae ateb galwad gyntaf wedi bod yn faes ffocws i'r tîm, dros y 3 blynedd ddiwethaf, mae'r tîm cyswllt cwsmeriaid wedi gweld hyn yn cynyddu o 45% yn 13/14 i 74% yn 14/15 ac yn cynyddu i 78% yn ystod 15/16.

Cynhaliwyd Arolwg Seren yn 2015, a gwelwyd cynnydd sylweddol ar draws pob maes gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu, sy'n dangos pa mor galed y mae'r tîm wedi bod yn gweithio i sicrhau rhagoriaeth mewn gwasanaeth cwsmeriaid. Roedd y cynnydd yn cynnwys:

- Y ffordd y mae Melin yn delio ag atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw (yn gyffredinol) – cynyddodd 5.8%
- Bod Melin yn gwrando ar eich barn ac yn gweithredu arni – cynyddodd 7.5%
- Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r ffordd y mae Melin yn delio â'ch ymholiadau yn gyffredinol? – cynyddodd 5.7%
- A oedd y staff yn barod eu cymwynas neu i'r gwrthwyneb, yn eich barn chi? – cynyddodd 4.3%
- A gafodd eich ymholiad ei ateb o fewn cyfnod rhesymol? – cynyddodd 6.3%
- A oeddech yn fodlon â gallu'r staff i ddelio â'ch ymholiad yn gyflym ac yn effeithlon – cynyddodd 3.8%
- A oeddech yn fodlon â chanlyniad terfynol eich ymholiad? – cynyddodd 6.3%

Mae sgwrsio byw wedi bod yn llwyddiant mawr, hyd yn hyn, rydym wedi derbyn 735 o sgyrsiau, ac fe gafodd ei raddio'n gadarnhaol gan 73% o gwsmeriaid.

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae Cartrefi Melin wedi adeiladu swyddogaeth gwasanaeth cwsmeriaid gron, gan ddangos arloesedd yn nulliau'r timau*

**Rhiannon Elston**
Arweinydd tîm cyswllt cwsmeriaid

Cartrefi Melin

**Ff:** 01495745910
**E:** rhiannon.elston@melinhomes.co.uk




# Cartrefi NPT

## Mi-space UK Ltd

Contractwr lleol sydd wedi ennill ei blwyf a phrofiadol yw Mi-space; mae wrthi'n cwblhau blwyddyn 3 o gontract ailweirio trydanol 4 blynedd ar gyfer Cartrefi NPT.

Ymdrechwn i ddarparu profiad cadarnhaol i breswylwyr trwy:

- ddeall anghenion preswylwyr
- cyfathrebu rhagweithiol
- rhyngweithio â thîm parchus/effeithlon
- cyflwyno hyblyg
- cyflwyno cynnyrch o ansawdd da a mesur ein heffeithiolrwydd o ran sicrhau rhagoriaeth cwsmeriaid a rhoi dysgu ar waith o ganlyniad.

Ar y contract hwn, rydym yn mesur 'profiad y cwsmer', yn hytrach na 'bodlonrwydd'. Ein barn ar y cyd yw bod 'boddhaol' ddim yn ddigon da; dim ond os ydym yn 'rhagorol' yr ydym yn cyflawni'r hyn y mae ein cwsmeriaid yn ei haeddu.

I sicrhau bod gweithwyr wedi ymgysylltu'n llawn, rydym:

- yn cyflogi pobl leol sydd ag ymdeimlad cynhenid o falchder a chyflawniad wrth weithio yn eu cymunedau eu hunain, gan gefnogi gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol; mae dros 80% o'r gweithlu'n byw yn ardal Castell-nedd Port Talbot

- wedi recriwtio unigolion a phartneriaid sydd â'r cymwysterau cywir i weithio yng nghartrefi pobl
- wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau 'meddal', e.e. gofal cwsmeriaid, ymwybyddiaeth o amrywiaeth, a diogelu
- wedi pennu cod ymddygiad; sy'n sicrhau bod ein staff a'n his-gontractwyr yn deall ein disgwyliadau; cwrteisi, parch a gofal ar gyfer preswylwyr, eu cartrefi a'u cymunedau
- wedi cynnal sgyrsiau diogelwch 'gofal cwsmeriaid' ac wedi cyhoeddi cardiau atgoffa ynghylch 'parch ac ystyriaeth'

O ganlyniad i adborth y preswylwyr, rydym:

- mewn partneriaeth â Cartrefi NPT a'i breswylwyr, wedi creu dogfennau pwrpasol i'r prosiect a'r preswylyr i gynorthwyo ymgysylltu rhwng swyddog cyswllt y preswylwyr (RLO) a'r preswylwyr
- wedi cynnal 'ymweliadau cartref' â phob preswylydd y mae gwaith wedi cael ei gwblhau ar eu cartref i ddeall eu hanghenion a'u blaenoriaethau, a chreu strategaethau cyflwyno pwrpasol ar gyfer pob un ohonynt o ganlyniad
- wedi mynychu digwyddiadau agored; gan alluogi ein tîm i gyfarfod â phreswylwyr ac aelodau o'r gymuned mewn ffordd hamddenol ac anffurfiol
- wedi deall bod llwch yng nghartrefi pobl yn broblem fawr; rydym bellach yn defnyddio drysau a sgriniau 'clo sip' i atal llwch rhag mynd y tu allan i'r ardal waith
- wedi cynnal sgyrsiau diogelwch 'cyflawn' ar gyfer y gweithlu sy'n delio â materion a gafodd eu codi gan breswylwyr

**Canlyniadau**

Dyfarnodd Cartrefi NPT 100% i ni am wasanaeth cwsmeriaid yn ein harolwg cwsmeriaid diweddaraf, o ganlyniad i'n dull a'r adborth y maen nhw'n ei gael gan breswylwyr.

Erbyn hyn, mae 96% o gwsmeriaid yn ystyried bod profiad y cwsmer a gânt yn 'dda iawn' neu'n 'rhagorol', tra oedd 78% o gwsmeriaid dim ond yn fodlon cyn i ni ddechrau'r prosiect.

Mae'r holl adborth yn destun ymchwil i ddeall beth aeth yn dda a sut gallem ni wella. Os byddwn ni'n cael unrhyw beth sy'n llai na 'da iawn' ar gyfer profiad y cwsmer, rydym yn trefnu ymweliad cartref gan swyddog cyswllt y preswylwyr a'r uwch reolwr prosiect, ar adeg sy'n gyfleus i'r preswylydd, er mwyn deall pam.

Mae'r uchod wedi arwain at ddealltwriaeth well o sut beth yw rhagoriaeth cwsmeriaid i breswylwyr Cartrefi NPT, ac o ganlyniad, mae'n ein galluogi i wella profiad y cwsmer trwy welliannau gwybodus.

Caiff ein gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol ei ddangos gan yr adborth diweddar hwn gan breswylydd:

Mr a Mrs A. Goddin, Castell-nedd:

*"…mae'r math hwn o aflonyddwch yn gallu creu llawer iawn o straen… a bod yn onest, doeddem ni ddim yn edrych ymlaen ato…Roedd y tîm a wnaeth y gwaith ailweirio yn eithriadol o dda. Rydw i'n dweud hynny â'm llaw ar fy nghalon a gyda llawer o ddiolch. O'r adeg y gwnaethon nhw gamu trwy'r drws ffrynt, roedden nhw'n brydlon, yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn grefftwyr o'r radd flaenaf. Doedd dim byd yn ormod o drafferth…Roeddwn i a'm gwraig wrth ein bodd â phopeth, yn enwedig y parch y dangosodd y tîm hwn at ein cartref."*

Mr P Williams, Castell-nedd:

*"Rydw i'n falch iawn â'r holl waith sydd wedi cael ei wneud…gweithodd y timau cwrtais, cymwynasgar a moesgar iawn yn galed iawn ac arweiniodd hyn at ganlyniadau proffesiynol. Byddwn i'n eu hargymell i'r tenantiaid mwyaf ffyslyd gan wybod y byddai'r parch mwyaf yn cael ei ddangos at eich eiddo"*

**Canlyniadau a chyflawniadau:**

Mae cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn, rydym yn ymgynghori â nhw i ddeall eu hanghenion, eu dymuniadau a'u blaenoriaethau, gan deilwra gwasanaethau yn unol â'r ymgynghoriad, a mesur eu profiad i lywio'r newid angenrheidiol yn y pen draw.

Mae Mi-space wedi bod yn gweithio gyda Cartrefi NPT am 3 blynedd yn cyflwyno rhaglen ailweirio i wella diogelwch yng nghartrefi cwsmeriaid, ac roeddem yn cytuno ar y cyd nad oedd y ffaith fod 95% o gwsmeriaid yn fodlon, sef meincnod traddodiadol ar gyfer perfformiad da, yn ddigon da.

Rydym wedi cael gwared ar dargedau perfformiad traddodiadol, sy'n rhwystr rhag rhagoriaeth cwsmeriaid, ac wedi cyflwyno trefn o fonitro perfformiad ar gyfer pob cwsmer yn lle hynny. Ymchwilir i'r holl adborth i ddeall beth aeth yn dda a sut gallem ni wella. Os byddwn yn derbyn unrhyw beth yn llai na 'da iawn' ar gyfer profiad y cwsmer, rydym yn trefnu ymweliad cartref ar adeg sy'n gyfleus i'r preswylydd, er mwyn deall pam.

Mae'r dull hwn wedi arwain at ddealltwriaeth well o sut beth yw rhagoriaeth cwsmeriaid i breswylwyr Cartrefi NPT, ac o ganlyniad, mae'n ein galluogi i wella profiad y cwsmer trwy welliannau gwybodus.

Erbyn hyn, mae 96% o gwsmeriaid yn ystyried bod profiad y cwsmer a gânt yn 'dda iawn' neu'n 'rhagorol', tra oedd 78% o gwsmeriaid dim ond yn fodlon cyn i ni ddechrau'r prosiect.

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae Mi-space UK Ltd wedi mynd y tu hwnt i fodlonrwydd y cwsmer o ran profiad y cwsmer*

**AJ Eaton**
Cyfarwyddwr is-adran

Mi-space UK Ltd

**Ff:** 07940 784 450
**E:** aeaton@mi-spaceuk.com

# Gwobr cyfathrebu a chyhoeddiadau

Mae'r wobr hon yn cydnabod ymgyrch neu gyhoeddiad mewnol neu allanol sy'n cyfleu ei neges yn effeithiol. Maent yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn unol â nodau'r ymgyrch neu'r cyhoeddiad ar gyfer y sefydliad, y preswylwyr, y gymuned neu'r gymdeithas ehangach.



## Llais y Tenantiaid

### Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf

Mae gan denantiaid Dewis Cyntaf anabledd dysgu. Golyga hyn fod angen dulliau arloesol i'w galluogi i gymryd rhan yn Dewis Cyntaf a dylanwadu'n ystyrlon ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Cawn ein herio ymhellach gan ein daearyddiaeth gan fod y tenantiaid wedi eu gwasgaru ar draws un deg wyth o awdurdodau lleol.

Mae cylchlythyr Llais y Tenantiaid yn helpu i chwalu rhwystrau gan roi cipolwg ar fywydau tenantiaid. Mae dosbarthu'r cylchlythyr i randdeiliaid Dewis Cyntaf yn eu hannog i ddysgu mwy am anableddau'r tenantiaid. Mae hanesion am fywydau tenantiaid wedi annog tenantiaid eraill i roi cynnig ar weithgareddau newydd sy'n cynyddu eu hannibyniaeth ac yn gwella ansawdd eu bywyd.

Mae grŵp golygyddol Llais y Tenantiaid yn cynnwys pobl sydd ag anabledd dysgu ac mae gan lawer ohonynt anabledd corfforol hefyd. Cânt eu cynorthwyo i gymryd rhan a'u hannog i gymryd perchnogaeth o'r cylchlythyr. Caiff y cylchlythyr ei lunio'n fewnol gan ddefnyddio delweddau a gwybodaeth hygyrch, hawdd ei darllen y mae'r staff wedi cael hyfforddiant arbenigol ynddi.

Dyma rai o'r sylwadau cefnogol gan aelodau grŵp golygyddol Llais y Tenantiaid.

- 'Fy enw i yw Kathleen ac rwy'n teimlo bod gen i lais yn y sefydliad a bod y cylchlythyr yn perthyn i mi'
- 'Fy enw i yw Andrew ac mae'n gwneud i mi deimlo'n falch, rwy'n hoffi rhannu fy hanesion â llawer o bobl. Rwy'n hoffi siarad am erthyglau pobl eraill'.
- 'Fy enw i yw Keith ac rwy'n hoffi cymryd rhan mewn grŵp; rwy'n teimlo bod y cylchlythyr yn perthyn i mi'

Mae Dewis Cyntaf yn creu cylchlythyr Llais y Tenantiaid bedair gwaith y flwyddyn mewn partneriaeth â'n tenantiaid. Rydym yn cynnal cyfarfodydd yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru. O ganlyniad, nid oes gennym aelodau rheolaidd ond mae gennym aelodau amrywiol sydd â safbwyntiau gwahanol a diddorol sy'n cael eu hannog i gael cymaint o ran ag y bo modd mewn llunio'r cylchlythyr.

Nod pob rhifyn o gylchlythyr Llais y Tenantiaid yw galluogi'r grŵp golygyddol i gymryd rhan, gan adeiladu ar y cylchlythyr blaenorol. Trafodir pob un o'r erthyglau y mae pobl yn dod gyda nhw i'r cyfarfod, a bydd y grŵp golygyddol yn penderfynu a yw'n ddarn y gallwn ei ddefnyddio yng nghylchlythyr Llais y Tenantiaid. Mae'n hanfodol fod aelodau'r grŵp golygyddol yn cymryd perchnogaeth o'r rhifyn terfynol.

Mae'r grŵp golygyddol yn cael cyfarfod anffurfiol gydag awyrgylch cyfeillgar ac agored; mae hyn yn annog ac yn galluogi pobl i rannu syniadau am fformat a chynnwys y cylchlythyr a hanesion personol am gyflawniadau tenantiaid. Mae'r amgylchedd hamddenol hwn yn grymuso'r grŵp cyfan. Caiff pob aelod gyfle i wella a datblygu sgiliau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau, tra'n dysgu mwy am faterion yn gysylltiedig â thai a'r modd y mae Dewis Cyntaf yn cyfathrebu â thenantiaid.

Ymhlith cyfarfod grŵp golygyddol Llais y Tenantiaid mae tenantiaid, staff cymorth a dau aelod o staff Dewis Cyntaf. Mae'r cyfarfod yn gofyn am lefel uchel o weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau ac annog y grŵp i gymryd perchnogaeth o rifyn nesaf y cylchlythyr.

Oherwydd bod gan ein tenantiaid anabledd dysgu, gall fod yn heriol cyrraedd ein grŵp cleientiaid.  I gydnabod hyn, ac wrth weithredu ar adborth y tenantiaid a ddywedodd wrthym nad oedd 15% o'n tenantiaid eisiau cyfathrebu'n ysgrifenedig, fe wnaethom ddatblygu DVD i gefnogi'r cylchlythyr ar gyfer y rheiny sy'n wynebu rhwystrau wrth gyfathrebu. Yn ôl yr arolwg diweddaraf, roedd 96.5% o denantiaid yn hapus â'r ffordd rydym yn cyfathrebu.

Mae grŵp golygyddol Llais y Tenantiaid yn cynnal adborth rheolaidd ac yn annog cyfranogiad cyn digwyddiad. Mae

cael yr aelodau i ddod â hanesion i'w trafod yn y cyfarfod yn helpu'r grŵp i feithrin perthynas ac ymlacio. Gwella cylchlythyr Llais y Tenantiaid yw prif ffocws y grŵp bob amser ac mae annog perchnogaeth o'u rhifyn o'r cylchlythyr yn cymell gwelliant parhaus a llwyddiant parhaol.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Oherwydd bod gan ein tenantiaid anabledd dysgu, gall fod yn her cyrraedd ein grŵp cleientiaid. Mae'r cylchlythyr a'r DVD atodol yn galluogi'r rheiny sy'n wynebu rhwystrau wrth gyfathrebu i gymryd rhan, ac o ganlyniad, ceir cylchlythyr Llais y Tenantiaid sy'n cael ei arwain yn wirioneddol gan denantiaid.

Trwy gymryd perchnogaeth o gylchlythyr Llais y Tenantiaid, mae'r grŵp golygyddol yn datblygu eu sgiliau trafod a'u gwybodaeth. Arweinia hyn at ddylanwadu ar wasanaethau Dewis Cyntaf tra'n grymuso ei aelodau.

Mae wedi helpu aelodau i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, bu un aelod yn rhan o banel cyfweld ar gyfer contractwr Dewis Cyntaf, sy'n rhywbeth na fyddai wedi cael yr hyder i'w wneud yn y gorffennol.

Sylwadau o'r arolwg tenantiaid:

- Dywedodd Nancy o'r Amwythig a James o Sir y Fflint wrthym fod yr hanesion yr oeddent wedi eu darllen yng nghylchlythyr Llais y Tenantiaid am Dewis Cyntaf wedi gwneud iddynt fod eisiau dod i fwy o ddigwyddiadau.
- Dywedodd David o'r Rhos wrthym 'Mae'r cynllun yn addas ar gyfer pobl anabl'.
- Dywedodd Peggy o Gaerdydd 'Fy hoff beth am gylchlythyr Llais y Tenantiaid yw'r DVD'.
- Mae Adam o Wrecsam yn hoffi: 'darllen hanesion am denantiaid eraill Dewis Cyntaf a'r cystadlaethau'.
- Dywedodd Matthew o Gaerdydd: 'Mae'n hawdd ei ddeall'.
- Dywedodd Keith: 'Fy hoff beth am gyfarfod grŵp golygyddol y cylchlythyr yw bod fy sgiliau a'm gwybodaeth wedi gwella'.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Cyhoeddiad i ddefnyddwyr gan ddefnyddwyr yw Llais y Tenantiaid Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf*

**Donna Lloyd-Williams**
Cyfarwyddwr gwasanaethau corfforaethol

Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf

**Ff:** 02920713762
**E:** donnalloyd-williams@fcha.org.uk



# #HatsOffNewport

## Cartrefi Dinas Casnewydd

### Beth yw #HatsOffNewport?

Ymgyrch fideo feirol yw #HatsOffNewport a welodd pobl yn postio fideos ar Facebook a Twitter yn enwebu 'Unigolyn mwyaf caredig Casnewydd'.

Mae'r unigolyn yn ffilmio'i hun yn gwisgo het, yn dweud pwy yn ei farn ef/ei barn hi yw'r unigolyn mwyaf caredig yng Nghasnewydd ac wedyn mae'n 'codi ei het i'r unigolyn'.

Er enghraifft: "Rydw i'n enwebu Josephine Blogs fel yr unigolyn mwyaf caredig yng Nghasnewydd, oherwydd daeth i fy nôl pan dorrodd fy nghar i lawr. Josephine, rydw i'n codi fy het i ti!" [Doffs hat]

Mae'r unigolyn yn postio'r fideo hwn ar ei broffil Facebook a/neu broffil Twitter ac wedyn yn enwebu tri o bobl eraill i greu eu fideo eu hunain. Mae hyn yn creu cyfres o hanesion am y pethau hyfryd rydym ni'n eu gwneud i'n gilydd yng Nghasnewydd.

### Pam gwnaethom ni hyn?

Un o nodau Gweledigaeth 2020 Cartrefi Dinas Casnewydd yw 'Sicrhau bod preswylwyr wrth wraidd popeth a wnawn'. Fe wnaeth #HatsOffNewport ein helpu i wireddu hyn trwy ganiatáu i gynulleidfaoedd adrodd eu hanesion, yn eu gofod ar-lein, yn eu ffordd eu hunain.

Cartrefi Dinas Casnewydd yw landlord tai cymdeithasol mwyaf Casnewydd. Fodd bynnag, mae adnabyddiaeth o'r brand yn isel ymhlith preswylwyr Casnewydd: mae dryswch ynghylch p'un a ydym yn cael ein rhedeg gan y cyngor, ac mae landlordiaid cymdeithasol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal yn fwy adnabyddus. Y ffordd o gynyddu dealltwriaeth o'r sefydliad yw dechrau sgyrsiau a fydd yn arwain at berthnasoedd hirdymor. Nid ydym am 'roi pwysau ar bobl i brynu' ond rydym yn ceisio ymgysylltu â chymunedau, gan ddangos ein perthnasedd a meithrin ymddiriedaeth.

Nid yw ymgyrchoedd mwyaf llwyddiannus y cyfryngau cymdeithasol yn siarad am sefydliadau - maen nhw'n galluogi i bobl siarad amdanyn nhw eu hunain, eu ffrindiau a'u bywydau. Caiff hyn ei weld gydag ymgyrchoedd fel #NoMakeUpSelfie (lle'r oedd pobl yn postio lluniau ohonyn nhw eu hunain heb golur ac yn cyfrannu arian at elusen ganser) neu #IceBucketChallenge (lle'r oedd pobl yn ffilmio'u hunain yn arllwys dŵr rhewllyd dros eu pennau). Mae hyn yn rhoi cyfle i'r unigolyn roi argraff ffafriol ohono'i hun i'w ffrindiau: mae'n gwneud rhywbeth gwerth chweil tra'n ymddangos fel unigolyn hwyliog/deniadol.

Yn yr achosion hyn, mae rhywfaint o bwysau gan gyfoedion yn gysylltiedig â chymryd rhan trwy enwebiadau. Mae hyn yn llawer mwy pwerus na phe bai brand yn gofyn i rywun ei wneud. Caiff pobl eu dylanwadu'n fwy gan eu cylch cymdeithasol na chan negeseuon marchnata. Nid sefydliadau yw'r brif neges, ond pobl. Mae hwn yn ddull a fabwysiadodd #HatsOffNewport, a'r fantais ychwanegol yw mai prin yw'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio gan fod y rhan fwyaf o'r cynnwys yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr.

Ein diben sefydliadol yw 'Darparu cartrefi mewn cymunedau ble mae pobl eisiau byw'. Un o'r prif amcanion ar gyfer yr ymgyrch hon oedd hyrwyddo balchder yng nghymunedau Casnewydd; creu sgyrsiau, annog dadleuon cadarnhaol a rhoi sylw i leisiau nad ydynt 'yn cael eu clywed fel rheol'.

Cafodd enw pawb a gyflwynodd fideo â'r hashnod #HatsOffNewport eu rhoi mewn het, a thynnwyd enwau pum enillydd. Cafodd yr enillwyr dalebau rhodd gwerth £50 yr un i'w gwario yn siopau adwerthu annibynnol Casnewydd megis Parc Pantry, Love Fresh, AD Turners a The Kiosk Newsagent. Fe wnaeth hyn annog pobl i gymryd rhan a helpu i hyrwyddo ein masnachwyr lleol.

### Sylw yn y cyfryngau:

**South Wales Argus:** *'People 'take their hats off' for Newport in viral social media campaign'*

www.southwalesargus.co.uk/news/14156219.People__take_their_hats_off__for_Newport_in_viral_social_media_campaign/

**The Voice magazine:** *'Share your video and you could win £50 shop local vouchers'*

www.wearevoice.co.uk/news/family/14184062.Get_involved_with__HatsOffNewport/

**Wales Online/Wales on Sunday:** *'People are starting a new 'Ice Bucket Challenge' - but this time to find a city's kindest person'*

www.walesonline.co.uk/news/wales-news/people-starting-new-ice-bucket-10626471

**ITV Wales:** *'Hats Off Newport: The video challenge where people take their hat off to someone making a difference'*

www.itv.com/news/wales/2016-01-04/hats-off-newport-the-video-challenge-where-people-take-their-hat-off-to-someone-making-a-difference/

### Datganiadau:

Y fideos:

https://hatsoffnewport.com/category/your-videos/

twitter.com/search?q=%23hatsoffnewport&src=typd

### Enillwyr y gwobrau:

http://spnch.newportcityhomes.com/BridgeBrief/06-2016/index.html#p=12 (583 gair)

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Cafodd 40 o fideos i gyd eu llwytho'n gyhoeddus ar y cyfryngau cymdeithasol gan amrywiaeth o bobl gan gynnwys preswylwyr, busnesau lleol, gweithwyr addysg proffesiynol a chynghorwyr. Hyrwyddodd yr ymgyrch falchder yng nghymuned Casnewydd, ac roedd pawb, beth bynnag oedd eu cefndir, yn gyfartal gan eu bod i gyd yn postio fideos â'r un diben, sef dathlu pobl wych Casnewydd.

Fe wnaeth yr ymgyrch helpu i ddatblygu ein proffiliau ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn ei thro, hyrwyddo pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud ymhlith y gymuned ehangach. Cafodd #HatsOffNewport ei grybwyll 880 o weithiau ar Twitter trwy bostiadau gwreiddiol ac aildrydarau. Felly, pe bai 100 o ddilynwyr gan bawb a bostiodd am #HatsOffNewport yn fyw ar Twitter, gallwn ragweld bod 88,000 o bobl ar gyfartaledd wedi gweld post am yr ymgyrch. Cynyddodd y nifer a hoffodd ein tudalen Facebook o 552 ar ddechrau'r ymgyrch i 707 ar ôl cyhoeddi canlyniad y raffl fawr. Cafodd saith o'r fideos #HatsOffNewport y gwnaethom eu rhannu ar Facebook 6,285 o argraffiadau i gyd. Cafodd ein blog WordPress, a oedd yn cynnwys yr holl fideos #HatsOffNewport, ei weld 1,517 o weithiau.

Cawsom sylw cenedlaethol ar ITV Wales a Wales Online, a oedd yn hyrwyddo'r ymgyrch a'n sefydliad yn ogystal â dinas a phobl Casnewydd.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Daeth Cartrefi Dinas Casnewydd o hyd i ffordd greadigol o godi proffil tai trwy bobl leol*

**Jessica Roberts**
Rheolwr cyfathrebu

Cartrefi Dinas Casnewydd

**Ff:** 01633 227839
**E**: jessica.roberts@newportcityhomes.com




# Ymgyrch Cymryd Rheolaeth

## Cartrefi Conwy gyda Blah Creative

Lansiodd Cartrefi Conwy ymgyrch Cymryd Rheolaeth ym mis Rhagfyr 2015 i ymateb i'r pwysau newidiol ar sefyllfa ariannol tenantiaid ac awydd i Cartrefi Conwy ymgysylltu â'n tenantiaid cyn gynted ag y bo modd a darparu cymorth mawr ei angen arnyn nhw i reoli eu cyllid yn briodol. Bwriad yr ymgyrch oedd cynorthwyo tenantiaid yn y meysydd canlynol:

- Credyd cynhwysol
- Llai o incwm o ganlyniad i ddiwygiadau lles eraill
- Tenantiaid sy'n cael eu heithrio'n ariannol
- Tenantiaid sydd angen cymorth i dalu eu rhent yn y ffordd gywir sy'n addas ar gyfer eu sefyllfa

Mae neges yr ymgyrch yn syml: dylech 'gymryd rheolaeth' o'ch materion ariannol, a dod atom ni i gael cymorth a chefnogaeth os ydych yn wynebu anawsterau.

Mae'n ymgyrch ag iddi lawer o agweddau, ac yn cynnwys:

- Microwefan newydd sy'n rhoi amrywiaeth o wybodaeth ar-lein i denantiaid ynglŷn â rheoli eu materion ariannol (gan gynnwys cyfrifiannell cyllideb)
- Rhybudd troi allan 'ffug' y mae'r tîm casglu incwm yn ei ddefnyddio wrth ymweld â thenantiaid sydd ag ôl-ddyledion
- Graffeg cerbyd newydd ar gyfer masnachwyr sy'n ymweld â'n tenantiaid yn rheolaidd
- Amrywiaeth o ddeunydd darllen ar gyfer tenantiaid
- Deunydd ysgrifennu newydd i'w defnyddio o fewn y timau incwm a chyllid
- Byrddau arddangos ar gyfer ardaloedd cymunedol a'r pencadlys
- Ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol
- Nodweddion tymhorol mewn cylchlythyrau i denantiaid
- Masgot 'cadw-mi-gei' Cymryd Rheolaeth newydd

Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar senarios amrywiol sy'n cael eu hactio ar ffôn symudol tenantiaid ffuglennol (gweler y gwaith celf a ddarperir gyda'r rhaglen). Er mai senarios 'ffuglennol' yw'r rhain, maen nhw wedi eu seilio ar amgylchiadau go iawn a welodd ein tîm rheoli incwm. Mae'r senarios hyn yn amrywio o denant sydd yn y llys yn wynebu cael ei droi allan o'i gartref i denant arall nad yw'n gallu talu'r rhent am ei fod wedi gorwario adeg y Nadolig neu wedi gwario'r arian ar wyliau. Mae'r ymgyrch hon yn dda gan ei bod yn gallu bod yn ddigon hyblyg i ymateb i dueddiadau o fewn y timau casglu incwm.

Caiff yr ymgyrch ei chyflwyno gydag ergyd ond y brif neges yw bod Cartrefi Conwy yma i gynorthwyo ein tenantiaid. Ein hethos sefydliadol yw 'creu cymunedau i fod yn falch ohonyn nhw' ac mae gennym ni dîm cynhwysiant ariannol dynodedig sydd wrth law i gynorthwyo tenantiaid sy'n wynebu trafferthion ariannol. Mae'r ymgyrch hon yn rhoi i'r tîm yr adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Bu timau amrywiol ar draws Cartrefi Conwy yn gweithio gydag asiantaeth ddylunio leol, Blah Creative Agency, i gael syniadau am frandio, senarios, ac ati. Fe wnaethom gynnal sesiwn ymgynghori â'n tenantiaid hefyd (gan gynnwys y rheiny oedd yn wynebu trafferthion ariannol) i sicrhau bod yr ymgyrch yn creu effaith heb achosi gofid i'r tenantiaid hynny sy'n wynebu argyfwng ariannol, neu ddangos diffyg cydymdeimlad atynt. Meddyliodd y tenantiaid hyn am amrywiaeth o senarios yn seiliedig ar eu profiadau eu hunain hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Effaith peidio â chael yswiriant cynnwys cartref
- Y straen ariannol yn ystod gwyliau ysgol (yn enwedig y Nadolig)
- Blaenoriaethu biliau a chyllidebu
- Benthyca stepen y drws a'i effaith
- Peidio â chael cyfrif banc er mwyn gallu talu biliau ar-lein, ac ati

Roedd y wybodaeth hon yn allweddol i gyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus.

Er bod yr ymgyrch Cymryd Rheolaeth wedi cael ei lansio bron i flwyddyn yn ôl, mae elfennau newydd wedi cael eu hychwanegu ac mae'n tyfu'n barhaus. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r brandiau cryf rydym wedi eu datblygu i gyfleu gwahanol negeseuon.

Mae ein pennaeth gwasanaethau cymdogaeth, sy'n goruchwylio'r tîm incwm yn Cartrefi Conwy, yn hapus iawn â'r ffordd y mae'r ymgyrch wedi datblygu:

*"Mae casglu rhent a chadw ôl-ddyledion rhent mor isel ag y bo modd yn amlwg yn flaenoriaeth ar gyfer llwyddiant parhaus Cartrefi Conwy a'r gwasanaethau gwerthfawr rydym ni'n eu cynnig i'n holl denantiaid. Fodd bynnag, gallai cyflwyno credyd cynhwysol o bosibl gael effaith sylweddol ar ein gallu i gynnal y gwasanaethau cymorth arobryn hyn yn y dyfodol, os na allwn ni gynnal ein prif ffrwd incwm yn llwyddiannus. Gan gofio hyn, buom yn gweithio'n agos â'n rheolwr cyfathrebu a marchnata a Blah Creative Agency i edrych ar y modd y gallwn ni leihau'r risg hon i'n sefydliad; a dyna pam mae gennym ni ymgyrch Cymryd Rheolaeth. Fe wnaethom ni drafod yr ymgyrch yn helaeth gyda*

*thenantiaid, Shelter Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru hefyd i wneud yn siŵr ein bod yn cael y neges yn iawn. Mae'r adnoddau sy'n cael eu creu trwy ymgyrch Cymryd Rheolaeth wedi bod o gymorth mawr i ni atgyfnerthu'r neges eich bod yn wynebu cael eich troi allan o'ch cartref yn y pen draw os nad ydych yn talu'ch rhent, sy'n neges anodd ei chyfleu. Rwy'n credu'n gryf, trwy greu neges gyson gyda'n tenantiaid ynghyd â gwasanaethau gwerthfawr ein tîm cynhwysiant ariannol ac incwm y gallwn ni leihau'r effaith i'n sefydliad".*

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Rydym ni eisoes yn dechrau gweld effaith wirioneddol o ran casglu rhent, ffigurau ôl-ddyledion a nifer y tenantiaid sy'n defnyddio ein gwasanaethau cynhwysiant ariannol ers lansio ymgyrch Cymryd Rheolaeth. Mae hyn yn gyflawniad gwych pan fyddwch chi'n ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol a chyflwyno credyd cynhwysol a gostyngiadau eraill mewn budd-daliadau.

Mae'r arian sy'n cael ei gasglu gan denantiaid presennol wedi cynyddu o £6,203,018 (diwedd mis Awst 2015) i £6,547,517 (diwedd mis Awst 2016).

Ers mis Mawrth, rydym wedi gweld gostyngiad yn ein hôl-ddyledion o gymharu â'r un cyfnod y llynedd – 2.61% ar hyn o bryd, a oedd yn 2.89% ar yr un adeg y llynedd.

Ar stondin Cymryd Rheolaeth yn ein diwrnod hwyl i denantiaid yn ddiweddar (y diwrnod allan MAWR), buom yn sgwrsio â thros 400 o denantiaid dros gyfnod o 4 awr, a gofynnodd llawer ohonynt am ymweliad gan ein tîm cynhwysiant ariannol.

Dros y 12 mis diwethaf, mae ein tîm cynhwysiant ariannol wedi cynorthwyo 286 o denantiaid i hawlio dros £265,237 mewn budd-daliadau nad oeddent yn gwybod bod ganddynt hawl iddynt.

Rydym wedi gweld gostyngiad enfawr hefyd yn nifer y bobl a gafodd eu troi allan o'u cartref eleni (o 11 i 3).

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae Cartrefi Conwy wedi datblygu cynllun mawr i ddatrys problem fawr*

**Annette Hennessey**
Rheolwr cyfathrebu a marchnata

Cartrefi Conwy

**Ff:** 01745 335506
**E:** annette.hennessey@cartreficonwy.org




# Gwahardd Gwely a Brecwast

## End Youth Homelessness Cymru gyda Llamau, GISDA, Tai Dewis, Swansea Young Single Homelessness Project, Adref

Dechreuwyd ymgyrch "Gwahardd Gwely a Brecwast" gan gynghrair End Youth Homelessness Cymru, (sy'n cynnwys Llamau, GISDA, Adref, Dewis a Swansea Young Single Homelessness Project.) Cafodd ei chreu i ymateb i'r cant o bobl ifanc 16 ac 17 oed yng Nghymru a amcangyfrifir eu bod yn cael eu lletya dros dro mewn llety gwely a brecwast. Nod yr ymgyrch yw sicrhau newid penodol i'r arweiniad statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar y modd y dylid lletya pobl ifanc a gofyn i LlC wahardd y defnydd a wneir o wely a brecwast.

Rhesymeg yr ymgyrch oedd bod angen cymorth penodol ar bobl ifanc yn eu harddegau sy'n cael eu hunain yn ddigartref i oresgyn arwahanrwydd. Mae angen gwasanaeth cymorth, cyngor a chyfryngu arbenigol ar bobl ifanc ddigartref, i sicrhau eu bod yn dychwelyd gartref yn ddiogel, yn cael lleoliad gofal neu denantiaeth annibynnol.

Penderfynodd y glymblaid greu deiseb ar-lein, mewn partneriaeth â Michael Sheen, er mwyn cael digon o gefnogaeth gan y cyhoedd i annog Llywodraeth Cymru i newid ei harweiniad statudol. Arwyddodd dros 115,000 o bobl y ddeiseb mewn 6 wythnos, ac roedd yn ddigon i'w chyflwyno i Lesley Griffiths AC, y gweinidog oedd â chyfrifoldeb am dai ar y pryd, ym mis Chwefror 2016.

http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/michael-sheen-starts-campaign-stop-10635531

http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/how-michael-sheen-forcing-politicians-10872366

Yn sgil yr ymgyrch, newidiwyd yr arweiniad statudol sydd bellach yn cyfyngu ar y defnydd a wneir o lety gwely a brecwast i amgylchiadau eithafol am ddim mwy na 48 awr.

### Sut mae'r ymgyrch yn hanfodol i ddiben cymdeithasol y sefydliadau

Mae'r pum sefydliad sy'n creu End Youth Homelessness Cymru i gyd yn dymuno gweld diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gweithiwn yn benodol gyda phobl ifanc yng Nghymru sy'n wynebu neu'n profi digartrefedd a darparwn gymorth holistaidd ac wedi'i deilwra i alluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i fyw yn annibynnol ac yn bwrpasol yn eu cymunedau.

Credwn mai hawl, nid braint, yw tai diogel a thai â chymorth, ac roedd felly'n hanfodol newid arweiniad statudol Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo'n briodol pan fyddant ar eu mwyaf agored i niwed.

### Y broses a ddefnyddiwyd i greu'r ymgyrch

Roedd nodau'r ymgyrch yn glir ond roeddem ni'n teimlo mai'r cyfle gorau i sicrhau newid i'r arweiniad statudol oedd trwy gael y cyhoedd i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru. Felly, roedd angen i ni gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mater. Er mwyn gwneud hyn, fe wnaethom ni ymuno â Michael Sheen er mwyn sicrhau mwy o gefnogaeth gan y cyhoedd na'r hyn y gallem ni ei gyflawni fel grŵp o sefydliadau.

Wedi i ni sicrhau cefnogaeth Michael, fe lansiodd ein deiseb, ac fe wnaethom ni ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau traddodiadol i hyrwyddo'r ymgyrch. (https://www.change.org/p/welsh-government-stop-housing-homeless-teenagers-in-unsuitable-bed-and-breakfast-accommodation)

Llwyddwyd i gael llawer o sylw gan y cyfryngau a chefnogaeth gan y cyhoedd oherwydd rhan Michael Sheen yn yr ymgyrch. Fodd bynnag, roedd y galw ar Lywodraeth Cymru i newid polisi yn glir a diamwys oherwydd arbenigedd a phrofiad partneriaid EYH Cymru.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Arweiniodd yr ymgyrch at yr arweiniad statudol diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016:

(http://gov.wales/docs/desh/publications/160324-code-of-guidance-for-local-authorities-on-allocation-of-accommodation-and-homelessness-en.pdf tudalen 299 am y newid penodol)

Mae'r arweiniad yn amlinellu bwriad clir i ddod â diwedd ar ddefnyddio llety gwely a brecwast ac yn creu proses fonitro ffurfiol ar gyfer awdurdodau lleol.

Roedd yr ymgyrch yn galw am rwydwaith o lety argyfwng wedi ei staffio'n briodol, ac fe gaiff hyn ei adlewyrchu yn yr arweiniad. Mae'r arweiniad wedi'i ddiweddaru bellach yn disgrifio llety gwely a brecwast fel "llety nad yw fel arfer yn cael ei ystyried yn addas" ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed. Yn y sefyllfaoedd prin iawn pan ddefnyddir llety gwely a brecwast, rhaid i'r llety gael ei gymeradwyo gan uwch unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau a symud y bobl ifanc ymlaen i lety addas ymhen 48 awr. Mae amodau llymach ynghlwm ag ansawdd y llety, gan gynnwys mynediad am ddim i ffôn i gysylltu â gwasanaethau cymorth, nwyddau ymolchi, prydau bwyd poeth a mynediad 24 awr at eu hystafell.

Roedd y rhain i gyd yn broblemau y soniodd pobl ifanc wrthym ni amdanyn nhw wrth ddefnyddio llety gwely a brecwast, a bydd yr arweiniad cryfach yn awr yn datrys hyn.

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Cydlynwyd ymgyrch wych gan End Youth Homelessness Cymru mewn partneriaeth, ac roedd y canlyniad yn gryf*

**Richard Lewis**
Rheolwr materion cyhoeddus

End Youth Homelessness Cymru

**Ff:** 02920239585
**E:** richardlewis@llamau.org.uk

# Gwobr datblygiad newydd

Mae'r wobr hon yn cydnabod lefelau uchel o ansawdd adeiladu a dylunio, sy'n cyfrannu'n ystyrlon at gynyddu cyflenwadau tai a gwella fforddiadwyedd, yn genedlaethol neu yn yr ardal leol. Byddant hefyd yn gallu dangos arloesed a dylunio arloesol, a'u bod wedi gweithio gyda'r gymuned i sicrhau cefnogaeth leol, ac wedi darparu gwerth am arian.



## Cysgod y Gogarth

### Cartrefi Conwy

Cysgod y Gogarth* yw datblygiad blaenllaw, ecogyfeillgar, Cartrefi Conwy sy'n werth £4 miliwn a mwy, sy'n hyrwyddo a chefnogi byw yn annibynnol ar gyfer pobl hŷn.

Daeth Cysgod y Gogarth yn lle dau hen gynllun tai gwarchod sy'n cynnwys 30 o fflatiau a fflatiau un ystafell yn Llys Seiriol a Llys Eryl gerllaw ar St. Andrew's Avenue yn Llandudno gan nad oeddent yn addas at eu diben ac nid oeddent yn mynd i'r afael â'r angen am dai yn lleol.

Mae Cysgod y Gogarth yn agos at ganol y dref glan môr Fictoraidd hon sydd wedi ennill sawl gwobr. Mae yno lawer o atyniadau hanesyddol, gan gynnwys penrhyn enwog y 'Gogarth'.

Fe'i dyluniwyd gan y penseiri PRP, sydd wedi ennill sawl gwobr, ac mae dyluniad yr adeilad wedi ymgorffori llawer o nodweddion sy'n cyd-fynd ag adeiladau lleol a hanes Fictoraidd y dref. Mae Cysgod y Gogarth yn ymddangos fel rhes o dai teras traddodiadol, wedi eu hamgylchynu â gerddi wedi eu tirlunio a mannau parcio wedi eu cadw ar gyfer tenantiaid a'u gwesteion.

Mae tenantiaid yn elwa ar lawer mwy na dim ond llety modern a chyfforddus erbyn hyn, sy'n ymgorffori llawer o nodweddion arloesol i fodloni'r meincnod amgylcheddol ar gyfer arfer gorau mewn dylunio, adeiladu a gweithredu cynaliadwy:

- Mae pob uned wedi derbyn Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy Lefel 4.
- Mae'r system wresogi ar gyfer y fflatiau a'r 4 tŷ yn gweithio trwy system gwres a phŵer gymunedol (CHP) gyfunol. Mae offer y boeler gwresogi a'r CHP wedi eu gosod yn y bloc o fflatiau gyda'r gwaith pibau'n rhedeg o fewn ffosydd i bob tŷ. Mae gan bob fflat a thŷ eu hunedau rhyngwyneb gwres eu hunain gyda mesuryddion ar wahân. O ran y cynllun, defnyddir gwerth £4.41 yr wythnos o wres ar gyfartaledd ar gyfer y fflatiau a'r tai (£230 y flwyddyn).
- Mae cyfanswm o 70 o baneli solar ffotofoltäig wedi'u gosod ar do'r fflatiau gyda chyfanswm capasiti o 17.50Kw sy'n cynhyrchu cyfanswm blynyddol o 14752kWh, sy'n gyfwerth â £2,360.

Adeiladwyd y datblygiad i safon 'Cartrefi Gydol Oes' sy'n golygu y gallwn addasu'r cartref yn hawdd yn unol â gofynion unigol, wrth i anghenion iechyd, lles neu symudedd preswylwyr newid pan fyddant yn mynd yn hŷn. Dyfarnwyd achrediad Gwobr Blatinwm Golwg Well Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion i'r cynllun. Mae pob agwedd ar yr adeilad a'r dyluniad mewnol wedi cael eu hystyried i alluogi pobl â nam ar y golwg i fyw yn annibynnol gyda chyn lleied â phosibl o addasiadau a chymorth trwy sicrhau bod digon o gyferbyniad rhwng arwynebau sy'n eu galluogi i symud yn gyfforddus o gwmpas eu cartref newydd.

Mae pob un o'r fflatiau wedi cael eu dylunio i greu mannau byw modern a gweithredol, gyda cheginau cynllun agored sy'n arwain at ardaloedd byw eang.

O gymharu â chynlluniau gofal ychwanegol confensiynol ar gyfer pobl oedrannus, roedd y datblygiad hwn yn arloesol gan ei fod yn darparu model 'Gofal Ychwanegol Ysgafn', sy'n lleihau costau cyfalaf yn sylweddol tra'n parhau i gynnig darpariaeth ar gyfer byw yn annibynnol a chynaliadwy gyda gofal a chymorth trwy wasanaethau teithiol lleol.

Caiff buddiannau cymunedol gweithgarwch economaidd pellach eu crynhoi isod ac mae arf mesur buddiannau cymunedol Cymru yn dangos lluosydd lleol Cymru fel £1.90, sef y buddsoddiad uniongyrchol yn economi Cymru am bob £1 a wariwyd ar Gysgod y Gogarth

- Cyfanswm gwerth gwaith yr is-gontractwr yw £1,783,000 gyda £1,539,000 wedi ei wario yng Nghymru (86%)

- Roedd 100% o'r gweithwyr a gyflogwyd o Ogledd Cymru gyda 70% o weithwyr yn cael eu cyflogi yn ardal leol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan y prif gontractwr, RL Davies
- £5,000 o gyfraniadau/nawdd fel buddiannau cymunedol
- Cwblhawyd 1 brentisiaeth ac enillwyd NVQ Lefel 2 mewn gwaith coed a saernïaeth

Dywedodd y Dr Peter Higson OBE, cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

*"Mae'r bwrdd iechyd yn awyddus iawn i weithio gyda chymdeithasau tai fel Cartrefi Conwy i gynorthwyo pobl wrth iddynt fynd yn hŷn. Cysgod y Gogarth yw'r dyfodol, ac mae'n rhaid mai dyma'r ffordd ymlaen i bob un ohonom ni."*

Roedd datblygiad *Cysgod y Gogarth hefyd yn cynnwys adeiladu Tan y Gogarth sy'n cynnwys 2 gartref teuluol â dwy ystafell wely a 2 gartref teuluol â thair ystafell wely sy'n cael eu gosod ar ddaliadaeth rentu ganolraddol sydd fel arfer 20% yn llai na chyfradd y farchnad. Mae'r wybodaeth uchod am gynaliadwyedd, buddiannau cymunedol a gweithgarwch economaidd pellach yn ymwneud â phrosiect cyffredinol y datblygiad.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae Cysgod y Gogarth yn fwy na dim ond cynllun tai, mae'n ganolfan ar gyfer y gymuned ehangach; mae'n annog rhyngweithio trwy weithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol wedi eu harwain gan denantiaid a phreswylwyr lleol sy'n dod â nhw at ei gilydd yn rheolaidd am fwy na 26 awr bob wythnos. Yn ychwanegol, mae prosiectau a chlybiau llwyddiannus eraill yn defnyddio'r cyfleusterau, gan gynnwys:

- Mae gan Give Where You Live 51 o aelodau sydd wedi rhannu dros 500 awr o wirfoddoli sydd wedi annog cynhwysiant cymdeithasol a synnwyr o bwrpas sy'n rhoi teimlad da ac mae wedi gwella ysbryd cymunedol y bobl *hŷn* yn Llandudno. Ers ymuno â'r prosiect, mae'r aelodau wedi dechrau cynnal grŵp coffi a sgwrsio ar y Sul i atal unigrwydd, mae tenant arall yn cynnal clwb crefftau a diddordebau, wrth i denant arall gynnal dosbarthiadau TG. Mae ganddynt eu gweithiwr mân dasgau mewnol eu hunain hefyd.
- Mae rhaglen therapi celf gydag arlunydd lleol adnabyddus wedi gwella iechyd a lles tenantiaid nid yn unig trwy eu cael i ddysgu sgiliau celf newydd, ond eu helpu i ymdopi â cholli anwyliaid, salwch meddwl a hel atgofion.
- Fe wnaeth prosiect darllen arloesol arall gydag ysgol uwchradd leol gael gwared ar rwystrau o ran oedran gyda thenantiaid hŷn yn helpu plant ysgol gyda'u darllen.

http://www.dailypost.co.uk/whats-on/arts-culture-news/llandudno-art-project-stages-first-10697076

https://www.youtube.com/watch?v=tr8yKA_vu5U

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae Cartrefi Conwy wedi datblygu cynllun sy'n dangos fforddiadwyedd a chynaliadwyedd*

**David Kelsall**
Rheolwr datblygu

Cartrefi Conwy

**Ff:** 0300 124 0040
**E:** david.kelsall@cartreficonwy.org



# Urban Village

## Coastal Housing Group gyda Phenseiri Holder Mathias, R&M Williams, Dinas a Sir Abertawe, Llywodraeth Cymru

Gweledigaeth sy'n seiliedig ar fyw a gweithio yn gynaliadwy yw Urban Village, a ddechreuwyd trwy gynllun gwerth £25 miliwn i adfywio, ail-ddylunio ac ailadeiladu ardaloedd y Stryd Fawr a Strand Row yn ail ddinas Cymru - mae'n agos atoch, ond eto'n gysylltiedig ac yn gosmopolitan, mae iddo hunaniaeth a chymeriad cryf, ond mae hefyd yn fodern ac yn fetropolitanaidd.

Mae Coastal Housing Group wedi cwblhau'r prosiect cyffrous hwn mewn dau gam, gan orffen â chwblhau darn canol y Pentref yn ddiweddar, sef y Clwstwr Creadigol.

Cwblhawyd cam cyntaf Urban Village yng ngwanwyn 2012 a datblygwyd swyddfeydd a lleoedd adwerthu ar bum llawr yn wynebu Stryd Fawr Abertawe, ynghyd ag adeiladu 76 o fflatiau fforddiadwy y tu ôl i'r datblygiad.

Datblygwyd cysyniad Urban Village yn y lle cyntaf gan Coastal Housing Group i fynd i'r afael â'r problemau ar Stryd Fawr Abertawe o ongl newydd. Yn y cam cyntaf, codwyd yr adeiladau newydd, o ansawdd da, yn lle'r strwythurau hŷn anneniadol oedd wedi'u cynnal yn wael;

cyflwynwyd mannau swyddfa o ansawdd uchel i ddenu busnesau i'r ardal; ac adeiladwyd y fflatiau newydd i ailgyflwyno bywyd ac ymwelwyr i'r stryd, ac mae pob un o'r rhain wedi'u llenwi erbyn hyn.

Mae cam cyntaf y datblygiad eisoes wedi dechrau cael effaith ar yr ardal leol, ac mae busnesau a phreswylwyr newydd wedi creu newid gwirioneddol i amgyffrediad y stryd.

Mae ail gam Urban Village yn cynnwys dau adeilad ar wahân, sef Y Warws a'r Clwstwr Creadigol.

Mae'r warws Fictoraidd yn rhan unigryw o orffennol hanesyddol Abertawe, ac fe gafodd ei adeiladu'n wreiddiol ar ddiwedd y 1880au fel ffatri ar gyfer y cynhyrchwyr dodrefn, Down and Son. Mae'r adroddiadau'n dangos bod y tir yr adeiladwyd y warws (oedd yn cael ei adnabod bryd hynny fel Morris Lane) arno wedi cael ei farchnata yn gyntaf i'w werthu ar ddechrau'r 1880au, ac adeiladwyd y warws rhwng 1888 – 1889. Wedyn, roedd y warws yn gartref i gwmni Down and Son am dros ganrif. Mae'r adeilad ei hun yn arwyddocaol hefyd, gan ei fod yn un o'r enghreifftiau prin o bensaernïaeth Oes Fictoria yn yr ardal sydd wedi goroesi'r cyrchoedd awyr yn Abertawe adeg y rhyfel. Mae Coastal Housing Group wedi cadw cynifer o nodweddion gwreiddiol yr adeilad ag y bo modd, er mwyn cadw cipolwg ar orffennol yr adeilad. Mae'r adeilad wedi cael ei glirio a'i adnewyddu'n llwyr i safon uchel ar y tu mewn i'w wneud yn ardal weithio ddefnyddiadwy a dymunol ar gyfer anghenion busnes heddiw.

Yn rhan olaf Cam 2, adeiladwyd canolbwynt Urban Village, sef y Clwstwr Creadigol. Mae'r Clwstwr Creadigol, sydd â 16,500 troedfedd sgwâr o ofod creadigol dros bum llawr, yn ganolfan fforddiadwy a blaengar ar gyfer busnesau bach newydd a'r cwmnïau creadigol. Bydd yr amgylchedd gwaith sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn galluogi unigolion creadigol tebyg i ymgysylltu a rhannu syniadau gyda'i gilydd ac yn helpu i feithrin ardal greadigol ffyniannus yn Abertawe.

Yr adeilad yw'r gofod dynodedig cyntaf yng Nghymru i gael ei adeiladu'n gyfan gwbl ar gyfer ei ddefnyddio gan y diwydiannau creadigol. Bydd sefydlu mwy o swyddfeydd modern a fforddiadwy yng nghanol y ddinas yn ddefnyddiol ar gyfer twf busnes, a disgwylir y bydd adeiladu man gweithio dynodedig ar gyfer y diwydiant creadigol dim ond yn ychwanegu at y dirwedd greadigol a diwylliannol, sydd eisoes yn tyfu yn Abertawe.

Gan fod Urban Village bellach wedi'i gwblhau, mae'r datblygiad yn parhau i ymgorffori adfywio cymdeithasol, economaidd a ffisegol mewn ardal a fydd yn denu lefelau cyson gynyddol o weithgarwch cysylltiedig i'r ardal gyfagos, gan arwain at orlifiadau sydd eisoes wedi dechrau bwydo twf economaidd cynaliadwy yn yr ardal hon o'r ddinas a oedd yn cael ei hamddifadu a'i hesgeuluso yn y gorffennol.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Wrth ddatblygu'r Urban Village, sicrhaodd Coastal Housing Group y buddiannau cymunedol canlynol er mwyn rhoi rhywbeth yn ôl i'r ardal leol:

Cam 2:

- Nifer y cyfleoedd cyflogaeth amser llawn a grëwyd: 4
- Nifer yr wythnosau hyfforddi a ddarparwyd: 35
- Nifer y cyfleoedd gwaith gwirfoddol a grëwyd: 13
- Cyfanswm nifer y deunyddiau llafur a gyfrannwyd i fusnesau lleol: £1670

Yn ogystal â dod â thai mawr eu hangen i ganol dinas Abertawe, mae nifer o fusnesau sefydledig ac annibynnol wedi ymgartrefu yn Urban Village erbyn hyn, gan arwain at lefel gynyddol o ymwelwyr â'r Stryd Fawr. Mae cwmni papur newydd lleol y ddinas, yr Evening Post, wedi ei leoli yn y cam cyntaf erbyn hyn, yn ogystal â staff Coastal Housing Group sy'n gweithio yn Abertawe, ac mae busnesau annibynnol wedi eu lleoli ymhlith yr elfennau adwerthu, megis Coast Italia, NVUS Aesthetics a Galerie Simpson.

Y Clwstwr Creadigol yw'r adeilad cyntaf yng Nghymru i gael ei adeiladu ar gyfer ei ddefnyddio gan y diwydiannau creadigol, ac mae bellach yn ganolfan i ddatblygu cwmnïau digidol ac uwch-dechnoleg newydd. Symudodd TechHub Abertawe i'r gofod ym mis Mawrth 2016, sy'n cynnig rhannu swyddfeydd, mentora a chyngor, digwyddiadau rhwydweithio a chysylltiad band eang cyflym iawn, yn ogystal â chaffi sy'n agored i'r cyhoedd.

### Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:

*Mae datblygiad Coasral Housing Group yn brosiect adfywio hynod gynhwysol*

**Dom Amirat**
Rheolwr prosiect

Coastal Housing Group

**Ff:** 01792 479222
**E:** dom.amirat@coastalhousing.co.uk



# Cwrt y Tollty

## Cyngor Sir y Fflint gyda Wates Residential, Halliday Clark

**Trosolwg:** Cwrt y Tollty (Custom House Court) yw'r datblygiad cyntaf o raglen unigryw, SHARP (partneriaeth tai ac adfywio strategol) Sir y Fflint a fydd yn adeiladu 500 o dai cyngor a thai fforddiadwy mewn pum mlynedd ledled y sir. Dyma'r rhaglen uchelgeisiol ac arloesol gyntaf o'i math yng Nghymru, a'r prosiect hwn yw'r datblygiad tai cyngor cyntaf a gwblhawyd yng Nghymru ers cyflwyno hunangyllido ar gyfer tai cyngor. Bydd y rhaglen hon yn adfywio Sir y Fflint gyfan, nid yn unig o ran tai mawr eu hangen ond hefyd o ran y buddiannau economaidd a chymdeithasol ar gyfer cymunedau a busnesau lleol. Bydd SHARP yn cynhyrchu buddiannau gwerth £60 miliwn a 2,000 o gyfleoedd gwaith.

**Ansawdd y dyluniad a'r adeiladu:** Datblygiad o 12 cartref gan Gyngor Sir y Fflint i'w rhentu'n gymdeithasol yng Nghei Connah yw Cwrt y Tollty. Mae'r dyluniad yn cyd-fynd â Safon Tai Sir y Fflint, sydd o ansawdd llawer gwell na chartrefi cyngor safonol ar gyfer rhentu cymdeithasol. Bydd y preswylwyr newydd yn elwa ar gartrefi sy'n hynod effeithlon, wedi eu hadeiladu i safon sy'n gyfwerth â'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy Lefel 4. Er mwyn lleihau tlodi tanwydd i'r preswylwyr, caiff y cartrefi eu hadeiladu yn ôl dull ffabrig yn gyntaf, sy'n golygu bod pob tŷ yn elwa ar gael waliau wedi'u hinswleiddio'n dda, lloriau, to a ffenestri a drysau ansawdd uchel sy'n gwella aerglosrwydd yn gyffredinol. Mae system adfer i wresogi dŵr gwastraff wedi ei gosod ym mhob tŷ, sy'n cynhesu dŵr sy'n dod i mewn yno, ac fel system oddefol, mae'r preswylydd yn elwa arni heb orfod cynnal na rheoli technoleg adnewyddadwy gymhleth.

**Dyluniad arloesol:** Fe'i hadeiladwyd ar safle hen Ysgol Custom House, a buom yn gweithio gyda'r penseiri Halliday Clark i ddatblygu dyluniad oedd yn gyson â'r ardal leol ac yn gwarchod uniondeb pensaernïol ac esthetig yr hen ysgol yn ogystal. Yn dilyn ymgynghori â'r gymuned a'r cynghorwyr lleol, cytunwyd y dylai nodweddion eiconig wedi eu hadfer o'r hen ysgol gael eu hymgorffori yn y cynllun newydd. Roedd hyn yn cynnwys bricsen peirianyddol glas gloyw mewn patrwm pwyth croes gyda phennau cerrig, silffoedd ffenestri ac awyrdyllau talcen.

**Cefnogaeth leol:** Mae ymgysylltu agos a pharhaus â'r gymuned leol wedi bod yn elfen allweddol o'r cynllun. Roedd dyfodol y safle yn bwysig iawn i'r gymuned leol ac mae'r Cyngor a Wates yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae'r gymuned leol wedi'i wneud o ran ffurfio'r datblygiad. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori cymunedol yn gynnar yn y neuadd eglwys gyfagos gan alluogi preswylwyr lleol i ddysgu mwy am y cynllun ac, yn bwysig, llywio'r dyluniad a'r cynllun. Mae Wates wedi gweithio'n agos â'r pennaeth yn Ysgol Cae'r Nant gerllaw hefyd, ac roedd y disgyblion yn llawn cyffro wrth iddynt ymweld â'r safle ar ymweliadau wedi eu trefnu. Adeiladwyd Cwrt y Tollty mewn 8 mis trawiadol, er mawr lawenydd i'r gymuned, y busnesau a'r ysgol gyfagos.

**Angen am dai:** Mae angen y datblygiad yn fawr a bydd yn cynnig cyfleoedd gwell o ran tai i bobl leol sy'n aros ar gofrestr tai'r Cyngor ar hyn o bryd. Bydd y cynllun newydd yn cyfrannu'n sylweddol at leddfu rhywfaint o'r pwysau am dai yn lleol yng Nghei Connah, sy'n amlwg o'r gofrestr tai. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan ddatblygiad polisi gosod lleol a fydd yn sicrhau mai pobl leol sy'n byw yng Nghei Connah sydd angen tai sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer y cartrefi newydd.

**Gwerth am arian:** Caiff y tai eu hadeiladu yn unol â Safon Tai Sir y Fflint sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor, sy'n gosod manyleb dylunio a chynllunio uchel ac ansawdd rhagorol sy'n ymgorffori datblygiad i fod yn falch ohono yn y gymuned, gan gynyddu lles a dymunoldeb yr ardal.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

- Datblygiad unigryw sy'n cadw ysbryd yr hen ysgol, gyda dyluniad pensaernïol a nodweddion gwreiddiol yn cael eu hymgorffori yn yr adeilad
- Tai newydd mawr eu hangen sy'n cynnwys 12 cartref dwy a thair ystafell wely o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni
- Enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad o £1 miliwn (hyd yn hyn) o ran defnyddio'r gadwyn gyflenwi leol, prentisiaethau, hyfforddiant a gweithgareddau
- Creu Academi Brentisiaid Sir y Fflint i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth i 50 o bobl leol

Datblygwyd cynllun buddsoddi cymunedol, gyda mewnbwn gan bobl leol ac fe wnaeth y tîm cyfan helpu i gyflawni'r canlynol:

- Gosod ffensys amddiffynnol ar gyfer Ysgol Gynradd Cae'r Nant
- Cafodd dau o byst gât o garreg yr hen ysgol eu tynnu a'u gosod ger mynedfa Parc Wepre
- Cynhaliwyd diwrnod hwyl â phêl-droed ym mis Mai 2016
- Cyfraniad o £1,000 i'r tîm pêl-droed lleol ar gyfer dillad newydd
- Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus yn ei blwyddyn gyntaf ac mae awdurdodau lleol eraill yn dilyn esiampl Cyngor Sir y Fflint erbyn hyn, gyda llawer ohonynt yn ymweld â'r rhaglen i weld sut y gellir ailadrodd hyn yn eu bwrdeistrefi nhw.

- Enghraifft ragorol o'r modd y mae datblygiadau cydlynol yn integreiddio'n dda mewn cymuned ac yn gallu gwella ansawdd bywyd a mynd i'r afael â thlodi yn y gymuned

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae Cyngor Sir y Fflint wedi dangos enillion cymdeithasol trawiadol ar fuddsoddiad*

**Melville Evans**
Rheolwr gwasanaethau – rhaglenni tai

Cyngor Sir y Fflint

**Ff:** 01352701436
**E:** melville.evans@flintshire.gov.uk



# Hamadryad Court, Bae Caerdydd

## Morganstone gyda Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd

Datblygiad ar safle hen Ysbyty Brenhinol Hamadryad sydd bellach yn Ganolfan Iechyd y GIG yw Cwrt Hamadryad.

Roedd y safle wedi aros heb ei ddatblygu wrth i nifer o ddatblygwyr fethu datgloi'r safle heriol hwn, a oedd yn galw am ddatblygiad a fyddai'n gwneud cyfiawnder â'i safle blaenllaw ar goridor Afon Taf, gyda golygfeydd panoramig tuag at Fae Caerdydd a'r sianel, ac yn ôl tuag at ganol dinas Caerdydd.

Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd, fe wnaeth Morganstone gaffael y cynllun fel dêl pecyn dan arweiniad y tir sy'n darparu cartrefi fforddiadwy ansawdd uchel. Roedd amlygrwydd y safle ar lan yr afon yn golygu bod dyluniad o ansawdd uchel yn hanfodol. Fe wnaeth Morganstone a Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd benodi Austin Smith Lord yn bensaer ar sail eu gwaith blaenorol gyda'r tîm datblygu a'u hanes o gwblhau prosiectau o ansawdd uchel yng Nghaerdydd.

Aeth y prosiect i'r afael ag anghenion tai penodol a nodwyd gan Gyngor y Ddinas am gartrefi 1 a 2 ystafell wely ac anghenion y rheiny a oedd yn dymuno symud i gartref llai.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda phreswylwyr lleol a'u cynrychiolwyr, gan gynnwys pedwar cyfarfod ymgynghori, dosbarthu llythyrau a chylchlythyrau mewn wyth ardal yn ogystal â thudalen gymunedol ddynodedig i'r prosiect ar wefan Morganstone. Bu'r tîm yn gweithio gyda'r gymuned i roi sicrwydd iddynt ynghylch aflonyddwch posibl yn sgil gweithrediadau gosod pyst, gan gynnwys gwneud arolwg o gartrefi a gosod offer monitro dirgryniadau ar gartrefi preswylwyr. O ystyried pryderon y gymuned, cafodd ardal yn fwy na'r hyn a argymhellodd yr arweiniad ei chynnwys yn y gwaith monitro. Bu'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r GIG i sicrhau nad oedd gweithrediadau Canolfan Hamadryad yn cael eu peryglu. Roedd hyn yn cynnwys mynediad i'r safle trwy faes parcio'r ganolfan ac, yn olaf, symud rhan o'r maes parcio i hwyluso'r datblygiad.

Roedd ansawdd y dylunio yn ysgogwr allweddol i'r tîm ac i Gyngor Dinas Caerdydd. Bu'r tîm yn gweithio'n galed i ddod o hyd i atebion creadigol a oedd yn sicrhau dyluniad o ansawdd uchel yn unol â'r gyllideb. Cafwyd adeilad sydd nid yn unig yn cynnig llety o safon uchel i breswylwyr, gyda golygfeydd godidog, ond sydd hefyd yn cyfrannu at yr amgylchedd adeiledig ehangach ac yn gwella'i leoliad arbennig. Rhoddwyd ystyriaeth yn y dyluniad hefyd i berthynas y datblygiad â'r gymuned a'r amgylchedd presennol, gan gynnwys yr hen ysbyty Fictoraidd, sef Canolfan Hamadryad a grwpiau o goed aeddfed sy'n bodoli eisoes.

Roedd y datblygiad gwreiddiol yn cynnwys 55 o fflatiau a 20 o dai ac fe gafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr amrywiaeth hwn. Yn hwyr yn y broses ddatblygu, mynegodd Cyngor Dinas Caerdydd eu bod yn awyddus i gaffael y safle ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg. Bu Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd, Morganstone a Chyngor Dinas Caerdydd yn gweithio gyda'i gilydd yn agos yn diwygio'r contractau tir ac adeiladu gyda'i gilydd er mwyn sicrhau y gellid sicrhau cyfran o'r safle ar gyfer datblygiad yr ysgol. O ganlyniad, cafodd y tai eu hepgor o'r contract ac fe gafodd cais newydd ei gyflwyno tra oedd y datblygiad ar y safle ar gyfer y fflatiau fel datblygiad annibynnol.

Mae'r datblygiad adeiladu'n cynnwys bloc pedwar a chwe llawr o 55 o fflatiau ac mae wedi cael ei adeiladu mewn ffrâm ddur ysgafn yn dilyn proses peirianneg gwerth i bennu'r ateb mwyaf economaidd a ffrâm gyflym. Fe wnaeth mabwysiadu dulliau modern i adeiladu oddi ar y safle gyflymu'r broses adeiladu a lleihau aflonyddwch i breswylwyr a'r amgylchedd. Ymgymerwyd â phroses peirianneg gwerth fanwl hefyd o ran yr ateb ynni cyn mabwysiadu offer nwy canolog gyda ffotofoltäig.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyn-cynllunio â'r gymuned leol ar ôl y contract ac ymrwymodd y tîm i nifer o fuddiannau, mentrau ymgysylltu, hyfforddi a chyflogaeth gymunedol.

Gwnaeth y tîm gais am gyllid partneriaeth trosglwyddo gwybodaeth gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i ymchwilio i fethodolegau adeiladu/perfformiad ffabrigau a'r modd y gellid trosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd i brosiectau yn y dyfodol.

Wedi i hyn gael ei gwblhau, cynhaliwyd gweithdai ar y gwersi a ddysgwyd, ac fe gafodd y canfyddiadau eu lledaenu.

### Canlyniadau a chyflawniadau:

- Gweithio mewn partneriaeth – llywodraeth leol, tîm prosiect, cadwyn gyflenwi
- Gwireddu ansawdd y dyluniad
- Cafodd safle marchnad agored ei sicrhau ar gyfer tai fforddiadwy
- Ymgynghori â phreswylwyr
- MMC
- Cwblhawyd y prosiect o fewn y gyllideb
- Cwblhawyd y prosiect ddeufis yn gynnar
- Sgôr Adeiladwr Ystyriol - 41
- 55 o fflatiau wedi'u rhentu
- Safle Tir Llwyd
- Buddiannau cymunedol a mentrau ymgysylltu:
  - Diwrnod o hwyl i'r gymuned ym Mharc Brenhinol Hamadryad
  - Diwrnod o hwyl i'r teulu yn Nhre-biwt
  - Prosiect gardd gymunedol
  - Ras 'Milltir Tre-biwt' i Ymchwil Canser – Nawdd a gweithwyr yn cymryd rhan
  - Ymweliad gan fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd
  - Digwyddiadau elusennol
  - Apêl nwyddau ymolchi Llamau
  - Sports Relief
  - Apêl blwch esgidiau Nadolig
  - Plant mewn Angen
  - Apêl y Pasg, Llamau
  - Rheoli prosiect, deunyddiau a masnachau ar gyfer Prosiect DIY SOS i addasu cartref ar gyfer plentyn anabl
- Iechyd a lles – mae archwiliadau iechyd galwedigaethol ar gyfer gweithredwyr safle, iechyd meddwl, hyfforddiant a chyrsiau lleol ar hybu byw yn iach ar gael
- IHyfforddiant
- I95 o wythnosau hyfforddeion/prentisiaeth
- ILleoliadau hyfforddeion sydd â gradd
- ILleoliad rheolwr safle dan hyfforddiant
- IPrentis – trydanwyr, plymeriaid, seiri coed
- IProsiect LIFT
- I4 hyfforddai – hyfforddiant a swyddi amser llawn ar y safle
- IRhoddwyd swydd barhaol i hyfforddai gyda Morganstone ac fe gafodd ei hyfforddi fel gweithredwr craen a wagen fforch godi
- IPecyn Cymorth Buddiannau Cymunedol 2015/16 - £1.98 Lluosydd Lleol Cymru
- IProsiect prifysgol ymchwil a datblygu'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth
- IGweithdai ar y gwersi a ddysgwyd

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Mae Morganstone Ltd wedi dangos defnydd diddorol o adeiladu oddi ar y safle*

**Antonia John**
Rheolwr ymgysylltu cymunedol

Morganstone Ltd

**Ff:** 01554 779126 / 07983214295
**E:** antonia.john@morganstone.co.uk



## Gofal Ychwanegol Tŷ Heulog, Rhondda Cynon Taf

### Keepmoat gyda Chymdeithas Gofal Hafod, Cyngor Bwrdeistref RhCT, Llywodraeth Cymru

Ty Heulog is an £8million extra care development for older and vulnerable residents in the Talbot Green area of Rhondda Cynon Taf (RCT), which was completed in September 2016.

Replacing the former highways depot, the scheme, built by Keepmoat on behalf of specialist care, support and housing provider Hafod Care, consists of 40 self-contained

apartments and a range of communal facilities including a restaurant, laundry, sensory garden and craft studio.

Ty Heulog has been specially-designed to provide the over 55s with the support they need to continue living independent lives.

### Lefelau uchel o arloesed o ran dylunio ac adeiladu

Mae'r prosiect wedi cael ei ddylunio a'i adeiladu i'r lefelau uchaf o ran ansawdd a manylder, gyda nodweddion sy'n cynnwys:

- Stordy sgwteri symudedd a gorsaf wefru ar bob llawr
- Mynediad i bobl anabl a dau lifft
- Ystafelloedd ymolchi â chymorth ar bob llawr
- Ystafell wlyb unigol gwbl hygyrch ym mhob fflat
- Ffenestr gegin fawr yn edrych ar goridor y 'stryd' sy'n cysylltu â chymdogion gyferbyn
- Eu drysau ffrynt eu hunain i'r preswylwyr
- System unigol i alw'r warden
- Gardd synhwyraidd ddiogel
- Rheoli mynediad annibynnol 24 awr ac adain weinyddol â gofalwr
- Man allanol i storio beiciau

Mae'r fflatiau eang wedi cael eu hinswleiddio a'u hadeiladu i safon o gynaliadwyedd a fydd yn cael gradd 'Da Iawn' o dan fodel cynaliadwyedd Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM).

Yn ystod yr adeiladu, fe wnaethom wynebu heriau technegol pan gafodd tanciau petro-gemegol eu darganfod o fewn y strwythur tir is yn ystod y gwaith cychwynnol wrth baratoi'r seiliau.

Wedyn, cafodd is-strwythurau eu hailddylunio o slab llawr sy'n cynnal pwysau i slab llawr tir crog, fe'u dyluniwyd heb unrhyw oblygiadau cost ychwanegol, ac adferwyd y cynhyrchu heb golli unrhyw amser.

### Gweithio gyda'r gymuned

Trwy gydol y prosiect, gwnaed pob ymdrech i gynnwys y gymuned leol, ac ymgysylltu â hi.

Roedd 40% o weithwyr ar y safle yn byw o fewn 10 milltir ac aeth 12 o bobl ifanc ddi-waith ar brofiad gwaith â thâl ar y safle.

Dewiswyd yr enw Tŷ Heulog gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Tonysguboriau, a fu'n cymryd rhan mewn ymweliadau â'r safle a gweithdai yn ystod y cyfnod adeiladu hefyd. Mae rhan allweddol o fyw yn annibynnol yn ymwneud â chynnal cysylltiadau â'r gymuned leol, a'r gobaith yw y bydd y plant yn ymweld yn rheolaidd pan fydd y cynllun yn agor fis nesaf.

Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys y canlynol:

- helpu gwaith grŷp Cybiau tuag at gael eu bathodynnau tasgau gwneud eich hun a'u bathodynnau amgylcheddol trwy greu 'gwesty i chwilod' gan ddefnyddio 100% o ddeunyddiau safle wedi'u hailgylchu
- darparu gweithgareddau hanner tymor ar gyfer pobl ifanc yng Nghanolfan  Gymunedol Pinwydden
- cynnwys 'cyfleuster newid babanod' brys ar y safle ar gyfer niferoedd mawr y teuluoedd ifanc sy'n pasio yno bob dydd

Cafodd perthnasoedd eu meithrin gyda'r ganolfan gymunedol leol i ddefnyddio'u maes parcio yn gyfnewid am ailbeintio'r tu allan a'r tu mewn i'r adeilad, yn ogystal â darparu nawdd ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys partïon Nadolig i'r henoed.

Mae rhai o'r ardaloedd cymunedol yn Nhŷ Heulog yn agored i bobl leol, er mwyn helpu preswylwyr i gadw cysylltiadau o fewn y gymuned.

### Cefnogi angen am dai

Mae Tŷ Heulog yn ddatblygiad blaenllaw iawn – y cyntaf o'i fath yn RhCT. Mae'r ffaith fod poblogaeth Cymru'n heneiddio a phrinder tai addas yn dra hysbys – mae cynlluniau fel hyn yn helpu i ddatrys y broblem hon trwy ddarparu tai fforddiadwy o safon sy'n galluogi preswylwyr hŷn i fyw yn annibynnol, gyda lefelau unigol o gymorth.

Bydd gan denantiaid gynlluniau gofal a chymorth ar waith, wedi eu teilwra yn unol â'u hanghenion personol a'u cyflwyno yng nghysur eu cartrefi.

### Gwerth am arian

Rydym wedi ymrwymo i beirianneg gwerth o'r cychwyn – gan weithio gyda'n partneriaid i wneud y mwyaf o arbedion maint lle bo modd a darparu'r gwerth gorau am arian.

### Datganiad gan gleient – Cymdeithas Gofal Hafod

*"Mae Tŷ Heulog yn gynllun rhagorol ac mae'n darparu cartrefi o safon mawr eu hangen. Mae dyluniad yr adeilad yn galluogi pobl i fyw yn annibynnol mewn lleoliad cymunedol ac rydym ni'n gwybod bod hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr i iechyd a lles pobl."*

### Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae Tŷ Heulog wedi cael ei ddylunio'n arbennig a'i adeiladu'n bwrpasol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl dros 55 oed i barhau i fyw yn annibynnol.

Y canlyniad yw amgylchedd byw o'r radd flaenaf gyda digon o le, ble bydd tenantiaid yn cael gofal a chymorth wedi ei deilwra yn unol â'u hanghenion a'u cyflwyno yng nghysur eu cartrefi.

Y datblygiad hwn yw'r cyntaf o'i fath yn ardal RhCT.

Mae lefelau uchel o inswleiddio ac adeiladu cynaliadwy yn golygu y bydd yr adeilad yn cyflawni gradd 'Da Iawn' BREEAM.

I sicrhau bod preswylwyr Tŷ Heulog yn cael eu hintegreiddio yn y gymuned ac yn cynnal cysylltiadau â hi, mae rhai o'i ardaloedd cymunedol yn agored i bobl leol.

Roedd y prosiect yn cynnig buddiannau ehangach i'r ardal leol hefyd:

- Roedd 40% o weithlu'r safle yn byw o fewn 10 milltir
- Cafodd 12 o bobl ifanc ddi-waith brofiad gwaith â thâl ar y safle
- Trwy gysylltu ag ysgolion a grwpiau cymunedol lleol, gan gynnwys mathemateg mewn diwrnodau adeiladu ac ymweliadau safle, fe wnaethom gyrraedd dros 900 o blant
- Cafodd Tŷ Heulog ei enwi gan blant ysgol gynradd leol, gan feithrin cysylltiadau rhwng disgyblion a'r datblygiad newydd ar gyfer pobl hŷn yr ydym yn gobeithio y byddant yn parhau yn y dyfodol
- Gradd o 10/10 ('arloesol') ar gyfer 'Cymunedol' gan y Cynllun Adeiladwyr Ystyriol

**Yr hyn a ddywedodd y beirniaid:**

*Llwyddodd Keepmoat i oresgyn amrywiaeth o heriau adeiladu a dangos eu bod wedi dysgu gwersi o gynlluniau blaenorol ar gyfer pobl hŷn*

**Rachel Bettison**
Rheolwr marchnata a chyfathrebu

Keepmoat

**Ff:** 01709766000
**E:** rachel.bettison@keepmoat.com